Adroddiad Terfynol

# Gwerthuso Maethu Lles

Yr Athro Alyson Rees a

Bridget Handley

Gorffennaf 2022



# Partneriaeth Seilwaith CASCADE

Mae ein harbenigedd yn dod â phartneriaeth eithriadol ynghyd. CASCADE yw'r brif ganolfan ar gyfer ymchwil werthusol ym maes gofal cymdeithasol plant yn y DU. Mae'n rhan o Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol (SOCSI), sef canolfan ragoriaeth flaenllaw yn y gwyddorau cymdeithasol ac ymchwil addysg sydd ag arbenigedd penodol mewn dulliau meintiol. Mae'r Ganolfan Treialon Ymchwil (CTR) yn arweinydd cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer treialon a dulliau cysylltiedig. Roedd yr Ysgol Seicoleg yn 2il am ansawdd ymchwil yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf ac mae SAIL yn cynnig cysylltiadau data o'r radd flaenaf. Gyda'n gilydd credwn y gallwn greu newid sylweddol yn ansawdd ymchwil gofal cymdeithasol plant sydd heb ei hail yn y DU a sut caiff ei defnyddio. Yn benodol, gallwn gynnig treialon a gwerthusiadau o ansawdd uchel; cysylltu data er mwyn deall canlyniadau tymor hir, a chynnwys defnyddwyr gwasanaeth (ein cyhoedd) ym mhob rhan o'n hymchwil. Rydym am i'r tair elfen hyn ryngweithio â'i gilydd i gynhyrchu ymchwil heb ei hail.

# Cynnwys


Acknowledgements ..... Error! Bookmark not defined.

Executive Summary ..... Error! Bookmark not defined.

Aims of Fostering Wellbeing ..... Error! Bookmark not defined.

Content of programme ..... Error! Bookmark not defined.

History of Fostering Wellbeing ..... **Error! Bookmark not defined.**

Background ..... Error! Bookmark not defined.

Data collection undertaken ..... **Error! Bookmark not defined.**

Literature review ..... Error! Bookmark not defined.

Findings ..... Error! Bookmark not defined.

Attendance and attrition rates ..... **Error! Bookmark not defined.**

Survey data T1 ..... **Error! Bookmark not defined.**

Interviews with delegates one month after attending masterclasses T2 **Error! Bookmark not defined.**

Interviews with managers one month after attending masterclasses T2 **Error! Bookmark not defined.**

Interviews with delegates 12 months after attendance at masterclasses T3 **Error! Bookmark not defined.**

Interviews with managers 12 months after the masterclasses T3 . **Error! Bookmark not defined.**

Focus groups with pioneers ..... Error! Bookmark not defined.

Interviews with facilitators of the masterclasses. ..... Error! Bookmark not defined.

Perceptions of the masterclasses ..... **Error! Bookmark not defined.**

Interview with Programme Manager ..... **Error! Bookmark not defined.**

Masterclass observations ..... Error! Bookmark not defined.

Evaluation Summaries ..... Error! Bookmark not defined.

Conclusions ..... Error! Bookmark not defined.

Recommendations ..... Error! Bookmark not defined.

References .......................................................................................... Error! Bookmark not defined.

Appendix 1.......................................................................................... Error! Bookmark not defined.

Appendix 2.......................................................................................... Error! Bookmark not defined.

Appendix 3.......................................................................................... Error! Bookmark not defined.

Authors and Contributors ...................................................................... Error! Bookmark not defined.

# Cydnabyddiaethau

Rydym am ddiolch i'r rhanbarthau awdurdodau lleol sy'n rhan o'r rhaglen hyfforddiant Maethu Lles, eu gofalwyr maeth, athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol ac uwch aelodau staff awdurdodau lleol, yr oedd pob un ohonynt wedi rhoi o'u hamser i wneud y gwerthusiad hwn yn bosibl.

## Terminoleg

**Plant sy'n derbyn gofal** – Mae'r diffiniad o blant sy'n derbyn gofal (plant mewn gofal) yr un fath â'r hyn a nodir yn Neddf Plant 1989. Mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol os yw llys wedi rhoi gorchymyn gofal i roi plentyn mewn gofal, neu os yw adran gwasanaethau plant awdurdod lleol wedi gofalu am y plentyn am fwy na 24 awr. Gall yr Awdurdod Lleol fod â chyfrifoldeb rhiant llawn neu un a rennir.

Lleolir plant mewn gofal cyhoeddus gyda gofalwyr maeth, mewn cartrefi preswyl neu gyda rhieni neu berthnasau eraill (dan rai amgylchiadau).

**Lles** – rydym yn defnyddio diffiniad y Rhwydwaith Maethu sy'n cyfeirio at y pum angen sylfaenol: cymdeithasol, corfforol, emosiynol, diwylliannol a dysgu.

**Cydweithwyr Proffesiynol** – Rydym yn defnyddio'r term cydweithwyr proffesiynol ar gyfer y gweithwyr proffesiynol hynny a oedd yn rhan o'r astudiaeth, nad oeddent yn ofalwyr maeth.

# Crynodeb Gweithredol

Dyma werthusiad o'r rhaglen Maethu Lles a dreialwyd ledled Cymru.

Ar gyfer y gwerthusiad:

- Rydym wedi cyfweld 26 o gynrychiolwyr fis ar ôl mynychu'r dosbarthiadau meistr.
- Rydym wedi cyfweld tri rheolwr fis ar ôl mynychu'r dosbarthiadau meistr.
- Rydym wedi arsylwi pob un o'r pum dosbarth meistr.
- Rydym wedi arolygu 105 o gyfranogwyr a fynychodd ddosbarth meistr.
- Rydym wedi cyfweld pum hwylusydd.
- Rydym wedi cael mynediad at ddata presenoldeb a gadael cyn gorffen.
- Rydym wedi cael mynediad at y gwerthusiadau a gasglwyd gan y Rhwydwaith Maethu.
- Rydym wedi ail-gyfweld 12 cynrychiolydd, 12 mis ar ôl mynychu’r dosbarthiadau meistr i weld i ba raddau maen nhw wedi gallu gwreiddio a gweithredu'r hyn a ddysgwyd yn ymarferol.
- Rydym wedi ail-gyfweld y tri rheolwr, 12 mis ar ôl mynychu'r dosbarthiadau meistr.
- Rydym wedi cynnal dau grŵp ffocws gydag arloeswyr.
- Rydym wedi cyfweld rheolwr y rhaglen Maethu Lles.

### Canfyddiadau

1. Dechreuodd y dosbarthiadau meistr wyneb yn wyneb, ond fe’u hataliwyd oherwydd cyfyngiadau clo Covid. Yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, cafodd y dosbarthiadau meistr eu mireinio, eu haildrefnu a'u rhanbartholi fel y gellid eu darparu ar-lein, ac maen nhw’n enghraifft ragorol o gyflwyno rhithiol effeithiol.
2. Mynychodd y tîm cyflwyno hyfforddiant addysgeg gymdeithasol yn ystod y cyfnod clo cychwynnol ac mae hyn wedi cael ei wreiddio'n fwy eglur o lawer yn y cynnwys.
3. Croesawyd y cynnwys gan y mwyafrif llethol ac fe’i hategir gan ystod o daflenni a deunyddiau atodol. Mae'r cynnwys yn well o lawer na chynllun peilot 2019.
4. Ystyrir bod y dulliau hwyluso’n ddiddorol a rhyngweithiol. Gwnaed sylwadau cadarnhaol ar fedrusrwydd a brwdfrydedd yr hwyluswyr.

5 Mae'r dull darparu ar-lein yn golygu y bu'n llawer mwy ymarferol i ofalwyr maeth a chydweithwyr proffesiynol prysur fynychu.

6 Cyfeiriwyd at y cyflwyniadau gan Benaethiaid Gwasanaeth yn helaeth ac ystyrir eu bod yn rhoi statws a chymeradwyaeth i'r hyfforddiant.

7 Mae'r dosbarthiadau meistr wedi defnyddio siaradwyr sy'n arbenigwyr mewn ystod eang o ddisgyblaethau sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys lleferydd ac iaith; croesawyd y rhain yn arbennig. Mae llawer o'r siaradwyr yn lleol, gan fod y dosbarthiadau meistr wedi'u teilwra i bob rhanbarth.

8 Roedd gan lai o siaradwyr brofiad o ofal nag yn y cynllun peilot blaenorol.

9 Soniodd llawer fod angen mwy o amser mewn ystafelloedd ymneilltuo i drafod.

10 Mae gweithio ar-lein yn darparu llai o gyfleoedd i rwydweithio.

11 Mae natur amlddisgyblaethol yr hyfforddiant yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr. Adroddir am fwy o barch ymhlith aelodau tîm.

12 Mae'r prif negeseuon ynglŷn â phwysigrwydd cynnwys y gofalwr maeth yn y tîm o amgylch y plentyn ac wrth wneud penderfyniadau cysylltiedig wedi cael eu derbyn. Dywedodd cynrychiolwyr fod addysg a gofalwyr maeth bellach yn cael eu cynnwys fel mater o drefn mewn cyfarfodydd yn ymwneud â'r plentyn.

13 Mae llawer o enghreifftiau o'r sgiliau a'r hyn a ddysgwyd yn cael eu defnyddio'n ymarferol ac yn ffurfio'r sail i drafodaeth rhwng gofalwyr maeth ac ymarferwyr yn y maes.

14 Mabwysiadwyd mwy o ddulliau sy'n ystyriol o drawma.

15 Mae cynrychiolwyr yn dweud eu bod yn fwy ymwybodol o'u hymatebion o ganlyniad i fynychu'r dosbarthiadau meistr.

16 Dywedodd cynrychiolwyr fod ganddynt fwy o empathi i blant.

17 Mae gan gynrychiolwyr ymdeimlad cryf o ethos sylfaenol addysgeg gymdeithasol a'r syniad o weithio gyda'r plentyn cyfan. Cadwyd llawer o'r dysgu a'r ddealltwriaeth o bwysigrwydd profiadau blaenorol plant hefyd.

18 Mae'r rhaglen wedi gwreiddio dealltwriaeth glir o rôl y rhiant corfforaethol fel cyfrifoldeb pawb.

19 Mae gofalwyr maeth wedi teimlo eu bod wedi'u grymuso i fod yn eiriolwyr cryfach dros y plant sydd yn eu gofal ac wedi gallu rhoi llawer o enghreifftiau i ni o hyn.

20 Nid yw cydweithwyr proffesiynol wedi mynychu'r dosbarthiadau meistr mor helaeth ag y gobeithiwyd, yn enwedig y rhai hynny o addysg ac iechyd. Pan oeddent wedi mynychu, nid oedd llawer wedi mynychu pob un o'r pum sesiwn.

21 Ystyrir bod cefnogaeth gan reolwyr yn hollbwysig i annog cofrestru, gan atgyfnerthu gwerth yr hyfforddiant ac ysgogi presenoldeb. Roedd y tri rheolwr a gyfwelwyd wedi mynychu'r dosbarthiadau meistr, gan arwain drwy esiampl. Roedd y tri yn hyrwyddo'r rhaglen.

22 Gallai sesiynau dilynol pellach ar ôl y dosbarthiadau meistr helpu i atgyfnerthu a gweithredu'r hyn a ddysgwyd, ac ymestyn a gwreiddio sgiliau ac arferion newydd ymhellach.

23 Nid yw cymorth ar gyfer gwasanaethau a chynlluniau gweithredu wedi'u datblygu'n llawn a'u gweithredu eto. Mae hwn yn faes gwaith parhaus.

24 Mae'r model arloesi yn y cyfnod cynnar; recriwtiwyd 57 ac mae'r mwyafrif wedi derbyn hyfforddiant ac yn cymryd rhan weithredol mewn datblygu'r rôl. Disgwylir i rôl yr arloeswr helpu i ddarparu rhwydwaith o gymorth i ofalwyr maeth. Mae'r model yn dangos arwyddion gwych o addewid.

25 Mae Maethu Lles yn ffordd effeithiol o hyrwyddo addysgeg gymdeithasol, lles a'r tîm o amgylch y plentyn, gan adlewyrchu blaenoriaethau llywodraethol.

## Argymhellion

1 Mae'r dosbarthiadau meistr yn parhau i gael eu cyflwyno ar-lein gan y Rhwydwaith Maethu. Mae'n aneglur p'un a fydd y galw'n bodoli mewn awdurdodau lleol penodol, o ystyried yr amcangyfrifir bod 15% o ofalwyr Maethu Cymru awdurdodau lleol eisoes wedi'u hyfforddi, a llawer mwy gan rai awdurdodau lleol. Mae'n debygol, felly, bod darpariaeth ranbarthol yn fwy ymarferol.

2 Mae angen hyrwyddo'r rhaglen yn fwy os yw Maethu Lles am gyrraedd pob rhan o Gymru: dylai hyn gynnwys lledaenu rhywfaint o'r adborth cadarnhaol a gafwyd eisoes. Dylai'r deunydd hyrwyddo fod yn ddyheadol, gan ddatgan manteision posibl y rhaglen yn glir.

3 Mae angen i gydweithwyr proffesiynol gael eu hannog yn gryf neu eu cyfarwyddo i fynychu, ac felly mae cefnogaeth gan reolwyr yn hanfodol. Byddai arwain drwy esiampl, gyda rheolwyr yn mynychu, yn ddefnyddiol i feithrin newid mewn diwylliant tîm.

4 Os yw'r Rhwydwaith Maethu'n cynnal y dosbarthiadau meistr, mae angen i awdurdodau gael y dyddiadau ymhell ymlaen llaw i'w cynnwys yn eu calendrau hyfforddi blynyddol.

5 Dylid ystyried cydhwyluso'r dosbarthiadau meistr gan ofalwr maeth, gan fodelu'r negeseuon o'r rhaglen.

6 Dylai'r dosbarthiadau meistr dreulio llai o amser ar yr egwyddorion a neilltuo mwy o amser i drafod (mae hyn wedi'i weithredu'n rhannol).

7 Er mwyn helpu i ymgorffori'r hyn a ddysgwyd, gallai'r cyfranogwyr dreulio ychydig mwy o amser yn myfyrio yn ystod y sesiwn ac yna trafod eu harferion wedi'u haddasu mewn grwpiau trafod ar ddechrau'r sesiwn ganlynol.

8 Dylai pob dosbarth meistr gynnwys o leiaf un cyfraniad gan berson ifanc sydd â phrofiad o ofal, yn ddelfrydol mwy (gallai rhai o'r rhain gael eu recordio ymlaen llaw, fel nad yw pobl yn gorfod ailadrodd eu straeon dro ar ôl tro, ond bydd angen gofyn am ganiatâd yn rheolaidd i barhau i'w defnyddio).

9 Cyflwynir y cwricwlwm ysgol newydd yn nosbarth meistr pedwar, ond gellid ymdrin yn fanylach â'r pwnc hwn, oherwydd efallai na fydd llawer o ofalwyr maeth yn ymwybodol o gwricwlwm newydd Cymru a'r dull ysgol gyfan. Yn ogystal, byddai'n ddefnyddiol rhoi diweddariadau i gynrychiolwyr ar y newidiadau mewn cymorth addysg i'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r symudiad tuag at gynlluniau datblygu unigol. Yn y modd hwn, mae gwybodaeth i weithwyr addysg a chanddynt yn llifo i'r ddau gyfeiriad.

10 Dylid dilyn y dosbarthiadau meistr gan ddigwyddiad wyneb yn wyneb i ganiatáu ar gyfer rhwydweithio. Gallai hyn gael ei gydhwyluso gan arloeswyr. Gellid gweithredu system gyfeillio ffurfiol er mwyn i'r cynrychiolwyr baru â'i gilydd i drafod sut i ymgorffori'r hyn a ddysgwyd yn ymarferol.

11 Dylid datblygu set o ddosbarthiadau meistr wedi'u teilwra i fyd addysg (gobeithir y bydd sesiynau cyfnos yn cael eu treialu cyn diwedd y cynllun peilot). Gallai diwrnodau hyfforddi athrawon gael eu nodi a'u dyrannu at y diben hwn hefyd. Bydd yn bwysig cynnwys cydweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys gofalwyr maeth, fel nad yw'r budd a geir o ddysgu amlddisgyblaethol yn cael ei golli.

12 Gallai'r dosbarthiadau meistr gael eu cynnig i rieni sydd wedi mabwysiadu plant yn ddiweddar.

13 Er mwyn cyrraedd pob plentyn sy'n derbyn gofal, gallai pob gofalwr a thîm gwaith cymdeithasol yn y sector annibynnol, gan gynnwys lleoliadau preswyl, gael cynnig mynediad i'r rhaglen.

14 Mae angen i'r model arloesi gael cydlynydd rhanbarthol clir a dylid cynnig cymorth i arloeswyr, y mae cyllideb ariannol wedi'i dyrannu iddo.

15 Byddai brand cenedlaethol newydd Maethu Cymru a'i wefan gysylltiedig yn gweddu'n dda i hyrwyddo'r model arloesi ac fe allai fod yn blatfform addas i gadw'r Padedi, yr adnoddau a manylion cyswllt arloeswyr. Byddai angen i hyn gael ei gydlynu'n genedlaethol.

16 Awgrymwyd y dylai fod o leiaf dri i bedwar arloeswr fesul awdurdod lleol, gyda llinellau atebolrwydd clir. Pe bai gormod yn cael eu recriwtio yna mae'n debygol y bydd angen rhyw fath o ddull dethol.

17 Dylai rhai arloeswyr ddod â phrofiad o ofal gan berthynas; mae angen recriwtio rhai arloeswyr gwrywaidd hefyd.

18 Dylai'r Rhwydwaith Maethu wneud mwy o waith i ddatblygu cysylltiadau mewn awdurdodau lleol i helpu i ddatblygu cynlluniau gweithredu rhanbarthol er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol a rhanbarthau'n llwyr gefnogi'r rhaglen Maethu Lles.

19 Byddai ymrwymiad mwy hirdymor i'r rhaglen yn darparu cynaliadwyedd ac yn galluogi awdurdodau i ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o Faethu Lles.

20 Adolygu ei nod o 'wella canlyniadau addysgol i blant'. O ystyried nad dyma yw prif bwyslais y rhaglen, fe allai fod yn ddefnyddiol ei ddiwygio.

# Nodau Maethu Lles

Rhaglen amlasiantaethol yw Maethu Lles sy'n ceisio gwella lles a chanlyniadau addysgol plant mewn gofal yng Nghymru. Dyluniwyd y rhaglen ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal. Yn benodol, nod y rhaglen yw:

1 Amlygu a rhannu'r gwerthoedd a'r egwyddorion craidd a fydd yn helpu plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i ffynnu;

2 Datblygu sgiliau a chymwyseddau cyffredin a fydd yn helpu i baratoi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i gyflawni eu potensial;

3 Dod yn hyderus mewn dull cyffredin a chyson o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a fydd, yn ei dro, yn tanio uchelgais ac yn eu helpu i sicrhau llwyddiant;

4 Bod yn eiriolwyr gweithredol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt, boed hynny fel unigolion neu'n gorfforaethol.

# Cynnwys y rhaglen

Menter a ddyfeisiwyd gan y Rhwydwaith Maethu yw Maethu Lles sydd wedi'i threialu yng Nghwm Taf gan ddefnyddio elfennau o'r rhaglen Head, Heart and Hands (McDermid et al. 2016) a model Cyflawniad Maethu Llundain (Sebba et al. 2016) wedi'i gosod yng nghyd-destun Cymru. Mae'r gwerthusiad hwn yn ymdrin â'r rhaglen Maethu Lles a dreialwyd ledled Cymru. Mae'r rhaglen Maethu Lles yn cynnwys tair ffrwd waith:

i. Cyflwyno cyfres o bum dosbarth meistr â thema i aelodau amlddisgyblaethol sy'n gweithio yn y tîm o amgylch y plentyn (gwaith cymdeithasol, iechyd, addysg, cyfiawnder ieuenctid). Ceir copi o enghraifft o'r fframwaith hwylusydd dosbarth meistr ar gyfer dosbarth meistr un yn Atodiad 1.

ii. Datblygu rôl gofalwr maeth arloesol i helpu i ymgorffori egwyddorion Maethu Lles ar draws y gwasanaethau a chefnogi datblygiad gwaith amlddisgyblaethol.

iii. Cymorth a chynllun gweithredu'r gwasanaeth.

Mae Maethu Lles yn dod â gofalwyr maeth at ei gilydd gyda gweithwyr proffesiynol eraill i rannu arfer gorau ar draws ffiniau gwasanaethau.

Mae Ffigur un yn crynhoi deg egwyddor y rhaglen.

## Y Rhaglen Maethu Lles: Deg Egwyddor

1 Rhaid diwallu holl anghenion y plentyn h.y. deall ac ymateb i'r plentyn/person ifanc cyfan i wella ei les;

2 Bydd barn pob unigolyn am fywyd a'r byd ehangach yn wahanol, a fydd yn deillio o'i gefndir, ei brofiadau a'i feddylfryd ei hun;

3 Mae perthnasoedd da yn ganolog i les person;

4 Ni ellir dadwneud yr hyn sydd wedi digwydd ond gellir ei ddeall a darparu gwersi ar gyfer y dyfodol;

5 Mae annog dyhead ac uchelgais yn hanfodol wrth ddatblygu agweddau cadarnhaol;

6 Mae gan bawb sy'n ymwneud â phlentyn/person ifanc sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y gofalwyr maeth a'r plant/pobl ifanc, statws cyfartal yn y berthynas;

7 Mae angen egluro gwerthoedd ac agweddau pawb sy'n ymwneud â phlentyn/person ifanc sy'n derbyn gofal;

8 Y ffordd orau o feithrin gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol yw trwy weithgareddau ymarferol a rennir rhwng plentyn/person ifanc a gofalwr maeth;

9 Mae dysgu i helpu chi’ch hun yr un mor bwysig â dysgu meithrin perthnasoedd;

10 Mae angen i'r rheini sy'n gweithio gyda phlentyn/person ifanc sy'n derbyn gofal wybod y gwahaniaeth rhwng ei ymddygiad proffesiynol, personol a phreifat ac ym mha sefyllfaoedd y mae'r ymddygiad priodol yn berthnasol.

*Ffynhonnell: adroddiad mewnol gan dîm dylunio a gweithredu Maethu Lles*

Ffigur 1 Deg Egwyddor

## Hanes Maethu Lles

Mae’r Rhaglen Maethu Lles wedi’i seilio ar ddulliau dysgu o ddau brosiect peilot. Y cyntaf oedd rhaglen Head, Heart, Hands y Rhwydwaith Maethu, a gynhaliwyd dros gyfnod o 4 blynedd o 2012-2016 ac a oedd yn cynnwys gofalwyr maeth a staff mewn gwasanaethau maethu. Ei nod cyffredinol oedd datblygu dull addysgeg gymdeithasol o fewn gofal maeth yn y Deyrnas Unedig (McDermid et al. 2016 tud.3). Mae'r rhaglen Maethu Lles hefyd wedi’i seilio ar raglen Cyflawniad Maethu Llundain (Sebba et al. 2016) a dreialwyd rhwng 2014 a 2015 yn 29 o Fwrdeistrefi Llundain gyda’r nod o wella canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal. Roedd y rhaglen yn cynnwys hyfforddiant cyffredinol i ofalwyr maeth ar addysg, darparu pedwar dosbarth meistr hanner diwrnod ar gyfer gofalwyr maeth, athrawon a gweithwyr cymdeithasol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, gwaith uniongyrchol gyda'r ysgol a chreu rôl hyrwyddwr gofal maeth addysgol. Nodwyd mai’r ‘cymysgedd’ o gyfranogwyr oedd yn cael ei ystyried fel yr agwedd fwyaf gwerthfawr ar y dosbarthiadau meistr gan fod hyn yn galluogi pobl i ddeall rolau ei gilydd yn well (Sebba et al. 2016). Mae Maethu Lles wedi’i seilio ar agweddau llwyddiannus y ddwy raglen beilot, gan greu model hybrid. O'r astudiaeth Head, Heart, Hands ymgorffori addysgeg gymdeithasol a'i hegwyddorion ar draws ymarfer gofal maeth, gan helpu gofalwyr maeth i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fwy a chymeradwyo eu hymarfer (McDermid et al.  2015). Mae Maethu Lles yn ceisio mynd i'r afael â rhywfaint o'r gwrthwynebiad a geir yn y system ehangach yn ôl yr astudiaeth Head, Heart, Hands drwy rannu arfer gorau ar draws ffiniau gwasanaethau a galluogi pawb dan sylw i fod yn eiriolwyr gweithredol ar ran y plentyn. O London Fostering Achievement, mae'r hyfforddiant Maethu Lles yn ystyried y ‘dosbarthiadau meistr’. Un o'r amcanion allweddol, a'r rhesymeg y tu ôl i ddatblygu'r dosbarthiadau meistr yw sicrhau parhad yn y gefnogaeth ar gyfer lles a dysgu rhwng y cartref, gofal cymdeithasol a'r ysgol. Mae Maethu Lles hefyd yn cyflogi arloeswyr gofalwyr maeth (a gaiff eu galw’n hyrwyddwyr yn y model London Fostering Achievement). Mae'r model Maethu Lles yn seiliedig ar hyfforddiant ar y cyd y gwelwyd ei fod yn llwyddiannus yn y ddwy astudiaeth.

# Cefndir

Mae'r gwerthusiad hwn yn dilyn ymlaen o'r gwerthusiad peilot dwy flynedd o Faethu Lles a gynhaliwyd rhwng 2017 a 2019 (Rees et al. 2019 https://orca.cardiff.ac.uk/128577/). Cynhaliwyd y gwerthusiad peilot cychwynnol yng Nghwm Taf. Roedd gwerthusiad Cwm Taf yn gadarnhaol, ond nodwyd amrywiaeth o awgrymiadau ar gyfer gwella ac mae nifer o'r rhain wedi cael eu gweithredu, yn sgil cwtogi'r cynnwys, byrhau'r sesiynau a rhoi pwyslais cliriach ar addysgeg gymdeithasol. Wedi llwyddiant y cynllun peilot cychwynnol, bwriadwyd cyflwyno'r rhaglen hyfforddi Maethu Lles ledled Cymru. Mae'r gwerthusiad hwn yn ymdrin â'r rhaglen Cymru gyfan a gyflwynwyd yn ystod 2020-2022.

Dechreuodd y dosbarthiadau meistr wyneb yn wyneb a chyflwynwyd y set gyntaf ym mis Chwefror 2020 i Gaerdydd a'r Fro. Fodd bynnag, arweiniodd dechrau COVID yn hwyr ym mis Mawrth 2020 a'r cyfnod clo dilynol at oedi'r rhaglen hyfforddi, a gohirio'r ddarpariaeth yng Ngorllewin Morgannwg a Gogledd Cymru a oedd i fod i ddechrau ym mis Mehefin 2020.

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, manteisiodd yr hwyluswyr ar y cyfle i aildrefnu a diwygio'r deunyddiau ymhellach fel y gellid eu darparu ar-lein. Yn ystod y cyfnod hwn, ymgymerodd y tîm darparu â hyfforddiant, gan gwblhau rhaglen deg wythnos trwy'r Rhwydwaith Datblygu Addysgeg Gymdeithasol, https://www.coursera.org/learn/social-pedagogy-europe i sicrhau bod y cysyniadau hynny wedi'u gwreiddio'n llawn yn y dosbarthiadau meistr. Roedd yr ad-drefnu hwn hefyd wedi caniatáu i'r hwyluswyr deilwra'r deunyddiau ymhellach i'r gwahanol ranbarthau. Disgrifir y gweithgarwch hwn yn nogfennau adrodd y Rhwydwaith Maethu rhwng mis Awst a mis Hydref 2020. Dechreuwyd cyflwyno ar-lein ym mis Chwefror 2021. Heb os, mae cynnwys y dosbarthiadau meistr wedi gwella o'r cynllun peilot lleol cychwynnol a gynhaliwyd yn 2019. Yn ystod cyfnod o ynysu ac ansicrwydd i ofalwyr maeth, darparodd yr hyfforddiant ymdeimlad o gymuned, strwythur a chefnogaeth.

## Y data a gasglwyd

Mae'r gwerthusiad wedi cynnwys yr 13 ffrwd waith ganlynol:

### 1 Adolygiad o lenyddiaeth

Mae hwn yn rhoi crynodeb o'r llenyddiaeth berthnasol.

### 2 Arolygon

Casglwyd arolygon gan ofalwyr maeth a chydweithwyr proffesiynol a fynychodd ddosbarth meistr 1 (T1) rhwng mis Chwefror 2021 a mis Mehefin 2021 (rowndiau un, dau a thri). Casglodd yr arolwg rywfaint o ddata demograffig am y cynrychiolwyr ac fe'i mapiwyd i amcanion y rhaglen. Rydym wedi casglu a choladu 105 o arolygon.

### 3 Presenoldeb a Gadael Cyn Gorffen

Rydym wedi derbyn data presenoldeb a gadael cyn gorffen gan y Rhwydwaith Maethu ynglŷn â hyfforddiant dosbarth meistr a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mehefin 2021 (rowndiau dau a thri).

### 4 Cyfweliadau ar ôl mis

Mae cyfweliadau lled-strwythuredig wedi cael eu cynnal gyda sampl o gyfranogwyr o Went; Gogledd Cymru; Canolbarth a Gorllewin Cymru; Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe; a Chaerdydd a'r Fro a fynychodd y dosbarthiadau meistr. Cynhaliwyd cyfweliadau un mis ar ôl cwblhau dosbarth meistr pump (T2). Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am lefel eu hymgysylltiad â'r rhaglen (i archwilio ffactorau a oedd wedi eu helpu i ymgysylltu â'r rhaglen neu eu rhwystro rhag gwneud hynny). Defnyddiwyd data cyfweliad yn T2 i gael canfyddiadau o'r hyfforddiant a chredoau ynglŷn â'r hyn y mae'r cyfranogwyr yn dymuno ei newid. Fe wnaethom gyfweld 26 o gyfranogwyr (N= 26), 18 o ofalwyr maeth ac 8 cydweithiwr proffesiynol yn T2.

### 5 Cyfweliadau ag uwch reolwyr un mis ar ôl y dosbarthiadau meistr

Fe wnaethom gyfweld tri uwch reolwr fis ar ôl mynychu'r dosbarthiadau meistr (T2) i archwilio eu profiadau ohonynt, er mwyn helpu i ystyried y berthynas rhwng cefnogaeth gan reolwyr a phresenoldeb.

### 6 Cyfweliadau â hyfforddwyr y rhaglen

Rydym wedi cynnal cyfweliadau â phum hyfforddwr i archwilio canfyddiadau o sut newidiodd yr hyfforddiant ar draws carfanau ac ymatebolrwydd y gwahanol gynulleidfaoedd (N= 5).

### 7 Arsylwi dosbarthiadau meistr

Rydym hefyd wedi arsylwi pob un o'r pum dosbarth meistr.

### 8 Cyfweliadau ar ôl 12 mis

Fe wnaethom gyfweld deuddeg o gynrychiolwyr dosbarth meistr, deuddeg mis ar ôl cwblhau'r dosbarthiadau meistr yn T3. Defnyddiwyd y cyfweliadau hyn i archwilio effaith yr hyfforddiant dros y cyfnod o 12 mis a mapio data gwaelodlin i'r newid a adroddwyd dros amser.

### 9 Cyfweliadau ag uwch reolwyr ar ôl 12 mis

Fe wnaethom gyfweld yr un tri rheolwr eto ar ôl 12 mis T3, i archwilio ymgysylltu â deunyddiau'r dosbarth meistr, cefnogaeth gwasanaeth a chynllunio gweithredu.

### 10 Grwpiau ffocws gydag arloeswyr

Datblygwyd y rôl arloeswr ers dechrau 2022 ac fe gynhaliom ddau grŵp ffocws gydag arloeswyr ym mis Mai 2022.

### 11 Cyfweliad â rheolwr y rhaglen

Gwnaethom gyfweld rheolwr y rhaglen Maethu Lles ym mis Ebrill 2022, i roi trosolwg o sut oedd cynllun peilot Cymru gyfan Maethu Lles wedi gweithredu, gan amlygu'r hyn a ddysgwyd, heriau a dyheadau ar gyfer dyfodol y rhaglen.

### 12 Gwerthuso dosbarthiadau meistr

Rydym wedi coladu'r gwerthusiadau a ledaenwyd gan y Rhwydwaith Maethu.

### 13 Datblygu model rhesymeg

Rydym wedi datblygu model rhesymeg ar gyfer yr ymyrraeth.

Mae pob cyfweliad a grŵp ffocws ar draws yr astudiaeth wedi cael eu trawsgrifio gan wasanaeth trawsgrifio annibynnol. Er mwyn dadansoddi'r data, dilynodd y ddau ymchwilydd y fframwaith chwe cham a awgrymwyd gan Braun a Clark (2015), sef (i) Ymgyfarwyddo â'r data (ii) Codio (iii) Chwilio am themâu (iv) Adolygu a chroeswirio ar gyfer themâu rhwng y ddau ymchwilydd (v) Diffinio ac enwi themâu (vi) Ysgrifennu'r data.

## Cwestiynau Ymchwil

1. *Cwestiwn Un* - Archwilio'r rhaglen Maethu Lles i asesu a yw'r dosbarthiadau meistr yn cael eu cyflwyno i safon foddhaol
2. *Cwestiwn Dau* - Sut mae mynychu'r dosbarthiadau meistr wedi newid ymarfer gyda phlant
3. *Cwestiwn Tri* - Penderfynu a yw Maethu Lles wedi arwain at fwy o ymgysylltu rhwng gofalwyr maeth, a'r tîm o amgylch y plentyn?
4. *Cwestiwn Pedwar* - Adolygu rôl yr arloeswr a'i gweithredu
5. *Cwestiwn Pump* - Asesu lefelau ymgysylltiad y gwasanaeth â'r rhaglen a chynaliadwyedd yn y dyfodol

# Adolygiad llenyddiaeth

## Rôl Gofalwyr Maeth

Mae maethu'n rôl werth chweil (Wilks a Wise 2011) ac mae'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu 'cymorth sensitif a strwythuredig' i blant mewn gofal maeth yn aml yn ymestyn y tu hwnt i brofiadau normadol o fagu plant (Murray et al. 2011, tud. 149). Mae llawer o blant mewn gofal wedi bod yn agored i gamdriniaeth ac esgeulustod, camddefnyddio alcohol/cyffuriau gan rieni ac wedi gweld trais domestig (Senedd Cymru 2018). Ar ben hynny, mae llawer yn mynd i ofal gydag iechyd corfforol gwael (Halfon et al. 1995) ac efallai bydd ganddynt ganlyniadau addysgol gwaeth o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (Sebba et al. 2015). Gall y cyfuniad hwn o brofiadau bywyd negyddol arwain at anawsterau emosiynol, ac eto mae'n anodd i lawer o blant gael mynediad at ddarpariaeth ar gyfer iechyd meddwl (Tarren-Sweeney 2008). Gall anghenion cymhleth plant fod yn heriol i deuluoedd maeth, a waethygir yn aml gan natur fyrhoedlog y berthynas (Nutt 2006), a pherthnasoedd anodd gyda rhieni biolegol (y Rhwydwaith Maethu ac AFA Cymru 2019) ac weithiau gydag ymarferwyr gofal cymdeithasol y plant, sy'n arwain at lefelau uchel o straen emosiynol (Wilson et al. 2000).

Mae gofalwyr maeth yn chwarae rhan bwysig ym mywydau plant sydd mewn gofal ac maen nhw'n gallu i helpu i gefnogi iechyd emosiynol a meddyliol trwy eu harbenigedd wrth ddeall y plentyn unigol (Fergeus et al. 2017). Cydnabyddir ansawdd y gofal dyddiol a ddarperir gan ofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau fel ffactor pwysig ar gyfer gwella lles ac iechyd meddwl (Grŵp Gwasanaethau Datblygu 2015), ond nid yw hyn bob amser yn cael ei gydnabod yn llawn gan ymarferwyr gofal cymdeithasol (Maclay et al. 2006). Mae angen hyfforddiant wedi'i dargedu i sicrhau'r cymorth gorau posibl i ofalwyr maeth (Fergeus et al. 2019). Fodd bynnag, ystyrir bod llawer o'r cymorth a'r hyfforddiant ffurfiol a gaiff ofalwyr maeth yn cael effaith gyfyngedig ar ymddygiad (Everson-Hock et al. 2012).

Ymchwiliwyd i ganfyddiadau gofalwyr maeth o gymorth a hyfforddiant mewn astudiaeth yn Seland Newydd a edrychodd ar sut mae gofalwyr maeth yn cael eu cynorthwyo i reoli eu 'baich uchel o ofal' (Murray et al. 2011). Roedd y gofalwyr maeth yn ystyried eu hunain yn fedrus wrth fagu plant ond yn cydnabod realiti'r straen uchel sy'n cael ei greu gan yr anawsterau cymhleth a brofir gan lawer o blant mewn gofal. Canfuwyd bod cefnogaeth emosiynol yn fwy effeithiol mewn lleoliadau sicr lle mae perthynas ymddiriedus yn cael ei sefydlu â gofalwyr maeth. Yn ogystal, dywedwyd bod dechrau'r lleoliad wedi'i nodweddu gan ddarparu gofal dwys i helpu i bontio i'r cartref a chynorthwyo adferiad. Amlinellodd y cyfranogwyr fod angen deall y rhesymau dros ymddygiad a sut i reoli ac ymateb i anawsterau iechyd meddwl trwy ddarparu cymorth a hyfforddiant dwys (Murray, 2011).

## Dysgu a Datblygu

'Mae gofalwyr maeth yn gweithredu mewn man penodol,' lle caiff proffesiynoldeb ei ddarparu mewn cartref teuluol (McDermid 2019, tud. 23) ond nid ydynt yn cael eu cydnabod gan ddynodiad proffesiynol penodol. At hynny, heblaw am fodloni rheoliadau statudol (Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018), nid oes unrhyw ofynion gorfodol na chymwysterau rhagnodedig ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan (McDermid 2019). Mae rhai galwadau am gydnabod

eu statws proffesiynol, ond mae McDermid et al. (2012) yn adrodd am dystiolaeth groes ynglŷn ag effaith mwy o broffesiynoli.

Mae hyfforddiant ymsefydlu a hyfforddiant parhaus i ofalwyr maeth wedi dod yn fwy sefydledig yng Nghymru. Cyflwynwyd Fframwaith Sefydlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Gyfan ym mis Ebrill 2018 (Gofal Cymdeithasol Cymru 2022), ond nid yw hyn bellach yn rhan o'r gofynion craidd ar gyfer gofalwyr maeth. Mae gan ofalwyr maeth farn gadarnhaol am yr hyfforddiant cyn-gymeradwyo, ond cydnabuwyd bod yr hyfforddiant ôl-gymeradwyo yn anghyson ledled Cymru (TFN ac AFA Cymru 2019). Ymdrinnir â'r anghysondeb hwn mewn hyfforddiant gan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol (NFF), sy'n Fframwaith Dysgu a Datblygu Ôl-gymeradwyo ar gyfer gofalwyr maeth ledled Cymru (https://fosterwales.gov.wales). Mae'r wybodaeth graidd yn ddysgu gorfodol i ofalwyr maeth awdurdodau lleol, a gefnogir gan Benaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan, a'i nod yw cyflawni tair egwyddor. Yn gyntaf, ei nod yw creu llwybr ar gyfer dysgu a datblygu. Yn ail, ei nod yw creu cyfleoedd i ofalwyr maeth a theuluoedd elwa o brofiadau dysgu a rennir, ynghyd â gweithwyr proffesiynol, fel rhan o'r tîm o amgylch y plentyn. Yn drydydd, nod yr hyfforddiant yw sicrhau ansawdd a chynnwys cyson. Mae Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol Maethu Cymru yn trefnu i'r fframwaith hwn gael ei weithredu'n lleol trwy ddefnyddio cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb, dysgu ar-lein, mentora cyfoedion, hunanddysgu a dysgu trwy ymarfer (TFN ac AFA Cymru 2019).

Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu cynlluniau dysgu a datblygu awdurdodau lleol, fel yr amlinellir yn adroddiad Cyflwr y Genedl: Gofal Maeth 2021 (y Rhwydwaith Maethu 2021) a arolygodd 3,353 o ofalwyr maeth ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys 256 o aelwydydd maethu yng Nghymru (192 o ofalwyr maeth awdurdodau lleol a 64 o ofalwyr maeth sy'n maethu ar gyfer gwasanaethau maethu annibynnol) a 99 o wasanaethau maethu. Mae'r adroddiad yn nodi bod gan 57% o awdurdodau lleol yng Nghymru gynllun dysgu a datblygu cytunedig, tra bod 31% heb gynllun o'r fath, ac nid oedd 12% yn gwybod. Ar y llaw arall, roedd gan 66% o'r Gwasanaethau Maethu Annibynnol fframwaith sefydledig, nid oedd gan 22% fframwaith o'r fath ac nid oedd 12% yn gwybod. At hynny, mae'r adroddiad hwn yn dangos y byddai gofalwyr maeth yn gwerthfawrogi mwy o fynediad at hyfforddiant ar ofal sy'n ystyriol o drawma, cefnogaeth gan gyfoedion ac arweiniad y tu allan i oriau o fewn system sy'n cynyddu statws y gofalwyr maeth. Mae ymrwymiad i Siarter Gofalwyr Maeth hefyd yn cael ei awgrymu fel ffordd o wella statws.

## Addysgeg Gymdeithasol

Mae dulliau addysgeg gymdeithasol o hyfforddi ar gyfer rhai gofalwyr maeth a staff ym maes gofal preswyl plant wedi cael eu cymhwyso i amrywiaeth o ymyriadau (Cameron 2016). Trwy gyfosod deg astudiaeth werthusol a asesodd ymyriadau addysgeg gymdeithasol yn y Deyrnas Unedig, canfuwyd y gall dull hyfforddi a datblygu addysgeg gymdeithasol hyrwyddo arferion myfyriol a chadarnhau agweddau perthynol i helpu plant i ffynnu mewn lleoliadau gofal cyhoeddus (Cameron 2016).

Nod addysgeg gymdeithasol yw helpu unigolion i integreiddio i gymdeithas, fel y gall pob person gyflawni ei botensial (Cameron 2016). Mae'n ddull sefydledig a ddefnyddir yn helaeth mewn gwasanaethau plant ac oedolion yn Ewrop (Petrie et al. 2006), ac eto mae pob gwlad yn mabwysiadu dulliau cyd-destunol sy'n adlewyrchu traddodiadau cenedlaethol amrywiol (Hamalainen, 2003). Amlygodd astudiaeth gymharol o wledydd Ewropeaidd (Petrie et al. 2006) fod egwyddorion cyffredin ymarfer addysgeg gymdeithasol yn cynnwys dull wedi'i seilio ar hawliau sy'n datblygu'r perthnasoedd ymhlith y tîm cyfan o amgylch plentyn, person ifanc neu oedolyn. At

hynny, gwelsant ei bod yn cael ei nodweddu gan bwyslais cyfannol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, myfyrio a dull ymarferol o gefnogi.

Er mwyn i addysgeg gymdeithasol gael ei sefydlu, canfu Ruch et al. (2017) fod angen i bawb yn y tîm o amgylch plentyn neu berson ifanc ymwneud yn gyfannol â'r broses gynorthwyo. Mae'r ymgysylltiad hwn yn cynnwys integreiddio theori ac ymarfer trwy ddefnyddio Head, Heart and Hands i weithio gyda phobl (Cameron a Moss 2011). Mae cymhwyso addysgeg gymdeithasol yn cyfuno manteision gwybodaeth broffesiynol trwy dynnu ar y gwyddorau cymdeithasol, a hunanfyfyrio beirniadol (y Pen), empathi a defnyddio'ch profiadau eich hun mewn ffordd bersonol (y Galon), a gweithredoedd ymarferol (y Dwylo).

Fodd bynnag, mae'r diddordeb mewn addysgeg gymdeithasol yn y Deyrnas Unedig ar gam cynnar o hyd (McDermid et al. 2019) a dim ond ambell bolisi sy'n dangos ei dylanwad, er enghraifft, Mae Pob Plentyn yn Bwysig (2004), ac Mae Gofal yn Bwysig (2007). Mae'r pwnc wedi cael ei ymgorffori mewn rhai graddau a rhaglenni Meistr gyda phynciau cyflenwol eraill (Hatton, 2013) ac mae'r Gymdeithas Broffesiynol Addysgeg Gymdeithasol wedi cael ei ffurfio i sefydlu arferion sicrhau ansawdd ac arferion cymdeithasol (https://sppa-uk.org/).

Mae amheuon yn bodoli ynglŷn â chydnawsedd addysgeg gymdeithasol â pholisi a gwasanaethau cymdeithasol Prydeinig (Petrie 2013). Mae'r arfer yn cael ei ganmol, ond mae cyrhaeddiad cyfyngedig theori addysgeg gymdeithasol a'r nifer fach o gymwysterau sydd ar gael yn cyfyngu ar sefydlu'r dull hwn. Mae Petrie (2013) yn amlinellu bod angen i bolisi, theori ac ymarfer gyd-fynd â'i gilydd, '... i ddatblygu theori addysgeg gymdeithasol sy'n cael ei llywio gan feddwl Ewropeaidd *ac* yn herio cymdeithas Prydain gyda'i sefydliadau a'i pholisïau addysgeg penodol (tud.10).'

Mae theori ac ymarfer yn cael eu hyrwyddo mewn detholiad o ymyriadau rhanddeiliaid pragmatig. Un enghraifft o ymyrraeth 'o'r gwaelod i fyny' (Petrie et al. 2013, tud. 10) i gymhwyso addysgeg gymdeithasol yw'r rhaglen Head, Heart, Hands a arweiniwyd gan y Rhwydwaith Maethu dros bedair blynedd (2012 i 2016). Roedd y rhaglen yn cynnwys gofalwyr maeth a staff mewn gwasanaethau maethu ac asiantaethau gyda'r nod cyffredinol o 'ddatblygu dull addysgeg gymdeithasol o fewn gofal maeth y Deyrnas Unedig, a thrwy hynny gynyddu nifer y bobl ifanc mewn gofal maeth sy'n cyflawni eu potensial a gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas' (McDermid et al. 2016 tud.3). Canfu'r dadansoddiad terfynol o Head, Heart, Hands (McDermid et al. 2019) fod mynychu'r cwrs wedi galluogi grŵp bach o ofalwyr maeth i wneud rhai newidiadau a arweiniodd at ganlyniadau cadarnhaol mewn aelwydydd maethu unigol. Soniodd llawer o'r rhai a gymerodd ran yn y cwrs hefyd am fwy o hyder yn eu harferion maethu a arweiniodd at ddull mwy myfyriol wrth gyfathrebu a rheoli gwrthdaro a sefyllfaoedd anodd eraill. Fodd bynnag, '... roedd hyd yn oed y rhai a oedd yn frwd o blaid addysgeg gymdeithasol yn dal i deimlo erbyn diwedd y rhaglen nad oedd y system ehangach yr oeddent yn cynnig gofal i bobl ifanc ynddi yn wybodus am addysgeg gymdeithasol ac nad oedd bob amser yn cefnogi ymdrechion i ddarparu gofal a oedd wedi'i lywio gan addysgeg gymdeithasol' (McDermid et al. 2019, tud.22). Yn yr un modd, mae astudiaethau blaenorol wedi dod i'r casgliad y gall diddordeb mewn addysgeg gymdeithasol ganolbwyntio ar ddealltwriaeth unigolyddol, yn hytrach na datblygu theori gymdeithasol (Cousee et al. 2010).

Er mwyn i addysgeg gymdeithasol gael ei gweithredu'n well yn y dyfodol, mae McDermid et al. (2019) yn argymell bod cyrsiau'n ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl yn y tîm o amgylch y plentyn er mwyn addysgu holl staff gofal cymdeithasol plant am egwyddorion addysgeg gymdeithasol. Mae McDermid et al. (2019) yn cynghori bod cyrsiau o'r fath yn archwilio'r synergedd rhwng addysgeg

gymdeithasol ac arferion presennol er mwyn sefydlu ymrwymiad gwasanaethau i'r dull hwn o fewn fframwaith cynaliadwy.

## Y tîm o amgylch y plentyn

Mae lles plant mewn gofal yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer gwella canlyniadau, fel yr amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014), sy'n mynnu bod gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol ac iechyd yn cydweithio i sicrhau bod iechyd a lles plant mewn gofal yn dda, a bod hyn yn cael ei asesu'n rheolaidd. Amlinellodd yr adroddiad Cadernid Meddwl (Senedd Cymru 2018) y newidiadau sy'n ofynnol i gefnogi iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc yng Nghymru. Pwysleisiodd yr adroddiad ba mor bwysig ydyw i wasanaethau gydweithio (gan gynnwys iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, eiriolaeth, gwasanaethau ieuenctid, yr heddlu ac eraill) i greu llwybrau gofal ataliol. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, argymhellodd yr adroddiad Cadernid Meddwl hyfforddiant i bob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc er mwyn codi ymwybyddiaeth a chynyddu sgiliau i wella'r cymorth iechyd emosiynol a meddyliol a ddarperir.

Cydnabu'r adolygiad o Gadernid Meddwl (Senedd Cymru 2020) gynnydd wrth ddarparu gwasanaethau emosiynol a lles mewn addysg, ond beirniadodd yr adroddiad gyflymder newid ym maes iechyd a llywodraeth leol (gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol). 'Mae angen cynnydd sylweddol ac ar frys yn hyn o beth i sicrhau bod sylfeini'r dull system gyfan yr ydym wedi galw amdani ar waith erbyn diwedd y Senedd hon' (tud.21). Mae'r adroddiad yn argymell cydweithio rhwng asiantaethau i ddatblygu iaith a dealltwriaeth gyffredin er mwyn darparu gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma ar draws y system gyfan.

## Ysgolion

Argymhellodd yr adroddiad Cadernid Meddwl (Senedd Cymru 2018) fod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i les emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc trwy ddarparu canolfannau mewn ysgolion sydd â digon o adnoddau i ddarparu ar gyfer gwydnwch emosiynol a lles meddyliol. Mae'r cynnydd mewn addysg 'yn weladwy ac y gellir tystio iddo' (Senedd Cymru 2020, tud.21) ac mae'n cael ei flaenoriaethu yng nghwricwlwm newydd Cymru.

Mae'r cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd o 2022 ymlaen a bydd yn orfodol mewn ysgolion uwchradd o 2023 ymlaen, gan ddechrau cael ei gyflwyno i flynyddoedd saith ac wyth. Mae'r cwricwlwm newydd yn cael ei drefnu'n ddibenion craidd a meysydd dysgu. Nod y pedwar diben craidd yw datblygu plant a fydd yn (i) ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, sy'n (ii) yn fentrus a chreadigol, (iii) dinasyddion moesegol a gwybodus ac (iv) unigolion hyderus iach. Trefnir y wybodaeth yn 6 maes dysgu a phrofiad gan ganolbwyntio ar ddysgu blaengar, datblygiadol sy'n gydweithredol (Llywodraeth Cymru 2020). Gan fod iechyd a lles yn un o'r chwe maes dysgu, disgwylir y bydd dull ysgol gyfan yn cael ei fabwysiadu er mwyn ymgorffori lles emosiynol a meddyliol drwy gydol y cwricwlwm (Llywodraeth Cymru 2020). Gobeithir y bydd hyn yn ymestyn i blant mewn gofal ac yn eu croesawu.

Mae pryderon yn bodoli ynglŷn â ph'un a fydd y cwricwlwm newydd yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau addysgol. Trafodir y pryderon hyn gan Power et al. (2020), sy'n beirniadu'r amrywiadau '...yn y ffordd y mae'r cwricwlwm yn cael ei roi ar waith a allai effeithio'n systematig ac yn anghymesur ar ysgolion a dysgwyr sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol' (tud.322). Maen nhw'n trafod realiti darparu addysgeg sy'n ddwys o ran adnoddau a heriau amgylchedd cartref 'addysgol' sy'n gallu cefnogi profiad cyfannol o'r cwricwlwm. Mae Power et al. (2020) yn

argymell bod angen buddsoddi er mwyn rhoi dealltwriaeth ddyfnach a sgiliau i athrawon allu darparu cwricwlwm teg sy'n hygyrch i gymunedau difreintiedig. At hynny, amlinellir pwysigrwydd datblygu dull cydweithredol rhwng iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn yr adroddiad Cadernid Meddwl (2020).

### Crynodeb

Mae ymchwil yn cydnabod rôl heriol ond gwerth chweil gofalwyr maeth (Wilks a Wise 2011). Mae astudiaethau niferus wedi pwysleisio'r effaith gadarnhaol y gall gofalwyr maeth ei chael ar gefnogi lles ac iechyd meddwl plant, ond mae'r gefnogaeth fedrus hon yn gofyn am ymyriadau effeithiol i helpu gofalwyr maeth i ddeall ymddygiadau, a hyrwyddo cymorth ymatebol i hwyluso adferiad (Fergeus 2019). Mae fframweithiau cyn ac ôl hyfforddiant wedi cael eu datblygu ledled Cymru (TFN ac AFA Cymru 2019). Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod mabwysiadu dull addysgeg gymdeithasol ar gyfer ymyriadau hyfforddi yn hyrwyddo arferion myfyriol (Cameron 2016), a bydd cymorth i blant mewn gofal yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei wreiddio yn y tîm cyfan o amgylch plentyn (Senedd Cymru 2018). Mae llawer o ysgolion yng Nghymru wedi cael eu cydnabod am wella eu darpariaeth emosiynol ac iechyd meddwl (Llywodraeth Cymru 2020) a gellir cryfhau'r dulliau hyn o ymgorffori iechyd emosiynol a meddyliol trwy hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer staff sy'n gweithio ym maes addysg (Llywodraeth Cymru 2020). Mae dealltwriaeth o'r anawsterau sy'n wynebu plant sy'n derbyn gofal, a'u hanghenion, yn hanfodol i holl aelodau'r tîm o amgylch y plentyn, ac mae hyfforddi gyda'i gilydd yn rhoi neges a dull cyson.

# Canfyddiadau

## Cyfraddau presenoldeb a gadael cyn gorffen

Yn rownd un, ar draws yr holl ranbarthau, dechreuodd 94 o gynrychiolwyr y dosbarth meistr cyntaf, dechreuodd 111 yn rownd dau, a dechreuodd 137 o gynrychiolwyr y dosbarth meistr cyntaf yn rownd tri. Mae'n anodd adrodd am gyfraddau gadael cyn gorffen ar gyfer rownd un oherwydd bod dechrau'r cyfnod clo wedi effeithio arni. Ar draws yr holl rowndiau hyfforddi, mae cyfanswm o 757 o bobl wedi dechrau o leiaf un dosbarth meistr.

Mae Tabl 1 yn dangos nifer y cynrychiolwyr a fynychodd bob un o'r dosbarthiadau meistr yn ystod rownd dau, sy'n dangos patrwm o adael cyn gorffen. Yn rownd dau, roedd y lefelau uchaf o adael cyn gorffen yng Ngwent, gyda chyfradd gadael cyn gorffen gyffredinol o 44%.  Mae'r gyfradd uchaf nesaf i'w gweld yng Nghastell-nedd Port Talbot (CNPT) ac Abertawe gyda 42.1%. Adroddodd Canolbarth a Gorllewin Cymru gyfradd gadael cyn gorffen o 36.4%. Mae'r lefelau uchaf nesaf yng Nghaerdydd a'r Fro, gyda chyfradd gadael cyn gorffen gyffredinol o 36% rhwng dosbarth meistr un a phump. Cafodd dosbarthiadau meistr Caerdydd a'r Fro eu hatal ar ddechrau'r cyfnod clo Covid ac ailddechreuodd bresenoldeb ar-lein beth amser yn ddiweddarach; nid yw'n syndod, efallai, bod presenoldeb carfan Caerdydd a'r Fro wedi lleihau'n sylweddol. Roedd y cyfraddau gadael cyn gorffen isaf yng Ngogledd Cymru, sef 25.9%. Mae gadael cyn gorffen yn faes sy'n peri pryder y bydd angen mynd i'r afael ag ef wrth symud ymlaen. Amlygwyd gadael cyn gorffen yn y cynllun peilot blaenorol hefyd (Rees et al., 2019). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, hyd yn oed pan nad oedd y cynrychiolwyr wedi mynychu'r pum dosbarth meistr llawn, eu bod wedi dysgu a chael budd.

| Rhanbarth | Dosbarth meistr 1 | Dosbarth meistr 2 | Dosbarth meistr 3 | Dosbarth meistr 4 | Dosbarth meistr 5 | Gadael cyn gorffen (rhwng dosbarth meistr 1 a 5) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwent | 18 | 19 | 16 | 13 | 10 | 44.4% |
| CNPT Abertawe | 19 | 14 | 14 | 14 | 11 | 42.1% |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 22 | 17 | 17 | 17 | 14 | 36.4% |
| Caerdydd a'r Fro | 25 | 21 | 15 | 13 | 16 | 36% |
| Gogledd Cymru | 27 | 21 | 21 | 21 | 20 | 25.9% |

*Tabl 1: Lefelau presenoldeb rownd dau*

Mae'r tabl canlynol yn dangos y presenoldeb cyfartalog fesul grŵp proffesiynol ar draws pob rhanbarth ar gyfer dosbarthiadau meistr rownd dau. Gallwn weld nad oedd iechyd ac addysg bob amser wedi'u cynrychioli.

| Canolbarth a Gorllewin Cymru | | |
|---|---|---|
| **Proffesiwn** | **Niferoedd** | **Nifer cyfartalog y dosbarthiadau a fynychwyd** |
| Gofalwyr maeth | 17 | 4 |
| Gwasanaethau cymdeithasol | 6 | 2.5 |
| Iechyd | 1 | 3 |
| Addysgwyr | 0 | 0 |

| Caerdydd a'r Fro | | |
|---|---|---|
| **Proffesiwn** | **Niferoedd** | **Nifer cyfartalog y dosbarthiadau a fynychwyd** |
| Gofalwyr maeth | 14 | 4.2 |
| Gwasanaethau cymdeithasol | 4 | 2 |
| Iechyd | 0 | 0 |
| Addysgwyr | 8 | 2.6 |

| CNPT ac Abertawe | | |
|---|---|---|
| **Proffesiwn** | **Niferoedd** | **Nifer cyfartalog y dosbarthiadau a fynychwyd** |
| Gofalwyr maeth | 11 | 4 |
| Gwasanaethau cymdeithasol | 4 | 4 |
| Iechyd | 0 | 0 |
| Addysgwyr | 1 | 3 |

| Gogledd Cymru | | |
|---|---|---|
| **Proffesiwn** | **Niferoedd** | **Nifer cyfartalog y dosbarthiadau a fynychwyd** |
| Gofalwyr maeth | 14 | 4.5 |
| Gwasanaethau cymdeithasol | 11 | 3.2 |
| Iechyd | 2 | 3.5 |
| Addysgwyr | 0 | 0 |

| Gwent | | |
|---|---|---|
| **Proffesiwn** | **Niferoedd** | **Nifer cyfartalog y dosbarthiadau a** |
| Gofalwyr maeth | 6 | 3.8 |
| Gwasanaethau cymdeithasol | 6 | 3.7 |
| Iechyd | 0 | 0 |
| Addysgwyr | 5 | 4.6 |

*Tabl 2: Nifer y dosbarthiadau meistr a fynychwyd yn rownd dau.*

## Data arolwg T1

Gwnaethom ddechrau ein proses casglu data gydag arolwg manwl a oedd yn hirach o lawer, ond canfuwyd mai ychydig iawn o gynrychiolwyr a'i cwblhaodd. Efallai bod hyn oherwydd bod yr arolwg yn rhy hir. Fodd bynnag, gwnaethom ddiwygio'r arolwg yn gyflym, i'w wneud yn llawer byrrach a haws i'w gwblhau, er nad oeddem yn gallu casglu data mor fanwl o ganlyniad. Dosbarthwyd yr arolwg yn ystod y dosbarth meistr cyntaf (T1) ar gyfer rowndiau dau a thri.

### Niferoedd a gwblhaodd yr arolwg

| Area | % | Niferoedd |
|---|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | 16.2% | 17 |
| Gwent (a Chwm Taf) | 14.3% | 15 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 20% | 21 |
| Gogledd Cymru | 47.6% | 50 |
| CNPT Abertawe | 1.9% | 2 |
| Cyfanswm | 100% | 105 |

*Tabl 3: Ymatebion i'r arolwg*

### Rôl Broffesiynol

| Rôl | % | Niferoedd |
|---|---|---|
| Gofalwr maeth | 60.6% | 63 |
| Gofalwr sy'n berthynas | 3.9% | 4 |
| Addysgwr | 6.7% | 7 |
| Gweithiwr cymdeithasol | 14.4% | 15 |
| Gweithiwr iechyd | 5.8% | 6 |
| Arall | 8.7% | 10 |

*Tabl 4: Rôl broffesiynol*

O'n data arolwg, a gafodd 105 o ymatebion o gyfanswm posibl o 302 o ffurflenni, roedd y rhan fwyaf o'r mynychwyr yn ofalwyr maeth (60.6%), a dim ond pedwar gofalwr sy'n berthynas a fynychodd y dosbarthiadau meistr. Roedd 17% o'r gofalwyr maeth yng Nghymru yn ofalwyr sy'n berthnasau yn 2020, sy'n awgrymu bod y ganran o ofalwyr sy'n berthnasau a oedd yn bresennol yn isel.

(https://corambaaf.org.uk/resources/statistics/statistics-wales)

Cwblhaodd 15 o weithwyr cymdeithasol yr arolwg (14% o'r cynrychiolwyr) a dim ond saith gweithiwr proffesiynol o fyd addysg a chwech o faes iechyd ar draws yr holl ranbarthau.

### Aelodau'r tîm o amgylch y plentyn a fynychodd

Nododd 35% o'r cynrychiolwyr mai nhw oedd yr unig aelod o'r tîm a oedd yn bresennol.

### Nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn gofal maeth

O'r 63 o ofalwyr maeth a fynychodd y dosbarthiadau meistr, nid oedd gan 15 unrhyw blant wedi'u lleoli gyda nhw ar adeg cwblhau'r arolwg, roedd gan 23 un plentyn, roedd gan 25 ddau blentyn ac roedd 9 gofalwr maeth yn gofalu am dri neu fwy o blant.

### Profiad o gyrchu'r dosbarthiadau meistr ar-lein

O'r 105 o gynrychiolwyr a gwblhaodd yr arolwg, pan ofynnwyd pa mor hawdd oedd cael at yr hyfforddiant ar-lein, allan o 100% posibl (cwbl hygyrch), y sgôr gyfartalog a roddwyd oedd 95%, sy'n awgrymu bod y mwyafrif helaeth o bobl o'r farn ei bod yn hawdd iawn cael at yr hyfforddiant ar gyfer y dosbarth meistr cyntaf, a gallwn dybio bod hyn wedi mynd yn haws fyth oherwydd bod yr arolwg wedi cael ei gynnal o fis Mawrth i fis Mehefin 2021.

### Gweithio mewn tîm

Pan ofynnwyd iddynt am eu profiadau o weithio yn y tîm o amgylch y plentyn, cafwyd ymatebion amrywiol. O ran p'un a oedd cyfathrebu'n effeithiol yn y tîm o amgylch y plentyn, roedd 39 o bobl (37%) naill ai'n niwtral neu'n anghytuno.

Pan ofynnwyd p'un a oedd holl aelodau'r tîm yn cael gwrandawiad cyfartal, roedd 39 (37%) yn niwtral neu'n anghytuno. Mae hyn yn awgrymu bod rhywfaint o waith pellach i'w wneud i wella cyfathrebu yn y tîm o amgylch y plentyn, a sicrhau y gwrandewir ar bob aelod o'r tîm.

### Rhywedd ac ethnigrwydd

O'r cynrychiolwyr a gwblhaodd yr arolwg, roedd 88% yn fenywod a 12% yn ddynion. O'r dynion a gymerodd ran, roedd naw gofalwr maeth, un gweithiwr cymdeithasol ac un gofalwr sy'n berthynas. Roedd yr holl gynrychiolwyr eraill a gwblhaodd yr arolwg yn fenywod. Nododd yr holl gynrychiolwyr eu bod yn wyn.

### Oedran

Roedd 35 o'r cynrychiolwyr yn 55 oed neu'n hŷn (33%). Roedd 27 o'r gofalwyr maeth yn 55 oed neu'n hŷn (40% o'r gofalwyr maeth a gwblhaodd yr arolwg), sy'n awgrymu bod angen rhywfaint o gynllunio olyniaeth ar gyfer gofalwyr maeth. Roedd saith cydweithiwr proffesiynol (19% o'r ymatebwyr a oedd yn gydweithwyr proffesiynol) yn 55 oed neu'n hŷn.

## Rhesymau dros fynychu'r dosbarthiadau meistr

Rhoddodd y cynrychiolwyr amryw resymau dros fynychu'r dosbarthiadau meistr, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Rhoi gwell cefnogaeth i blant a phobl ifanc
- Wedi derbyn gwahoddiad gan fentor neu reolwr
- Adborth gan eraill a oedd wedi mynychu'r cwrs hwn
- I lywio eu rôl
- I gael gwybodaeth newydd a pharhau i ddysgu

Roedd yr hyfforddiant wedi cael ei argymell i sawl un gan reolwr llinell, neu gan eu gweithiwr cymdeithasol goruchwylio. Dywedodd eraill mai eu cymhelliant oedd,

*"Bod yn rhan o gyflwyno hyn i'r Awdurdod Lleol gyda'r Rhwydwaith Maethu. Rwy'n awyddus i wella datblygiad proffesiynol ar gyfer Gofalwyr Maeth a sgyrsiau cydweithredol i gefnogi anghenion y plentyn".*

*"Wedi cael gwahoddiad i fynychu ynghyd â gweithwyr proffesiynol eraill - cyfle da i raeadru hyfforddiant i gydweithwyr eraill".*

## Wrth ragweld pa agweddau fyddai'n fwyaf gwerthfawr

Nododd y cynrychiolwyr amrywiaeth o agweddau ar fynychu'r hyfforddiant a allai fod yn werthfawr, gan gynnwys y canlynol:

- Rhannu a thrafod arbenigedd gyda chyfranogwyr eraill
- Y siaradwyr gwadd (yn enwedig PACE)
- Clywed gan bobl ifanc
- Datblygu syniadau i wella cymorth, perthnasoedd, a lles

*(DS: Rhoddwyd y sylwadau hyn ar ôl mynychu diwrnod cyntaf y cwrs.)*

# Cyfweliadau â chynrychiolwyr un mis ar ôl mynychu dosbarthiadau meistr T2

Cyfwelwyd 26 o gynrychiolwyr un mis ar ôl mynychu'r dosbarth meistr olaf (o rowndiau dau a thri); roedd 19 o'r rhain yn ofalwyr maeth ac roedd yr wyth arall yn gydweithwyr proffesiynol (tri o faes iechyd, tri o faes gwaith cymdeithasol ac un o faes addysg).

### Gweithio ar-lein

Mwynhaodd y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr y ffaith bod y dosbarth meistr yn cael ei gyflwyno ar-lein, gan ei gymharu'n ffafriol â hyfforddiant ar-lein arall. Roedd y cynrychiolwyr yn gwerthfawrogi natur ryngweithiol y dosbarthiadau yn arbennig, gydag ystafelloedd trafod defnyddiol. Teimlwyd bod y natur gymharol ddeinamig a'r cyflymder yn cynnal sylw a diddordeb y cyfranogwyr,

*roedd hyn yn fwy rhyngweithiol... sy'n amlwg yn gwneud i chi ddysgu'n well. (Gofalwr Maeth)*

*Er, mewn gwirionedd, byddwn i'n dweud bod yr hyn a gyflwynoch chi'n fwy rhyngweithiol, yn fwy o gydbwysedd, wyddoch chi, o wahanol gyflwyniadau fel y siaradwyr gwadd, yr ystafelloedd trafod, wyddoch chi, roedd amrywiaeth eang yno {yn y dosbarthiadau meistr}. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Roedd yn fwy ymarferol o lawer i ofalwyr maeth ac ymarferwyr fynychu ar-lein oherwydd eu bywydau prysur,

*Hynny yw, wyddoch chi, mae'n ddiwrnod hir, yn enwedig pan fydd gennych chi blant ac mae'n rhaid i chi eu deffro nhw'n gynnar, yr un hŷn, am saith o'r gloch i ddal y tacsi, ac yna nid yw'n dod yn ôl tan hanner awr wedi pump ac yna rydych chi'n gorfod meddwl am roi pryd o fwyd iddyn nhw. Ond nawr mae hi'n ganol y bore, yn hwyr y bore, maen nhw yn yr ysgol, y coleg, mae fy ngŵr allan yn rhoi trefn ar yr anifeiliaid, oherwydd bod gennym ni dyddyn. Mae'n wych i mi, wyddoch chi. (Gofalwr Maeth)*

Roedd gofalwyr maeth a oedd yn gweithio yn ogystal â bod yn ofalwyr maeth yn credu bod hyn yn ei gwneud yn haws iddynt gydbwyso eu cyfrifoldebau,

*"... Dw i'n gweithio'n amser llawn.  Mae fy mhartner yn gweithio'n rhan-amser. Rydyn ni'n rhedeg fferm hefyd, felly mae'n ... mae yna gryn dipyn yn digwydd, ac mae'n eithaf ... eitha' neis i fynd allan i fwydo'r defaid a dod yn ôl i mewn, gwneud y cwrs a mynd yn ôl allan." (Gofalwr Maeth)*

Yng Nghymru, mae llawer o bobl yn byw mewn ardaloedd mwy gwledig ac mae hyn yn golygu teithio ymhellach a neilltuo mwy o amser allan o'u diwrnod prysur i fynychu unrhyw raglen hyfforddiant,

*Ac mae gennych chi'r straen o gael eich dal y tu ôl i dractor neu rywbeth, efallai, ac yna peidio â chyrraedd yno ac mae'n rhaid i chi barcio a dod o hyd i'ch ffordd i mewn. (Gofalwr Maeth)*

Roedd rhai gofalwyr maeth yn teimlo bod y ffaith bod yr hyfforddiant ar-lein yn golygu eu bod yn gwneud llai o gysylltiadau ag eraill yn y tîm o amgylch y plentyn a bod hyn, o bosibl, yn cyfyngu ar y rhwydweithiau a allai gael eu creu yn ystod y dosbarthiadau meistr,

*Roedd dau ofalwr maeth yno y byddwn i wir wedi hoffi cael eu manylion cyswllt, oherwydd... oherwydd dyna lle dwi eisiau mynd gyda maethu, a dwi wir yn teimlo y gallen nhw fy helpu i baratoi. Ond os oeddech chi wyneb yn wyneb fe fyddech chi'n gwneud hynny, mewn egwyl byddech chi'n mynd i ddod o hyd iddyn nhw a byddech chi'n gofyn iddyn nhw ac yn cael eu rhif. (Gofalwr Maeth)*

Pan awgrymwyd y gallai dull cyfunol fod yn ffordd ddefnyddiol o ddarparu yn y dyfodol, cytunodd rhai gofalwyr y gallai cyfarfod wyneb yn wyneb ar y dechrau neu'r diwedd fod o gymorth fel y gallent wneud cysylltiadau dyfnach a datblygu fframwaith o gefnogaeth,

*Dwi'n meddwl y byddai'n braf i chi ddod â phobl at ei gilydd ar y diwedd wyneb yn wyneb hefyd... (Gofalwr Maeth)*

Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd pawb a gymerodd ran yn gadarnhaol iawn am y ddarpariaeth hyfforddiant ar-lein.

### Trefnu a Chyflwyno

Roedd yr holl gynrychiolwyr yn gadarnhaol ynglŷn â chyflwyno a threfnu'r cwrs,

*Mae'n un o'r digwyddiadau hyfforddi ar-lein mwyaf slic dwi wedi bod arnyn nhw. Dwi wedi bod ar sawl un, trwy faethu a thrwy fy swydd arferol. Roedd y ffordd y cafodd ei redeg mor slic. Cafodd ei drefnu'n wych. (Gofalwr Maeth)*

*Mae wedi'i gynllunio'n dda iawn. Wedi'i gynllunio'n dda. (Gofalwr Maeth)*

*Roeddwn i'n meddwl mai dyna un o'r rhai gorau dwi erioed wedi bod arno. Dwi'n cofio meddwl, "Waw, oni allai bob cwrs hyfforddi fod fel hyn". (Gofalwr Maeth)*

Roedd y cynrychiolwyr yn arbennig o gadarnhaol am yr hwyluswyr, gan nodi eu bod yn frwdfrydig ac yn ddiddorol,

*{Mae'r hwyluswyr} yn amlwg yn angerddol iawn am yr hyn maen nhw'n ei wneud, ac roedd hynny i'w weld yn glir. (Gofalwr Maeth)*

*Synnwyr digrifwch gwych, felly roedd yn ddifyr iawn. (Gofalwr Maeth)*

*Roedden nhw'n ddigyffro ac yn addysgiadol iawn, roedden nhw'n dal popeth at ei gilydd, ac roedd ganddyn nhw berthynas waith dda iawn… (Gofalwr Maeth)*

Roedd y cynrychiolwyr yn hoff iawn pan oedd un o'r hwyluswyr yn ofalwr maeth, gan fod hyn yn rhoi model rôl hyderus a phroffesiynol i ofalwyr maeth a chydweithwyr proffesiynol.

Nododd y cyfranogwyr fudd rhanbartholi'r deunyddiau a chyflwyno'r cwrs,

*ond dwi'n meddwl bod y ffaith ein bod ni i gyd yn lleol i raddau, wyddoch chi, yn enwedig gan fod gogledd Cymru'n dechrau gwneud rhai pethau rhanbarthol, wyddoch chi. Dwi'n gwybod ein bod ni'n edrych ar recriwtio rhanbarthol a phethau fel 'na, a chreu rhyw fath o frand ar draws gogledd Cymru. Felly, dwi'n meddwl bod hynny'n dda iawn, bod cael carfan o'r fath ar draws yr ardal honno'n beth da. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Ystyriwyd bod cyfarfod â chydweithwyr proffesiynol yn eu timau a'u rhanbarthau eu hunain yn arbennig o bwysig,

*…ac mae cael arbenigwr i ddod i siarad am achosion go iawn neu brofiadau go iawn, wir yn helpu. A nawr eu bod nhw wedi dechrau gwreiddio'r rhaglen hyd yn oed yn fwy, roedden nhw i gyd yn lleol hefyd… rydyn ni wedi clywed neu gwrdd â'r seicolegydd yn barod, felly mae'n wych clywed ganddi. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Gwnaeth y cyfranogwyr sylwadau ar gyflymder a lefel yr hyfforddiant hefyd,

*Ac roedd wedi'i osod allan yn dda (Gofalwr Maeth)*

*Dwi'n meddwl bod y cyflymder yn bendant yn iawn oherwydd doedd neb yn traethu atoch yr holl amser ond {rhwng} y pump… roedd yn rhoi amser i oedi a myfyrio. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

*Roeddwn i'n meddwl ei fod ar y lefel iawn i ofalwyr maeth, a dwi'n credu, wyddoch chi, ei fod yn eu trin fel gweithwyr proffesiynol ac, wyddoch chi, dwi'n credu… dwi'n credu fod hynny… roedd hynny'n dda, roedden nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn, a… ac roedd y cynnwys yn dda. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Roedd llawer o gynrychiolwyr o'r farn bod y cwrs yn gweithredu fel hyfforddiant gloywi ac wedi rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar eu harferion eu hunain a, thrwy wneud hynny, amlygu agweddau y gallent eu cryfhau neu eu gwneud yn wahanol.

Nododd llawer y byddai'r dosbarthiadau meistr yn arbennig o dda i ofalwyr maeth newydd gan eu bod yn gynhwysfawr ac yn gosod y cyd-destun ar gyfer maethu,

*Dwi'n meddwl y dylai pob gofalwr maeth newydd ei ddilyn yn bendant.*
*(Gofalwr Maeth)*

Roedd y taflenni yn sail i'r dosbarthiadau meistr ac fe'u hystyriwyd yn ddeunyddiau atodol gwerthfawr y soniodd llawer o'r cynrychiolwyr amdanynt,

*anfonwyd y taflenni i gyd, a dwi wedi eu harbed nhw i gyd ac… felly pan fydda' i eisiau edrych ar y pedwar F eto, dwi'n gwybod yn union ble i fynd i ddod o hyd iddyn nhw. Pan fydda' i angen y tri P, dwi'n gwybod yn union lle i fynd. (Gofalwr Maeth)*

Roedd pob cynrychiolydd yn gwerthfawrogi'r ystafelloedd trafod a roddodd amser iddynt drafod a myfyrio. Teimlwyd bod y grwpiau'n well pan oedd hwylusydd yn gallu galw heibio a chadw pobl ar y dasg. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y byddent wedi elwa o fwy o amser mewn grwpiau trafod,

*Felly roedd hynny'n eithaf, wyddoch chi, doedden ni ddim wedi cyrraedd pawb. Felly na, fyswn i'n dweud na, doedd dim digon o amser. (Gofalwr Maeth)*

*Bydden ni'n dechrau cael hwyl arni, ac wedyn byddai… byddai'r cloc yn tician i fynd yn ôl. Ac mewn ffordd, roedd hynny'n drueni, oherwydd roedd rhai sylwadau gwerthfawr iawn a phethau, wyddoch chi, efallai na fyddai pobl eraill wedi meddwl amdanyn nhw hyd yn oed.*
*(Cydweithiwr Proffesiynol)*

Efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnig posibilrwydd i bobl gyfarfod y tu allan i'r hyfforddiant i fyfyrio ymhellach a datblygu rhwydweithiau, os oeddent yn dymuno.

Yn y gwerthusiad blaenorol o'r rhaglen beilot, cyfeiriodd nifer o gynrychiolwyr at effaith emosiynol siaradwyr a oedd yn arbenigwyr drwy brofiad, ond ni wnaed sylwadau ar hyn yn y gwerthusiad presennol.

### Offer a sgiliau ymarferol

Teimlai'r cynrychiolwyr eu bod wedi cael amrywiaeth o offer a sgiliau ymarferol yr oeddent yn dechrau eu defnyddio'n ymarferol,

*Felly, dwi'n teimlo bod gen i ryw fath o wregys offer nawr a dwi'n teimlo bod gen i offer gwahanol ynddo yn barod am y gwaith. Felly, fe ddylwn i allu tynnu rhywbeth allan pan fydd arna' i ei angen bob tro, dwi angen rhywbeth, dwi'n gobeithio. (Gofalwr Maeth)*

Roedd rhai o'r sgiliau'n helpu'r cyfranogwyr i uniaethu'n fwy â phobl ifanc, gwrando'n astud, treulio mwy o amser gyda'r plant sydd yn eu gofal, a myfyrio ar anghenion y plentyn,

*Nawr dwi'n meddwl pam mae'n digwydd a beth sydd tu ôl iddo, a pham … pam nad wyt ti eisiau mynd i ymweld, a sut i ddelio â ti pan rwyt ti'n dweud nad wyt ti am ymweld, ond rwyt ti wir eisiau mewn gwirionedd. (Gofalwr Maeth)*

*Rydyn ni'n mynd i siarad heno, nid yw'n ymwneud â ti'n dod y penwythnos yma a gwneud beth dwi'n ei ddweud, mae'n mynd i fod yn benwythnos o wneud rhai pethau gyda'n gilydd ac os yw'n rhywbeth newydd, os yw'n rhywbeth rwyt ti eisiau rhoi cynnig arno, fe wnawn ni hynny. (hyd yn oed os yw'n Mars Bar wedi'i ffrio'n ddwfn) (Gofalwr Maeth)*

Rhoddodd hyn fwy o empathi i'r cynrychiolwyr tuag at y plant,

*y brif neges a gefais oedd edrych ar ymddygiad, a sylweddoli na allwch newid yr hyn sydd wedi digwydd, ond … ceisio ei ddeall a bod wrth ochr y plentyn os yw'n mynd trwyddo. (Gofalwr Maeth)*

A nododd eraill eu bod am dreulio mwy o amser yn gwrando ar blant,

*A gwrando yw'r anrheg fwyaf y gallwn ei rhoi. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Roedd agweddau penodol ar yr hyfforddiant wedi taro deuddeg yn gryf gyda'r cyfranogwyr, er enghraifft, y sefyllfa gyffredin,

*Hynny yw, er enghraifft, mae e wedi gwneud rhyw fath o le y tu allan yn yr ardd ac mae wedi'i lenwi â mwsogl a mwd a hen gerbydau ac mae i fod yn ardal ryfel. Wel, mae'n hollol wahanol i'r hyn dwi'n gyfarwydd ag ef. Roedd gen i dair merch i'w magu [chwerthin] felly rydyn ni'n dysgu gyda'n gilydd ac mae e'n fy nysgu i. Felly, roedd hynny wedi taro deuddeg yn gryf, y sefyllfa gyffredin honno. (Gofalwr Maeth)*

Croesawyd y cyflwyniad lleferydd ac iaith yn arbennig, gyda phobl yn myfyrio ar yr agweddau ar ofalu a gymerir yn ganiataol,

*llawer o leferydd ac iaith, awgrymiadau bach. Peidio â gorffen y frawddeg ar ran y plentyn, bod yn amyneddgar iawn, peidio â gofyn beth sy'n bod arnoch chi, beth sydd wedi digwydd i chi, ac amryw bethau eraill a oedd, wyddoch chi, mewn gwirionedd… O ystyried mai dim ond am tua 45 munud y siaradodd hi, efallai hyd yn oed llai na hynny, roedd yn hynod o gryno, ac roedd hi'n amlwg wedi ei deilwra i'r hyn a fyddai'n ddefnyddiol i ni. (Gofalwr Maeth)*

Pwysleisiwyd pwysigrwydd perthnasoedd drwy gydol y dosbarthiadau meistr a dod i 'adnabod' y plentyn, ac ailadroddwyd hyn ymhellach trwy ddeall effaith trawma,

*Wyddoch chi, y perthnasoedd allweddol hynny, adnabod eich plentyn… y plentyn rydych chi'n gofalu amdano, ac mewn ffordd… wyddoch chi, mewn*

*ffordd... deall trawma mewn gwirionedd.  Dwi'n meddwl mai dyna ddaeth drwodd go iawn gan ofalwyr maeth. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Roedd llawer o'r sgiliau eisoes yn hysbys ond wedi eu hanghofio neu heb fod ym mlaen eu meddwl,

*Anadlu, annog y plentyn i anadlu'n araf iawn pan fydd angen iddo, pan fyddwch chi'n ceisio ei dawelu. Doeddwn i ddim yn sylweddoli fy mod i wedi anghofio am hynny mewn gwirionedd, a'i ddefnyddio fel arf, ac fe gawson ni sgwrs eithaf hir am hynny. (Gofalwr Maeth)*

## Gwaith rhyngddisgyblaethol

Un o brif arloesiadau'r hyfforddiant yw'r dull darparu rhyngddisgyblaethol. Gwnaeth llawer o gyfranogwyr sylwadau ar hyn a'i bwysigrwydd ar gyfer cryfhau'r tîm o amgylch y plentyn.

*Roeddwn i'n hoffi'r ffaith bod pawb... mae yna broffesiynau gwahanol yno, felly clywed eu mewnbwn, nid yn unig gan y rhai a'i cyflwynodd, y rhai oedd yno yn yr ystafelloedd trafod hefyd. Felly, clywed gan nyrs ysgol, clywed gan weithiwr cymdeithasol, (Gofalwr Maeth)*

Canfu'r cynrychiolwyr fod hyfforddi gyda'i gilydd yn creu iaith a dealltwriaeth gyffredin ar gyfer egwyddorion a dulliau gweithredu,

*Dwi'n gweld ei bod hi'n werthfawr iawn os yw pawb o amgylch y plentyn yn rhannu'r un iaith hefyd... Oherwydd... yn aml, maen nhw'n drysu'n lân wrth glywed termau gwahanol a naratifau gwahanol gan bobl wahanol. (Gofalwr Maeth)*

Roedd hyn yn helpu pob aelod o'r tîm o amgylch y plentyn i ddod at ei gilydd a gweithio er pennaf les y plentyn, gan greu dull colegol a chyffredin. Roedd deall safbwynt gweithwyr proffesiynol eraill yn arbennig o ddefnyddiol,

*Wel, y dull cyfannol sy'n bwysig, dwi'n meddwl, oherwydd bod gennych chi bawb o amgylch y plentyn, yndoes?  Ac rydyn ni i gyd yn gweithio er pennaf les y plentyn, ond dwi'n credu eich bod chi'n cael gwell persbectif o rolau gwahanol bobl, a sut mae eu darn nhw o'r jig-so yn ffitio o amgylch y plentyn yn y canol. Wyddoch chi beth rwy'n ei olygu?   Rydyn ni fel darnau o jig-so o amgylch plentyn, onid ydyn ni?  A dwi'n meddwl bod y ffaith bod gennych chi wahanol... y gwahanol weithwyr proffesiynol, wyddoch chi, mae gennych chi'r gofalwr maeth, mae gennych chi iechyd, mae gennych chi Gyfiawnder Cymdeithasol efallai, Cyfiawnder Ieuenctid, mae gennych chi addysg, mae gennych chi ysgolion, mae gennych chi bawb sy'n gysylltiedig, dwi'n meddwl... Dwi'n meddwl bod hynny'n dda oherwydd ei fod yn golegol, on'd yw e?  Rydyn ni i gyd yn rhan o hyn gyda'n gilydd o amgylch y plentyn yma. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Dywedodd un cydweithiwr proffesiynol fod hyder y gofalwr maeth wedi cynyddu a bod ganddynt well perthynas oherwydd bod y ddau ohonynt wedi mynychu'r hyfforddiant,

> *.. a dweud y gwir, yr adolygiad plant sy'n derbyn gofal diweddaraf dwi wedi bod ynddo oedd ddydd Gwener cyn i ni orffen am y penwythnos, ac roedd yn ddiddorol, oherwydd roedd ganddo fe wahanol... perthynas wahanol gyda fi yn y cyfarfod yna, dwi'n meddwl... ac fe ddefnyddiodd fy enw cyntaf, ac roedd e'n... ac roeddwn i'n meddwl 'ie, mae hynny oherwydd dy fod ti wedi fy ngweld i yn yr hyfforddiant, ac rwyt ti wedi... rwyt ti wedi fy nghlywed i,' oherwydd, yn amlwg, yn yr un cyntaf, fe wnes i gyflwyniad byr am fy rôl. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Yn yr un modd, dywedodd gofalwr maeth ba mor gefnogol yw'r ffaith bod aelodau eraill o'r tîm yn mynychu'r un hyfforddiant,

> *Felly, roedd fy ngweithiwr cymdeithasol goruchwylio ar yr hyfforddiant hefyd, yn ogystal â gweithiwr cymdeithasol ein plentyn yn ei arddegau. Felly, roedd hynny'n ddefnyddiol iawn, ac roedd llawer o ofalwyr maeth eraill yno dwi'n eu hadnabod. Ond ie, roedd y ffaith bod y ddau yna'n bresennol yn arbennig, fe gawson ni sgyrsiau bach, ac fe gawson ni ein cyfarfodydd hefyd am y gwahanol bethau a gododd ... (Gofalwr Maeth)*

Fodd bynnag, er eu bod yn gadarnhaol ynglŷn â dull proffesiynol a rennir, sylwodd y cynrychiolwyr ar y niferoedd cyfyngedig o gydweithwyr proffesiynol a fynychodd y dosbarthiadau meistr, a barodd hyn i bobl deimlo'n llai argyhoeddedig bod y dull rhyngddisgyblaethol yn gweithio a bod dull mwy cyfartal yn bosibl,

> *Roeddwn i yn y rownd gyntaf; doedd neb o iechyd nac addysg wedi mynychu. Felly, dwi'n meddwl, wel, mae un o'n gofalwyr wedi bod yma am 26 mlynedd ac fe ddywedodd hi, ie, mae'r cyfan yn swnio'n grêt, ond a fydd addysg yn gwrando mewn gwirionedd? Ac os oedden nhw wedi bod yno, efallai y byddai hi wedi bod ychydig yn fwy cefnogol...... (Cydweithiwr Proffesiynol)*

> *Roeddwn i'n teimlo bod yna... Roedd diffyg athrawon yn rhan o'r broses, os yw hynny'n gwneud unrhyw synnwyr. (Gofalwr Maeth)*

Aeth y cydweithiwr proffesiynol ymlaen i ddweud sut oedd gweithwyr cymdeithasol, yn ei phrofiad hi, yn amharod i gynnwys gofalwyr maeth yn eu trafodaethau weithiau,

> *canfyddiad gan weithwyr cymdeithasol tebyg i, wel, dydyn ni ddim eisiau i ofalwyr maeth ddod oherwydd efallai byddwn ni eisiau siarad amdanyn nhw. Ac, mewn gwirionedd, rwy'n credu y dylai hynny gael ei ddileu'n llwyr. Ac mae, oes, mae 'na gymaint o fudd yn bosibl trwy eu cael nhw i gyd gyda'i gilydd a dwi'n meddwl, ie, roedd hynny'n agwedd wirioneddol hyfryd o'r cwrs. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Nododd un cynrychiolydd, sef gweithiwr cymdeithasol, fod amrywiaeth o gydweithwyr proffesiynol eisiau gwahardd gofalwyr maeth weithiau, ac ers yr hyfforddiant ei bod hi wedi gweithio'n galed i sicrhau nad oedd hynny'n digwydd,

*Roedd gen i grŵp o weithwyr proffesiynol, hynny yw, cydweithwyr, wyddoch chi, yn dweud, does dim angen y gofalwr maeth arnom yn y cyfarfod hwn. Ac roedd yn fater yn ymwneud â'r ysgol yr oedd y gofalwr maeth wedi'i godi ei hun ac roeddwn i a'r gofalwr maeth wedi gofyn am y cyfarfod. Felly, fe ddywedais i, dwi wir ddim yn deall beth rydych chi'n ei ddweud. Rydych chi'n gwybod bod y gofalwr maeth wedi gofyn am y cyfarfod, mae problem yn yr ysgol, sut gallwn ni gyfiawnhau peidio â chael y gofalwr maeth yn y cyfarfod hwn? ... Ac roedd yr ysgol yn parhau i godi rhwystrau trwy ddweud, dim ond unwaith y gallwn ni wneud hyn yn yr wythnos gyfan, felly os nad yw'r gofalwr maeth yn gallu dod, a doedd hi ddim oherwydd ei bod hi'n gweithio, fe ddywedon nhw, wel mae angen i ni fynd ymlaen. Ac fe eisteddais am tua phedair awr gyda'r gweithiwr cymdeithasol gofal plant, yn brwydro i drefnu'r cyfarfod hwn ar adeg arall. Negeseuon e-bost a galwadau yn mynd yn ôl ac i, fynd, dwi ddim yn deall y peth. Ac fe anfonodd rywun e-bost ataf a dweud, wel fe ddywedwn ni ei fod yn gyfarfod gweithwyr proffesiynol felly, a dyna ein rheswm dros beidio â gwahodd y gofalwr maeth. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn nodi eu bod wedi brwydro i'r gofalwr maeth gael ei gynnwys o ganlyniad i'r hyfforddiant,

*Ac fe ddywedais, y gofalwr maeth yw'r gweithiwr proffesiynol, felly sut gallwch chi gael y sgwrs yma sy'n gwahaniaethu rhwng ni a nhw. Ac fe ddywedais mewn gwirionedd, dwi newydd fod ar y dosbarthiadau meistr gofalwyr maeth ac rydyn ni'n siarad am y materion lles hyn ac un o'r prif bethau yw bod statws cyfartal gan bawb yn y berthynas, ac mae hynny'n cynnwys gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol. Dywedais, felly dwi newydd wneud pum wythnos o hyn lle rydyn ni'n dweud bod pawb yn gyfartal yn y sgyrsiau hyn, felly mae bod yn rhan o gadwyn e-bost a sgyrsiau ffôn lle rydych chi'n dweud ein bod ni uwchben y gofalwr maeth yn fy nghythruddo i. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Yn sicr, roedd y cydweithiwr proffesiynol hwn wedi derbyn y negeseuon o'r dosbarthiadau meistr ac roedd yn awyddus i sicrhau nad oedd gofalwyr maeth yn cael eu heithrio rhag gwneud penderfyniadau yn y tîm o amgylch y plentyn.

## Grymuso gofalwyr maeth i ddod yn eiriolwyr

Rhoddodd llawer o'r cynrychiolwyr enghreifftiau o sut, fel gofalwyr maeth, roeddent yn teimlo eu bod wedi'u grymuso ac yn fwy abl i eiriol ar ran plant oedd yn derbyn gofal. Fe wnaethant hefyd sylweddoli bod eu lles eu hunain yn hollbwysig,

*O'r blaen, roeddwn i wastad yn meddwl amdanaf fy hun fel perthynas dlawd ... y system gofal maeth gyfan ... ond dwi'n dysgu ... clywed gan y gofalwyr maeth*

*profiadol hefyd, maen nhw'n dweud, na, mae angen i chi eiriol dros y plant, mae angen i chi eiriol drosoch eich hun ... ac mae ein lles ni yr un mor bwysig. (Gofalwr Maeth)*

Dywedodd un gofalwr maeth ei bod hi'n teimlo ei bod wedi'i grymuso i fynd yn ôl a sicrhau bod plentyn yn cael mynediad at driniaeth ddeintyddol o ganlyniad i drafodaethau a gafodd gyda gweithiwr iechyd proffesiynol yn ystod y dosbarthiadau meistr,

*Wyddoch chi, un o'm... y bechgyn dwi'n edrych ar eu holau, ni allaf ddod o hyd i ddeintydd ar ei gyfer. Ac mae'r nyrs plant sy'n derbyn gofal yn dweud, "Na, nid yw hyn yn dderbyniol. Mae gan eich plentyn hawl i weld deintydd, wyddoch chi." Dwi'n sylweddoli bod pethau'n anodd oherwydd COVID, yn amlwg, wyddoch chi, ond fe ddywedodd hi, "Na, gwthia." Ac fe wthiais i'n eithaf caled wedi hynny. Dwi'n meddwl ei fod wedi rhoi'r hyder i mi fynd yn ôl a chwyno am y peth yn ei adolygiad. Ac maen nhw wedi llwyddo i gael apwyntiad iddo gyda deintydd cymunedol, felly... (Gofalwr Maeth)*

Nododd cydweithwyr proffesiynol fod y dosbarthiadau meistr wedi pwysleisio bod gofalwyr maeth yn weithwyr proffesiynol, y dylent gael eu trin felly, ac o ganlyniad y dylent gael eu cydnabod am y gwaith heriol maen nhw'n ei wneud,

*Mae angen i ni fod yn ystyried gofalwyr maeth fel y gweithwyr proffesiynol y maen nhw, y gwaith maen nhw'n ei wneud, yr heriau maen nhw'n eu hwynebu wrth reoli sefyllfaoedd sy'n gallu bod yn anodd iawn, iawn y tu allan i oriau, hyd yn oed. Felly, roeddwn i'n falch iawn o glywed hynny. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Roedd gofalwyr maeth yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy trwy gael eu cynnwys yn yr hyfforddiant ac yn fwy o ran o dîm,

*Ac un siaradwr gwadd a gawson nhw a roddodd dipyn o sioc i mi oedd... Dwi'n meddwl ei bod hi'n Bennaeth Gwasanaeth nad oeddwn i erioed wedi cwrdd â hi o'r blaen, ac nid oedd y rhan fwyaf o'r bobl wedi cwrdd â hi o'r blaen, oherwydd ei bod hi'n brif reolwr, wyddoch chi, a dydyn ni byth yn dod ar ei thraws. Dwi'n meddwl bod hynny wedi rhoi mwy o werth i'r peth, oherwydd ei bod hi'n fodlon bod yno a siarad â ni a gwrando arnon ni. (Gofalwr Maeth)*

Roedd gofalwyr maeth hefyd yn teimlo eu bod yn aelod mwy cyfartal o'r tîm, yn hytrach nag ar ris gwaelod yr ysgol,

*Fe ddes i allan yn teimlo'n fwy fel rhan o dîm, mewn gwirionedd, yn hytrach nag ar y gris gwaelod lle mae'r penderfyniadau'n cael eu gwneud uwch eich pen. (Gofalwr Maeth)*

Yn y gorffennol, nid oedd rhai gofalwyr maeth yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, ond roedd mynychu'r dosbarthiadau meistr wedi eu helpu i ailystyried hyn,

*Wel, o'm safbwynt i, dwi'n teimlo bod llawer o benderfyniadau'n cael eu gwneud nad ydych chi'n rhan ohonynt mewn gwirionedd, ac yna mae'n rhaid i chi gyd-fynd â chynllun rhywun arall heb allu bwydo'n ôl i mewn iddo. Felly, dwi'n credu bod dilyn y cwrs yma wedi… mae… mae wedi eich helpu i'ch ystyried eich hun yn fwy fel tîm. (Gofalwr Maeth)*

### Gadael cyn gorffen

Gwnaeth nifer o gynrychiolwyr sylwadau ar lefelau gadael cyn gorffen, gan nodi nad oedd gweithwyr cymdeithasol, yn benodol, yn mynychu'n gyson,

*… o ran y dosbarthiadau meistr diweddaraf, daeth llawer o weithwyr cymdeithasol i'r un cyntaf mewn un set o ddosbarthiadau meistr, ac fe ddywedon nhw ei fod yn wych, ond ni ddaeth llawer yn ôl oherwydd eu bod nhw'n credu ei fod wedi'i anelu'n fwy at ofalwyr maeth, sy'n gymaint o drueni oherwydd bod hynny'n tanseilio'r rhaglen mewn gwirionedd. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Mae'r farn os oedd y dosbarthiadau meistr yn briodol i ofalwyr maeth, ni allent fod yn berthnasol i weithwyr cymdeithasol yn achos pryder ac yn fater i'w drin trwy reolwyr, o bosibl, wrth drefnu'r hyfforddiant.

# Cyfweliadau â rheolwyr un mis ar ôl mynychu dosbarthiadau meistr T2

Fe wnaethon ni gyfweld tri uwch reolwr, fis ar ôl y dosbarthiadau meistr.  Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn ar y cyfan.

## Hyfforddiant a mentora

Dywedodd rheolwyr fod dosbarthiadau meistr a menter arloesi Maethu Lles yn cyd-fynd yn dda â fframwaith Dysgu a Datblygu Maethu Cymru a'i gynnig craidd (https://fosterwales.gov.wales). Nododd rheolwyr fod cynnwys y dosbarthiadau meistr yn addas i'r fframwaith dysgu a datblygu (gweler atodiad 2). Yn eu barn nhw, roedd y dosbarthiadau meistr yn helpu gofalwyr maeth i fodloni'r gofynion hyfforddiant,

> *Byddai'r ffaith bod unrhyw ofalwr maeth yn mynychu'r dosbarth meistr yn cyfrannu at ei ddysgu a'i ddatblygiad.  Felly, mae gennym feini prawf yn ein rhanbarth, bod rhaid i ofalwyr maeth wneud o leiaf 15 awr o hyfforddiant y flwyddyn, felly ie, byddai'r dosbarthiadau meistr yn ...yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'u hyfforddiant dros y flwyddyn. (Rheolwr 1)*

Roedd y rheolwyr yn frwd o blaid Maethu Lles ac yn credu y gallai hefyd gyfrannu at ymrwymiadau awdurdod lleol a chenedlaethol eu cynnig mentora craidd,

> *Mae hefyd yn cyd-fynd ag un o'n ffrydiau gwaith eraill, sef ein cynnig craidd i ofalwyr maeth.  Felly, yn ogystal â dysgu a datblygu, bydd yn cyd-fynd â phethau fel cynnig craidd, oherwydd bydd yn rhan o'n hymrwymiad cenedlaethol y bydd gennym y cynllun mentora lefel isel hwnnw ar draws ein rhanbarth ar gyfer gofalwyr maeth. (Rheolwr 3)*

Felly, roedd rheolwyr o'r farn bod y rhaglen yn cyfuno'n dda â datblygiad newydd Maethu Cymru a'r mentrau maethu presennol.

## Datblygu sgiliau

Roedd rheolwyr yn cydnabod bod y cwrs yn addysgiadol ac ymarferol: ystyriwyd bod cynyddu ymwybyddiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) yn amhrisiadwy, yn enwedig i staff ym maes addysg,

> *Mae strategaethau ymarferol {y pethau gorau am Faethu Lles} yn bwysig iawn iawn i ysgolion hefyd, yn ogystal â dysgu, a chodi ymwybyddiaeth Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a dysgu am drawma. Mae'n bwysig iawn rhoi strategaethau ymarferol i ysgolion y gallant fynd ati i'w defnyddio. (Rheolwr 2)*

Ystyriwyd bod y cynnwys yn y dosbarthiadau meistr yn ategu'r hyfforddiant yr oedd gweithwyr proffesiynol eraill eisoes wedi'i gael ynglŷn â dulliau sy'n ystyriol o drawma. Ystyriwyd bod y strategaethau'n ddefnyddiol i ofalwyr maeth, a theimlwyd bod rhannu dysgu'n gwneud y tîm cyfan yn fwy sensitif i anghenion plant,

> *Rwy'n credu ei fod yn rhoi strategaethau i bobl ymdopi. Dwi'n meddwl… ac nid yn unig hynny; Dwi'n meddwl bod y gofalwyr maeth yn dod at ei gilydd ac yn rhannu… cael cyfleoedd i rannu eu profiadau eu hunain hefyd, bydd… bydd yn effeithio ar bobl [anghlywadwy], a… ac mae'r cyfan, yn naturiol, yn cael effaith ar y canlyniadau i blant, a… ac, wyddoch chi, sut mae pobl, wyddoch chi, yn meddwl ac yn myfyrio ar yr hyn maen nhw'n ei wneud a sut maen nhw efallai'n ymateb i blant neu sut dydyn nhw ddim, neu'n cael mwy o ddealltwriaeth o'u hanghenion, (Rheolwr 1)*

### Hyfforddiant rhyngddisgyblaethol

Roedd rheolwyr yn croesawu'r ffaith bod y tîm cyfan o amgylch y plentyn yn mynychu'r dosbarthiadau meistr, ac ystyriwyd bod natur ryngddisgyblaethol yr hyfforddiant yn werthfawr iawn,

> *Roeddwn i'n arbennig o hoff o'r cyfle i ofalwyr maeth glywed gan rai o'r gweithwyr proffesiynol, ac roedd amrywiaeth enfawr o weithwyr proffesiynol. Roedd gennym ni ymwelydd iechyd, roedd gennym ni seicolegwyr addysg, therapyddion lleferydd ac iaith, wyddoch chi, felly roedd yna amrywiaeth fawr. (Rheolwr 2)*

Ystyriwyd hyn yn fesur codi'r gwastad, a oedd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi holl aelodau'r tîm o amgylch y plentyn,

> *Roeddwn i wrth fy modd gyda'r persbectif ein bod ni i gyd yn ymwneud â dysgu'r plentyn, oherwydd bod hynny'n wir. Ac nid yw'r un rôl yn bwysicach na'r llall, on'd yw e? P'un a ydych chi'n ofalwr neu'n seicolegydd addysg, wyddoch chi, mae pawb yn chwarae rhan. Rheolwr 2*

Roedd gweithio'n agos gyda gofalwyr maeth yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol ymlaen, gan ganiatáu i ofalwyr gyfrannu mwy at ddatblygu polisi ac ymarfer,

> *Felly, mae gennym aelod o staff y Rhwydwaith Maethu sy'n ymroddedig i'n gwasanaethau ar hyn o bryd at y diben hwnnw, felly rwy'n credu… wyddoch chi, y byddai hynny'n rhyw fath o gyswllt agos… ie, i adeiladu ar hynny mewn rhyw ffordd, wyddoch chi. Felly, mae hi'n gweithio'n rheolaidd gyda'r gofalwyr maeth i gael eu barn, wyddoch chi… a sicrhau bod gwasanaethau cael eu cydgynhyrchu a'u datblygu a phopeth fel 'na. Felly, rwy'n credu, ie, gallai'r gwasanaeth hwn sy'n rhedeg ochr yn ochr, pe bai'n beth parhaus, fod yn bositif (Rheolwr 1)*

Ystyriwyd bod tîm darparu'r Rhwydwaith Maethu yn gynorthwyol wrth gysylltu â gofalwyr maeth gan arwain at ddatblygu gwasanaethau.

### Rhaglen arloesi

Roedd rheolwyr yn gadarnhaol ac yn cymeradwyo'r fenter arloesi. Dywedodd rheolwyr eu bod wedi cael lefel uchel o ddiddordeb yn y rôl, ac nad oeddent yn rhagweld trafferthion wrth recriwtio mwy,

> *Mae wyth o bobl wedi cynnig eu hunain, gan enwebu eu hunain fel Arloeswyr, sy'n dda iawn. (Rheolwr 3)*

Roedd rheolwyr o'r farn y gallai'r arloeswyr raeadru'r wybodaeth am Faethu Lles, a bod yn ffynhonnell arbenigedd i eraill,

> *Rôl yr arloeswr fydd rhaeadru negeseuon o'r dosbarthiadau meistr. Felly, beth rydyn ni'n edrych arno yn ein rhanbarth ni, hefyd, yw bod yr arloeswyr yn aelodau o unrhyw fath o grwpiau datblygu, fel y gallant wneud yn siŵr bod egwyddorion Maethu Lles yn cael eu bwydo i lawr i… yn bwydo drwodd i ddatblygu'r gwasanaeth. (Rheolwr 3)*

Nid oedd rôl yr arloeswr wedi ei datblygu'n llawn ar adeg y cyfweliadau cyntaf gyda rheolwyr, ond roeddent yn gadarnhaol ynglŷn â'i photensial.

### Hyblygrwydd

Roedd rheolwyr yn gwerthfawrogi'r berthynas hyblyg a chymwynasgar a ffurfiwyd rhwng yr hyfforddwyr, awdurdodau lleol a rhanbarthau,

> *Mae'r hyfforddwr mor gymwynasgar. O ddifrif, mae hi… mae hi'n rhoi cymaint o wybodaeth. Mae hi bob amser ar gael, yn agos-atoch. Mae'n esbonio pethau i fi, (Rheolwr 3)*

Cydnabuwyd hefyd ymatebolrwydd yr hyfforddwyr a oedd yn fodlon cynnal dosbarthiadau y tu allan i oriau gwaith arferol,

> *Maen nhw hefyd yn gwneud set o ddosbarthiadau meistr gyda'r nos i ni. I sicrhau bod y rhaglen yn hygyrch i ofalwyr maeth sydd ag ymrwymiad gwaith yn ystod y dydd. (Rheolwr 3)*

Ar y cyfan, teimlwyd bod yr hyfforddwyr ar gael ac yn ymateb i angen lleol.

### Gwelliannau awgrymedig

Er bod rheolwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r rhaglen Maethu Lles, gwnaethant awgrymu sawl gwelliant. Tynnodd rheolwyr sylw at yr angen am ddigon o rybudd o'r dosbarthiadau meistr er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o well presenoldeb. Nododd rheolwyr ei bod yn anodd sicrhau presenoldeb gan staff addysg a bod lefelau gadael cyn gorffen yn uchel, ond bod hyn yn gymhleth ac yn dibynnu

ar flaenoriaethau ysgolion a galwadau ar weithwyr proffesiynol, yn enwedig yn ystod Covid. Awgrymodd rheolwyr y gallai ysgolion elwa o raglen Maethu Lles wedi'i theilwra, gan fod pob ysgol ar 'daith unigryw'. Awgrymodd rheolwyr hefyd y gallai cyrsiau gloywi yn y dyfodol fod yn fuddiol.

## Cyfweliadau â chynrychiolwyr 12 mis ar ôl mynychu dosbarthiadau meistr T3

Cafodd 12 o gynrychiolwyr eu hailgyfweld ar ôl 12 mis, sef saith gofalwr maeth a phum cydweithiwr proffesiynol (un o faes iechyd, dau o faes gwaith cymdeithasol, a dau o faes addysg). Gwnaethom drafod effaith tymor hwy'r hyfforddiant ac unrhyw newidiadau dilynol i ymarfer.

### Offer a sgiliau ymarferol

Enwodd y cynrychiolwyr ystod eang o sgiliau ac offer a gynhwyswyd yn y dosbarthiadau meistr a oedd yn parhau i fod yn gofiadwy rhyw 12 mis ar ôl mynychu. Roedd y rhain yn cynnwys hyfforddiant emosiwn, a nododd y cynrychiolwyr sut oeddent wedi defnyddio'r hyfforddiant,

> *Dwi'n defnyddio llawer o emosiwn, y pethau o'r hyfforddiant emosiwn ac wedi chwilio am bethau eraill yn ymwneud â hyfforddiant emosiwn, ac wedi ceisio ymgorfforі hynny. Felly, rwy'n darparu hyfforddiant ymlyniad ac yn ymgorffori rhyw fath o rianta therapiwtig o fewn hynny. Felly, dwi wedi ymgorffori'r hyfforddiant emosiwn o fewn hynny. Hefyd, rydyn ni'n cynnal rhyw fath o weithdai ar waith stori bywyd, felly rydyn ni wedi ymgorffori rhywfaint o'r hyfforddiant emosiwn i'r sesiynau hynny hefyd. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

> *Doeddwn i erioed wedi clywed am hyfforddiant emosiwn cyn hynny a dydw i ddim wedi gweld unrhyw fath o hyfforddiant penodol ar hynny. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Roedd pynciau cofiadwy eraill yn cynnwys 'therapi lleferydd', sesiwn gan 'therapyddion chwarae', 'ffrwydrad pen' ac 'addysgeg' gymdeithasol. Soniodd y cynrychiolwyr hefyd am wahanol ddulliau o weithio gyda phlant yr oeddent yn eu defnyddio, gan gynnwys 'y 3P', 'y sefyllfa gyffredin' a 'PACE'.

Roedd un o'r prif wersi cofiadwy a nodwyd gan nifer o gynrychiolwyr yn ymwneud ag aros yn ddigyffro a 'tharo pan fo'r haearn yn oer'. Roedd hyn wedi helpu'r gweithwyr proffesiynol i aros yn ddigynnwrf a pheidio ag ymateb yn 'ddifeddwl' i sefyllfaoedd a gododd, gyda phlant a gweithwyr eraill,

> *"Taro pan fo'r haearn yn oer," wn i ddim a ydych chi, a ydych chi'n cofio hynny, ond roeddwn i'n meddwl, wel, mae hynny mor dda, oherwydd yn aml, wyddoch chi, mae'r plant yn gwneud rhywbeth ac rydw i eisiau bod yno'n dweud... ymateb yn syth, ond dwi'n meddwl mewn gwirionedd, na, na, pwylla, oherwydd*

*mae'n rhaid i ni gymhwyso'r pethau hyn i ni'n hunain hefyd, yn hytrach na disgwyl iddyn nhw ei wneud yn unig'. (Gofalwr Maeth)*

Yma, gwelwn y cynrychiolydd yn defnyddio'r gwersi ac yn gallu camu'n ôl,

*Dwi'n meddwl ei bod yn helpu i gymryd cam yn ôl. Dwi'n gwneud hynny nawr, wyddoch chi, os ydw i, os bydd rhywbeth yn digwydd, yn hytrach na gwylltio, dwi'n meddwl amdano am ddiwrnod neu ddau ac yna'n dod yn ôl ato, wyddoch chi, yn fwy tawel o lawer ac.. . Rwy'n credu pan fyddwch chi'n meddwl amdano hefyd, wyddoch chi, rydych chi'n sylweddoli nad yw cynddrwg ag yr oeddech yn meddwl, rhif un. Ond hefyd, rhif dau, wyddoch chi, rydych chi'n cael amser i'w brosesu yn eich meddwl, felly pan fyddwch chi'n siarad â'r person amdano, rydych chi'n gwybod am beth rydych chi'n sôn mewn gwirionedd, yn hytrach na rhefru. (Gofalwr Maeth)*

Nododd gofalwyr maeth eraill sut oedd y dull mwy digynnwrf wedi cael effaith ar yr aelwyd gyfan,

*Dwi'n meddwl mae'n rhaid mai'r dosbarth meistr sydd wedi dod ag awyrgylch digynnwrf i'r tŷ, y rhan fwyaf o'r amser, sydd wedi bod mor dda, wyddoch chi? Felly, dwi'n falch 'mod i, dwi'n falch 'mod i wedi mynd ar y cwrs. (Gofalwr Maeth)*

Rhoddodd rhai enghreifftiau o ddysgu cofiadwy a oedd wedi arwain at fwy o ddealltwriaeth o weithwyr proffesiynol eraill a'r pwysau sydd arnynt,

*Mae'r ffordd dwi'n ymdrin â sgyrsiau gyda gofalwyr maeth wedi newid. Byddwn i'n dweud y bu effaith ar hynny a bod yna... Roedd gen i lawer mwy o ddealltwriaeth o'u safbwynt nhw, efallai, a sut gallen nhw fod yn teimlo. Felly, dwi'n meddwl, ie, mae'n debyg bod fy arferion o ran, o greu perthynas gyda'r gofalwyr maeth wedi datblygu o ganlyniad iddo, ie, yn bendant... Byddwn i'n dweud bod fy arferion ychydig yn fwy myfyriol ac ychydig yn fwy empathig, efallai, wrth geisio rhoi fy hun yn eu sefyllfa nhw. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Yn yr un modd, gallai gofalwyr maeth ddeall pam mae gweithwyr cymdeithasol yn gofyn cwestiynau penodol neu'n archwilio pynciau penodol,

*Felly, ie, felly dysgu am y tri P, fy nysgu sut i wneud, sut mae'r gweithwyr cymdeithasol yn gweithio a sut, beth maen nhw'n meddwl amdano a pham maen nhw'n gofyn cwestiynau mewn ffordd benodol. (Gofalwr Maeth)*

Yma, gallwn weld gwybodaeth a gadwyd yn cael ei chymhwyso i ymarfer gyda phlant a'r tîm o amgylch y plentyn rhyw 12 mis ar ôl y dosbarthiadau meistr.

### Pwyslais ar y plentyn

Un neges bwysig a gofiodd y cynrychiolwyr oedd y pwyslais ar y plentyn mewn dosbarthiadau meistr,

*Roedd yn braf iawn cael yr holl wahanol weithwyr proffesiynol yno a phob un wedi'i rannu, i mi, dyna sut y dylai canolbwyntio ar y plentyn a phwyslais ar y plentyn fod. Fe ddylai, wyddoch chi, mae'r cyfan yn ymwneud â chydweithio. (Gofalwr Maeth)*

Roeddent yn cofio pwysigrwydd ymagwedd gyfannol at y plant yn eu gofal, sy'n un o egwyddorion sylfaenol addysgeg gymdeithasol.

*O'r hyn a gesglais, yn y bôn, roedd yn ffordd gyfannol o ddelio â phlant i gael y gorau ohonynt (Gofalwr Maeth)*

Trafododd dau gynrychiolydd gydnabod a dilysu teimladau plant,

*Dwi'n credu bod y dosbarth meistr wedi gwneud i mi feddwl, ie, mae dilysu'n air mor dda, mae... wyddoch chi, mae'n... Efallai nad oedd rhywun wedi bwriadu brifo rhywun, ond y ffaith yw eu bod nhw wedi gwneud hynny, ac felly mae'n rhaid i chi, mae'n rhaid i chi gydnabod sut mae rhywun yn teimlo. (Gofalwr Maeth)*

I ofalwyr maeth, roedd hyn yn golygu treulio amser gyda phlant, gwrando arnyn nhw, a pharchu eu teimladau,

*Neilltuo amser a gwrando arni, wyddoch chi, peidio ag anwybyddu ei theimladau. Sicrhau bod ei theimladau, ei bod hi'n teimlo bod ei theimladau'n ddilys, wyddoch chi (Gofalwr Maeth)*

Cofiwyd y pwyslais ar y plentyn fel agwedd allweddol o'r dosbarthiadau meistr,

*Roedd yn braf iawn cael yr holl wahanol weithwyr proffesiynol yno a phob un wedi'i rannu, i mi, dyna sut y dylai canolbwyntio ar y plentyn a phwyslais ar y plentyn fod. Fe ddylai, wyddoch chi, mae'r cyfan yn ymwneud â chydweithio. (Gofalwr Maeth)*

Dywedodd sawl cynrychiolydd ei bod yn bwysig i ysgolion gymryd rhan, a allai eu helpu i addasu ac ymateb mewn ffordd wedi'i theilwra i blant sy'n derbyn gofal, gan werthfawrogi eu hanghenion unigol,

*Gwneud yn siŵr bod yr ysgol yn cytuno ac efallai'n meddwl am strategaethau y gallant eu defnyddio yn yr ysgol, yn hytrach na'r math arferol o strategaethau ymddygiad y gallem eu defnyddio ar gyfer plant eraill nad ydynt wedi profi trawma, efallai. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Pwysleisiodd y cynrychiolwyr, er mai anaml y bydd gan rai ysgolion ddisgyblion mewn gofal, ystyriwyd ei bod yn hollbwysig iddynt fod yn wybodus, yn ymatebol ac 'yn barod ar gyfer plant sy'n derbyn gofal',

*A'r peth arall hefyd yw bod gennych chi rai ysgolion sydd heb unrhyw blant gofal maeth o gwbl, felly maen nhw'n meddwl, wel oes angen i mi wneud yr hyfforddiant yma, oherwydd does gen i neb mewn gofal beth bynnag? Ond... mae angen i chi fod yn barod ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, oherwydd gallai*

*plentyn mewn gofal maeth lanio yn eich ysgol unrhyw bryd, p'un a ydych chi'n llawn ai peidio.... (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Ar y cyfan, roedd ymdeimlad o weld yr unigolyn, y plentyn cyfan, a bod plant sy'n derbyn gofal lles yn gyfrifoldeb i bawb, nid dim ond un y gofalwr maeth neu'r gweithiwr cymdeithasol. Symudwn ymlaen bellach i waith rhyngddisgyblaethol.

## Gwaith rhyngddisgyblaethol

Un o'r prif negeseuon a ddysgodd y cynrychiolwyr oedd pwysigrwydd cydweithio a bod y cyfan yn fwy na chyfanswm ei rannau,

*Roedd yr angen i ni i gyd weithio gyda'n gilydd yn treiddio'n gryf iawn trwy'r holl ddosbarthiadau meistr. Dyna oedd y neges fawr, sylfaenol i mi, dwi'n meddwl, wyddoch chi, ein bod ni i gyd yn elfennau allweddol ym mywyd person ifanc. Ond trwy weithio gyda'n gilydd rydyn ni'n gwneud gwahaniaeth, yntefe, nid trwy weithio ar wahân. Ac rwy'n credu bod hynny'n neges eithaf pwerus a ddaeth drwodd mewn gwirionedd.*

*(Cydweithiwr Proffesiynol)*

Yma, mae'r cynrychiolydd yn tynnu sylw at y ffaith bod pob aelod o'r tîm o amgylch y plentyn yn allweddol, tra bod cynrychiolwyr eraill yn nodi'r dull cyfannol yr oedd yn gweithio gyda'i gilydd yn ei annog,

*Cydweithio, wyddoch chi, y syniad hwnnw o bawb yn ceisio cydweithio i hyrwyddo lles y plentyn. Felly, pob gweithiwr proffesiynol yn meddwl am y plentyn cyfan, yn hytrach na gweld pethau ar wahân (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Cofiodd y cynrychiolydd hwn bwysigrwydd gweld y plentyn cyfan hefyd, gan adlewyrchu rhywfaint o ethos sylfaenol addysgeg gymdeithasol sy'n treiddio trwy Faethu Lles. Roedd gofalwyr maeth, yn enwedig, yn teimlo'n llawer mwy fel rhan o'r tîm o amgylch y plentyn o ganlyniad i'r dosbarthiadau meistr,

*Mae gwybod bod yr ysgol yn derbyn rhywfaint o'r hyfforddiant hwn a bod y gweithiwr cymdeithasol yn derbyn peth o'r hyfforddiant hwn, yn gwneud iddo deimlo'n llawer mwy fel tîm. Ie, mae angen i ni i gyd weithio gyda'n gilydd. Rwy'n casáu sut mae pawb mor ar wahân (Gofalwr Maeth)*

Roedd gofalwyr maeth hefyd yn teimlo bod eu barn fel aelodau'r tîm yn cael ei gwerthfawrogi'n fwy o ganlyniad i'r dull amlddisgyblaethol,

*Oherwydd rwy'n credu ei fod wedi rhoi teimlad i mi o fod yn fwy fel rhan o dîm, wyddoch chi, fel bod fy marn i'n golygu llawn cymaint â'u barn nhw, wyddoch chi (Gofalwr Maeth)*

Yma, gallwn weld bod y gofalwr maeth yn teimlo bod ei farn cyn bwysiced â barn aelodau eraill y tîm. Yn yr un modd, roedd gwybod bod gweithwyr proffesiynol eraill yn derbyn yr un neges yn cyfrannu ymhellach at deimlo'n golegol ac yn rhan o dîm,

> *Mae gwybod bod yr ysgol yn derbyn rhywfaint o'r hyfforddiant hwn a bod y gweithiwr cymdeithasol yn derbyn peth o'r hyfforddiant hwn, yn gwneud iddo deimlo'n llawer mwy fel tîm. Ie, mae angen i ni i gyd weithio gyda'n gilydd. Rwy'n casáu sut mae pawb mor ar wahân (Gofalwr Maeth)*

Roedd rhai cynrychiolwyr o'r farn bod yr hyfforddiant wedi lleihau'r ymdeimlad mai Gweithwyr Cymdeithasol yw'r unig arbenigwyr,

> *Wyddoch chi, mae'r gofalwr maeth yn rhan bwysig o'r tîm hwnnw, ac fe ddylai gael ei barchu felly. Nid yw, nid yw, wyddoch chi, yn un arbenigwr...... Nid yw'n rhwydd, wyddoch chi, ac rwy'n credu mai symud i ffwrdd o'r hen fodel hwn o'r gweithiwr cymdeithasol fel yr arbenigwr (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Roedd yr hyfforddiant ar y cyd wedi bod yn gysur i ofalwyr maeth a goleuo'r ffordd iddynt, a ddysgodd o hyfforddi gyda gweithwyr cymdeithasol,

> *Ie, yn yr ystyr nad ydw i erioed wedi bod ar hyfforddiant gyda nhw, hynny yw, dwi'n gwybod bod gweithwyr cymdeithasol yn mynd ar hyfforddiant. Ond dydych chi ddim yn gweld beth yw'r hyfforddiant. Dydych chi ddim yn gweld faint maen nhw'n ymgysylltu. Dydych chi ddim yn gweld a ydyn nhw'n ateb cwestiynau a phethau. Mae eu gweld nhw ar yr hyfforddiant yma mewn gwirionedd, eu gweld nhw'n ymgysylltu, eu gweld nhw'n mynd, o, ie, hynny a phethau, dwi'n meddwl bod hynny'n gysur mawr i'w weld. (Gofalwr Maeth)*

Soniodd cydweithwyr proffesiynol hefyd eu bod yn parhau i sicrhau bod holl aelodau'r tîm, gan gynnwys addysg, yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd, a oedd yn newid i ymarfer o ganlyniad i'r dosbarthiadau meistr,

> *Dwi'n ceisio gwahodd yr ysgol bellach, er nad oedd hynny'n rhan o'r ymarfer o'r blaen, dwi'n ceisio gwahodd yr ysgol er mwyn sicrhau bod pawb yn gytûn. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

### Grymuso gofalwyr maeth i fod yn eiriolwyr

Daeth gofalwyr maeth, yn arbennig, yn fwy ymwybodol o'r ystod o aelodau yn y tîm o amgylch y plentyn, ac roeddent yn parhau i deimlo'n fwy hyderus i eiriol dros blant yn eu gofal; cyfeiriodd rai at weithwyr proffesiynol eraill yr oeddent wedi cysylltu â nhw,

> *Ac felly gofynnais yn syth am atgyfeiriad i'r dietegydd, a phethau felly. O'r blaen, fyddwn i ddim wir wedi gwybod bod dietegydd ar gael. Ac, yn amlwg, roedd eisoes yn cael ei weld gan y tîm lleferydd ac iaith. Ond mae'n debyg fy mod i'n fwy ymwybodol o'r tîm a phwy sydd yno i gefnogi. (Gofalwr Maeth)*

Nododd gofalwr maeth arall hefyd sut oedd cynrychiolwyr eraill wedi dysgu am weithwyr proffesiynol newydd y gallent alw arnynt, neu nad oeddent yn ymwybodol ohonynt o'r blaen,

> *Yna, roedd ganddyn nhw siaradwyr gwadd yn cynrychioli pobl y gallech chi ofyn amdanyn nhw, fel y nyrs plant sy'n derbyn gofal. Nid oedd llawer ohonyn nhw'n sylweddoli y gallen nhw ffonio'r nyrs plant sy'n derbyn gofal a siarad â hi, wyddoch chi. Ond, mewn gwirionedd, na, mae eich nyrs plant sy'n derbyn gofal yno ac mae hi'n bwysig, hi yw eich cysylltiad â'r gwasanaeth iechyd a'r ysgol, felly. (Gofalwr Maeth)*

Dywedodd un gofalwr maeth eu bod nhw nid yn unig yn eiriol ar ran plentyn, ond yn gwneud hynny'n gyflymach o lawer hefyd,

> *Rydw i eisiau iddo gael prawf llygaid cyn hynny. Felly, pethau fel 'na, mae'n debyg fy mod i'n gwthio i hynny fod ychydig yn gyflymach (Gofalwr Maeth)*

Roedd eraill yn teimlo bod deall sut oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio yn eu helpu i deimlo'n fwy hyderus i godi llais,

> *Ond, fel y dywedais, mewn gwirionedd rhoddodd y cwrs yr hyder i mi allu lleisio fy marn ychydig a deall strwythur y gwasanaethau cymdeithasol (Gofalwr Maeth)*

Pan oedd ganddynt fwy o hyder, roedd gofalwyr maeth yn teimlo eu bod yn gallu cwestiynu a herio rhai penderfyniadau, wrth weithio er pennaf les y plentyn,

> *Ond, ie, yn bendant roedd wedi fy helpu i gael ychydig yn fwy o ddewrder i ofyn pam, pam maen nhw'n gwneud pethau penodol a beth sy'n digwydd mewn gwirionedd... Felly, fe roddodd y dewrder i mi ddweud, "Na, does dim angen i ni gael mwy o oedolion yn y sefyllfa hon mewn gwirionedd. Na, allwch chi ddim dod i fy nghartref i gael adolygiad, oherwydd dyma eu cartref nhw," meddwn i, "a dwi ddim eisiau pump neu chwech o bobl yn eistedd wrth y bwrdd yn eu trafod nhw." Gofalwr Maeth*

Arweiniodd yr hyder uwch hwn at berthynas weithio agosach rhwng gofalwyr maeth a chydweithwyr proffesiynol eraill, er enghraifft, gydag ysgolion,

> *Anfonais e-bost at yr ysgol yn dweud hynny ac, wyddoch chi, mae'r athrawon i gyd wedi cysylltu'n sydyn ac wedi bod yn anfon negeseuon e-bost yn ôl ataf, a nawr maen nhw'n rhoi gwybod i mi os yw e, wyddoch chi, wedi llithro'n ôl ar unrhyw beth ....Felly, wyddoch chi, maen nhw wedi bod yn gymwynasgar iawn, iawn yn sydyn, sy'n wych. (Gofalwr Maeth)*

### Ailedrych ar ddeunyddiau'r cwrs

Fe ofynnon ni i gynrychiolwyr a oedden nhw wedi defnyddio neu ailedrych ar ddeunyddiau'r cwrs. Roedd rhai wedi defnyddio'r deunyddiau, yn enwedig cydweithwyr proffesiynol,

*Fideo Amy, roedd hynny'n bwerus iawn, dwi wedi defnyddio hwnnw. Fe ddefnyddiais i fideo CASCADE. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

*Dwi wedi edrych ar rai o'r pethau hyfforddiant emosiwn a dwi'n defnyddio'r egwyddor honno. Dwi wedi edrych ar rywfaint o'r therapi chwarae. Fe wnes i ychydig o waith gyda rhai gofalwyr maeth yn ddiweddar, ac fe wnes i ailedrych ar y pethau'n ymwneud â therapi chwarae. Dwi wedi gwneud hyfforddiant Theraplay, felly fe wnes i ymgorffori Theraplay a'r hyn oedd yn y sesiwn therapi chwarae, felly fe ailedrychais ar hynny. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Dywedodd rhai gofalwyr maeth hefyd eu bod wedi defnyddio'r deunyddiau,

*Dwi wedi rhoi, dwi wedi argraffu rhai pethau. Ac mae gen i, a dwi'n edrych arnyn nhw, ydw. (Gofalwr Maeth)*

Symudwn ymlaen i rôl yr arloeswr bellach.

## Rôl Arloeswr

Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr am y rôl arloeswr, a'u meddyliau amdani. Roedd gofalwyr maeth a chydweithwyr proffesiynol yn gadarnhaol ynglŷn â datblygiad o'r fath, er nad oedd y model wedi'i ddatblygu'n llawn eto. Dywedodd gofalwyr maeth y byddai cael rhywun i wirio pethau gyda nhw, fel arloeswr, wedi bod yn ddefnyddiol wrth ddechrau maethu,

*Roeddwn i'n meddwl ei fod yn syniad diddorol, wyddoch chi, a doedd neb fel 'na'n bodoli pan ddechreuais i faethu... . Doeddwn i ddim yn teimlo fel bod unrhyw un y gallwn ei holi am bethau, felly, wyddoch chi, byddai'r syniad o gael rhywun, mentor neu beth bynnag, a allai ateb cwestiynau i chi, dwi'n meddwl byddai hynny'n ddefnyddiol iawn... (Gofalwr Maeth)*

Amlygodd cydweithwyr proffesiynol fodelau tebyg mewn proffesiynau eraill,

*Gallaf ddychmygu i rywun sy'n newydd i faethu, wyddoch chi, maethu, ychydig fel pan fyddwch chi'n dechrau fel athro, rydych chi'n dechrau fel athro sydd newydd gymhwyso, ac mae gennych chi fentor, on'd oes? Mae gennych chi rywun i, i ddal eich llaw a'ch arwain drwy'r broses ... ac mae yna rai pethau sy'n ddisgwyliedig ohonoch chi ac, a'r broses a phopeth, i'ch cerdded drwyddi. A byddwn i'n dychmygu ei bod yn union yr un fath gyda gofalwyr maeth, bod angen hynny arnyn nhw, rhywun i fynd ato i ofyn, ydw i'n gwneud hyn yn iawn, ydy hyn yn iawn? Ac rwy'n credu bod hynny'n ddefnyddiol iawn, oherwydd nid yw'n rôl hawdd i'w chyflawni (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Dywedodd rhai gofalwyr maeth yn bendant nad oedd ganddynt yr amser i ymwneud â bod yn arloeswr, ac nid oedd eraill yn ymwybodol o'r datblygiad neu roeddent yn credu ei fod yn annhebygol o ddigwydd yn eu hardal nhw,

*Dwi ddim 100% yn siŵr y bydd Hornchurch yn ei wneud [chwerthin]. Dwi ddim yn meddwl eu bod nhw'n ei hoffi, felly… a dwi ddim wedi clywed dim yn ôl ganddyn nhw. (Gofalwr Maeth)*

*Fe feddyliais amdano… a meddyliais, o, bydd gen i un bach ac ni fyddaf yn gallu rhoi amser iddo ef. (Gofalwr Maeth)*

## Recriwtio a gadael cyn gorffen

Yn olaf, fe ofynnon ni i'r cynrychiolwyr sut oedden nhw wedi myfyrio ar yr anawsterau o ran recriwtio a gadael cyn gorffen ar draws y grwpiau proffesiynol. Dywedodd rhai nad oedd gan rai timau'r diwylliant cywir,

*Rwy'n credu ei bod yn ymwneud â diwylliannau hefyd, wyddoch chi, mae gennych chi'r timau hynny a fydd wir yn ymgorffori hyfforddiant ac yn ei weld fel rhan bwysig, yn rhan annatod o'r diwylliant o fewn y tîm. Ac wedyn mae gennych chi dimau eraill sy'n… nad ydyn nhw'n rhannu'r un ffordd o feddwl (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Nododd sawl un ba mor anodd ydoedd i staff addysg fynychu oherwydd amserlennu a diffyg staff addysgu i gyflenwi,

*A hefyd dwi'n meddwl bod amser yn agwedd bwysig i ysgolion hefyd, dwi ddim yn gwybod a allwch chi wneud, dwi ddim yn gwybod, sesiwn fyrrach i ysgolion, dwi ddim yn gwybod. Ie, ychwanegu sesiynau ar ddiwedd y dydd, dwi ddim yn siŵr, ond mae pawb mor brin o amser ac ar gapasiti mor isel hefyd, mae'n anodd eu hannog i ymuno ac ymgysylltu ac edrych ar yr holl wahanol strategaethau hefyd. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Nododd eraill yr anawsterau sy'n gysylltiedig â recriwtio gweithwyr cymdeithasol a staff gofal cymdeithasol hefyd,

*Dwi'n meddwl bod llwythi gwaith yn arbennig o uchel ar hyn o bryd, llawer o salwch staff, a dwi'n credu hyd yn oed pan fydd pethau ar eu gorau… Hynny yw, dwi'n dod o gefndir y gweithlu, ac ar yr adegau gorau roedd yn anodd iawn ceisio cael gweithwyr cymdeithasol neu staff gofal cymdeithasol i fynychu hyfforddiant. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

*Dwi'n meddwl eu bod nhw'n edrych ar y, y gweithwyr cymdeithasol gofal plant hefyd ar hyn o bryd ac maen nhw, does ganddyn nhw ddim amser i anadlu… fentra i bod yr un diwylliant drwyddo draw, byddai'n anodd ceisio eu cael nhw i*

*wneud un neu ddau fore hyd yn oed, wyddoch chi, ond chwech, does gennych chi ddim siawns mewn gwirionedd. (Cydweithiwr Proffesiynol)*

Nid oedd unrhyw sylwadau ar ddiffyg presenoldeb staff iechyd, er efallai nad yw hyn yn syndod o ystyried bod peth o'r hyfforddiant wedi digwydd yn ystod pandemig byd-eang.

## Crynodeb

Roedd y cynrychiolwyr wedi derbyn a defnyddio ystod eang o offer a sgiliau o ganlyniad i'r dosbarthiadau meistr. Roedd rhai o'r prif negeseuon a gofiwyd o'r dosbarthiadau meistr yn ymwneud â phwysigrwydd cynnal pwyslais ar y plentyn, ymateb yn bwyllog, treulio amser gyda phlant, gwrando arnynt a pharchu eu teimladau. Roedd y dosbarthiadau meistr wedi gwneud y cynrychiolwyr yn fwy ymwybodol o’u rolau ei gilydd, gan dderbyn y syniad bod y cyfrifoldeb rhianta corfforaethol yn fusnes pawb. Roedd pob un yn teimlo bod ysgolion, yn arbennig, wedi elwa o ddysgu am rôl y gofalwr maeth. Dywedodd y cynrychiolwyr eu bod yn fwy ymwybodol o'r tîm o amgylch y plentyn, ac o ganlyniad, eu bod bellach yn sicrhau bod ysgolion a gofalwyr maeth wastad yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd am y plentyn. Dywedodd gofalwyr maeth eu bod yn teimlo'n fwy grymusol i eiriol ar ran y plentyn, gan deimlo'n fwy hyderus i godi llais. Roedd y cynrychiolwyr wedi cadw'r deunyddiau ategol o’r dosbarth meistr, ac roedd rhai wedi eu defnyddio wedi hynny. Gwnaed nifer o sylwadau ynglŷn â diffyg presenoldeb cydweithwyr proffesiynol yn y dosbarthiadau meistr, er y cydnabuwyd y pwysau presennol ar yr holl staff. Roedd pawb yn cefnogi'r rôl arloeswr, er nad oedd pob gofalwr maeth yn teimlo eu bod yn gallu ymroi amser iddi, ac roedd rhai yn ansicr sut oedd y rôl yn datblygu yn eu hardal.

## Cyfweliadau â rheolwyr 12 mis ar ôl y dosbarthiadau meistr T3

Fe wnaethon ni gyfweld â'r tri rheolwr eto, 12 mis ar ôl y dosbarthiadau meistr

### Gwerthoedd y cwrs

Er na soniwyd llawer amdanynt yn y cyfweliadau cyntaf, ar ôl 12 mis fe wnaeth rheolwyr sylwadau ar y gwerthoedd yr oedd y rhaglen wedi'u sefydlu o fewn gwasanaethau, a oedd yn cyd-fynd yn dda ag egwyddorion corfforaethol,

> *Y rhan am werthoedd ac egwyddorion a rennir mewn gwirionedd. Mae hynny'n amlwg ar hyn o bryd oherwydd ein bod ni yng nghanol gwneud hunanwerthusiadau, ac un o'r pethau cyntaf yw mapio ein pwrpas, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd. Felly, rydw i wedi mynd yn ôl at hyn ac wedi meddwl, wel, mewn gwirionedd, mae hyn mor berthnasol, ac mae'n berthnasol ar draws, a gofynnir i ni feddwl am sut mae ein hegwyddorion a'n gwerthoedd gwasanaeth yn adlewyrchu'r egwyddorion a'r gwerthoedd corfforaethol. Wel, os, os yw'r gwerthoedd corfforaethol yn ymwneud â lles a hyrwyddo lles, mae hyn yn cyd-fynd yn dda iawn, on'd yw e? (Rheolwr 1)*

> *I mi, mae'n ymwneud â chanolbwyntio ar les, oherwydd os, os ydyn ni - os oes gan y plentyn les da, yna mae'n fwy tebygol o allu setlo i ddysgu, on'd yw e? Felly, mae gan bawb well dealltwriaeth o hynny. (Rheolwr 2)*

### Gwaith amlddisgyblaethol

Roedd gwaith amlddisgyblaethol yn dal i gael ei gydnabod yn hanfodol ac yn cael ei gofio fel elfen graidd a neges bwysig o'r rhaglen,

> *Mae'n ymwneud â'r dull cydweithredol hwnnw, ac i ffurfio dull cydweithredol mae angen i chi gael perthnasoedd da, ac mae gan bawb ran i'w chwarae wrth ffurfio'r perthnasoedd da hynny. (Rheolwr 2)*

Yn yr un modd, roedd y neges bod pawb yn gyfrifol am rianta corfforaethol wedi'i gwreiddio'n ddwfn,

> *Oherwydd bod gan bawb ran i'w chwarae yn hynny, on'd oes? Nid cyfrifoldeb yr ysgol yn unig yw hyn, nid cyfrifoldeb y gofalwr yn unig, nid y gweithiwr cymdeithasol yn unig, mae'n gyfrifoldeb pawb. (Rheolwr 2)*

Roedd y negeseuon ynglŷn â phwysigrwydd cydweithio wedi'u cofio, sydd wedi parhau i helpu i gefnogi model y tîm o amgylch y plentyn,

*Un o'r prif bethau sydd wedi dod allan ohono i ni yw cydweithio a'r gwaith y mae angen ei wneud o amgylch hynny i gynnwys sut mae'r cydweithwyr yn teimlo oherwydd ei fod yn ymwneud â'r tîm o amgylch y plentyn. (Rheolwr 3)*

Gwelwyd bod effaith arbennig ar weithwyr proffesiynol a fynychodd o fyd addysg, a chynnydd yn eu hymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr maeth,

*Gallaf ddweud o ran ysgolion, mae'n debyg, oherwydd bod yr ysgolion hynny sydd wedi cymryd rhan yn sicr wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth ehangach o rôl y gofalwr maeth, ac yn fwy sensitif i anghenion y gofalwr maeth, os yw hynny'n gwneud synnwyr, a meddyliau a barn y gofalwr maeth, wyddoch chi. Mae'n ymwneud â gweithio fel tîm mewn gwirionedd, o'nd yw e, yn hytrach nag un, un person neu sefydliad sy'n gyfrifol am addysg plentyn. Felly, mae 'na ddull mwy colegol, dyna beth dwi'n ceisio ei ddweud, mae'n debyg. (Rheolwr 2)*

Roedd yn ymddangos bod hyn wedi arwain at ddealltwriaeth a dull mwy cyfunol o weithio gyda phlant. Nododd y rheolwr hwn hefyd sut oedd staff addysg wedi dod yn fwy sensitif i blant mewn gofal wrth symud ysgolion,

*Felly, mae rhyw fath o ddull cyflwyniadol mwy gofalus yn digwydd nawr, wyddoch chi, gydag ymweliad yn gyntaf, ac yna treulio peth amser gyda'ch cynorthwy-ydd addysgu rydych yn ei adnabod yn dda iawn o'ch hen ysgol, ac yna mynd â'r plentyn i'r ysgol newydd a'i gyflwyno i'r amgylchedd newydd yn y ffordd honno am gyfnod byr, ac yna cyfnod ychydig yn hirach, ac yna rhai gwersi a rhywfaint o amser chwarae, wyddoch chi? Ac yna, wyddoch chi, dull pontio mwy graddol....Rwy'n credu ei fod, mae'n cael ei wneud mewn ffordd fwy sensitif ac empathig o lawer nawr. (Rheolwr 2)*

Roedd rheolwyr yn teimlo ei bod yn fuddiol iawn i gynrychiolwyr o fyd addysg fod yn bresennol fel bod pobl yn dod yn ymwybodol o'r gwasanaethau a phwy i gysylltu â nhw,

*Dwi'n meddwl yn bendant, wyddoch chi, o ran addysg, byddai'n rhoi gwybodaeth i bobl am wasanaethau lleol a phethau felly, wyddoch chi, yn lleol a beth i'w wneud mewn sefyllfaoedd penodol. A dwi'n meddwl yn arbennig .. roedd eu cydlynydd addysg {nhw} yno, wyddoch chi, ac mae'n debyg bod hynny'n amhrisiadwy iddyn nhw, oherwydd eu bod nhw, wyddoch chi, wedi ffurfio'r berthynas honno gyda hi bryd hynny.. os oedd gan rywun fater addysgol. (Rheolwr 1)*

## Adborth a newidiadau i arferion

Roedd y rheolwyr yn teimlo bod yr adborth gan eu staff wedi bod yn gadarnhaol ynglŷn â'r dosbarthiadau meistr,

*Mae aelodau staff rheng flaen, yn bendant, yn teimlo y bu'n sicr yn werth chweil mynychu, y bu'n werth eu hamser (Rheolwr 1)*

Credai rheolwyr fod gwybodaeth am y rhaglen yn lledaenu a bod rheolwyr tîm yn hyrwyddo ac yn rhaeadru'r wybodaeth i lawr i staff eraill,

*Ar draws y pum tîm yn y timau lleoli, ydyn, maen nhw i gyd yn ymwybodol iawn o beth yw Maethu Lles. Mae rheolwyr tîm yn ei hyrwyddo, wyddoch chi. Ac mae pobl, fel y dywedais, mae'r adborth wedi bod yn dda gan y gweithwyr proffesiynol, y gweithwyr cymdeithasol a'r staff. Ac rwy'n gwybod bod gweithwyr cymdeithasol sydd wedi mynychu a rheolwyr tîm ac ati yn rhaeadru hynny trwy eu timau. Ac ie, ni fu unrhyw agwedd negyddol tuag ato mewn gwirionedd. Felly, rydyn ni'n gweithio ar ei wreiddio ymhellach mewn gwirionedd, a'i gadw'n fyw, ei gadw ar yr agenda. (Rheolwr 3)*

Datblygwyd rhai mentrau o ganlyniad i'r rhaglen Maethu Lles, gan gynnwys *Foster Forward*, sy'n cynnwys gofalwyr maeth a staff gwasanaethau plant, yn datblygu grŵp cyfranogi; mae grŵp amlddisgyblaethol o'r math hwn yn adlewyrchu rhai o negeseuon Maethu Lles,

*O ganlyniad, mae ganddyn nhw weithiwr cymdeithasol ymgynghorol yng Nghasnewydd, a oedd yn datblygu grŵp cyfranogi Foster Forward. Felly, fe wnaethon nhw ymestyn aelodaeth y grŵp i gynnwys cynrychiolwyr ar draws gwasanaethau plant yn ogystal â gofalwyr maeth. Wedi i'r gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol fynychu'r rhaglen les. Felly, yn ogystal â gofalwyr maeth, mae'r grŵp Foster Forward bellach yn cynnwys yr uwch ymarferwyr maethu, gweithwyr cymdeithasol ar y timau llwybrau, gweithiwr cyfiawnder ieuenctid, gweithwyr cymdeithasol yn y Tîm Amddiffyn Plant ac aelod o staff yn nhîm datblygu'r gweithlu. (Rheolwr 3)*

Fodd bynnag, nodwyd er bod *Foster Forward* a'r rôl arloesi yn cael eu datblygu, nad oedd effaith lawn Maethu Lles wedi'i gwireddu eto, oherwydd diffyg cyrhaeddiad y dosbarthiadau meistr ar draws y grwpiau amlddisgyblaethol, a bod hyn yn ffocws cyfredol i reolwyr,

*A dwi ddim yn credu ein bod wedi gweld yr effaith lawn eto oherwydd bod angen i ni gael, rydyn ni wedi gweld effaith y dosbarthiadau meistr gan fod gennym ni arloeswyr, ac ati. Yr effaith roedden ni ei heisiau ond dydyn ni ddim wedi'i gweld, oedd yr effaith amlddisgyblaethol, yn amlwg, ac rydyn ni'n mynd i weithio ar hynny nawr. … Felly, mae'n debyg mai effeithiau'r dosbarthiadau meistr yw bod gennym ni'r Arloeswyr, wedi'u hyfforddi ac yn barod i fynd, a byddwn yn edrych ar sut rydyn ni'n defnyddio'r rôl honno ym mhob awdurdod lleol. A bu llai o effeithiau ar weithwyr proffesiynol eraill nag y byddem yn dymuno… oherwydd ni welsom y presenoldeb y byddem wedi'i hoffi ganddynt. Efallai nad oedd yn gymaint o bresenoldeb y byddem yn ei hoffi gan ddisgyblaethau eraill. (Rheolwr 3)*

## Rhaglen arloesi

Roedd y rheolwyr yn parhau i lwyr gefnogi'r fenter arloesi, gan ystyried ei fod yn ddatblygiad cadarnhaol,

> *Felly, dwi'n meddwl bod y timau wir, wyddoch chi, yr elfen Arloeswr, maen nhw'n meddwl bod hynny, wyddoch chi, yn bositif iawn. (Rheolwr 3)*

Roedd rheolwyr o’r farn mai rôl yr arloeswr oedd cefnogi timau maethu,

> *Yr arloeswyr, dwi’n credu, felly dwi'n meddwl y bydd hynny siŵr o fod yn newid mewn llawer o ymarfer hefyd wrth symud ymlaen pan fydd y rheiny'n cael eu cychwyn, oherwydd bydd yn rhoi cangen arall o gefnogaeth i’r timau mewn gwirionedd (Rheolwr 1)*

Roedd rheolwyr hefyd o’r farn y gallai’r rôl arloeswr rymuso gofalwyr,

> *Dwi wedi mynd gam ymhellach a gwneud yr hyfforddiant arloeswr hefyd. Felly, rwy'n awyddus i, wyddoch chi, ddechrau hynny yn ein gwasanaeth gofal maeth hefyd, oherwydd bod cymaint o fanteision yn gysylltiedig â dull hunangymorth o’r fath, o’nd oes, mewn gwirionedd, a grymuso ein gofalwyr i gefnogi ei gilydd, y maen nhw’n ei wneud yn gyffredinol ac yn anffurfiol gryn dipyn beth bynnag (Rheolwr 2)*

Nododd rheolwyr fod cryn dipyn o ofalwyr a oedd yn frwdfrydig iawn am y rôl arloesi wedi cynnig cymryd rhan mewn rhai ardaloedd,

> *Mae cryn dipyn o bobl wedi cynnig bod yn Arloeswyr, ... Felly, mae'r ffaith bod gennym ni, wyddoch chi, nifer dda o Arloeswyr, a ninnau’n rhanbarth eithaf bach, yn dangos, dwi'n credu, wyddoch chi, bod y gofalwyr maeth yn wirioneddol frwd ynglŷn â hyn (Rheolwr 3)*

Yn yr un modd, roedd timau maethu’n gefnogol iawn i'r fenter arloesi,

> *Mae {awdurdod lleol} yn cyfarfod ar ddiwedd mis Ebrill i weld sut gallan nhw ddefnyddio'r rôl arloeswr i gefnogi gofalwyr maeth a datblygu'r gwasanaeth, felly’r un fath â [awdurdod lleol]. Felly rydyn ni, wyddoch chi, mae'r timau lleoli wedi derbyn hyn o ddifrif. (Rheolwr 2)*

Roedd gan rai ardaloedd eu cynlluniau eu hunain ar gyfer mentora ac felly nid oeddent o reidrwydd yn derbyn y rôl arloeswr, ond efallai y gellid uno'r ddau fodel,

> *Dwi'n gobeithio cynnwys y Rhwydwaith Maethu yn y cyfarfodydd rheolwyr rhanbarthol nesaf i geisio sbarduno hynny eto. Rwy'n gwybod bod [enw'r awdurdod lleol] wedi gofyn iddyn nhw, i ni ohirio’r arloeswyr am ychydig gan eu bod eisoes yn y broses o sefydlu eu cynllun mentora gan gyfoedion eu hunain. Felly, gobeithir y bydd yr arloeswyr yn cyfuno â hynny hefyd (Rheolwr 1)*

Mynegwyd rhywfaint o rybudd gan reolwyr. Holodd un sut gellid rhoi proses sicrhau ansawdd ar waith i wneud yn siŵr bod y gofalwyr gorau yn ymgymryd â'r rolau hyn,

*Mae'r fenter arloeswr yn dda iawn. Fodd bynnag, fe allai rhai materion godi os byddwch yn ei seilio ar ofalwyr sy'n enwebu eu hunain yn unig, wyddoch chi. Efallai bydd rheolwyr y tîm lleoli'n teimlo nad y bobl hynny yw'r bobl orau i gefnogi gofalwyr maeth eraill a'u mentora, a bod angen iddynt fod yn brofiadol. (Rheolwr 3)*

Roedd eraill eisiau trefniant mwy ffurfiol, wedi'i deilwra i'r awdurdod lleol,

*Ond byddai'n braf, wyddoch chi, ffurfioli hyn a'i strwythuro, oni fyddai? A chreu fframwaith {awdurdod lleol}, sut ydym ni eisiau datblygu hyn yn ein hawdurdod lleol ni? Beth sydd orau i ni? Beth sy'n diwallu ein hanghenion orau? Ac rwy'n credu, wyddoch chi, bod cymaint o fanteision yn gysylltiedig â'r ddealltwriaeth gyfunol honno, a chael yr egwyddorion hyn sy'n tanlinellu popeth a wnawn. Beth - wyddoch chi, i ble rydyn ni eisiau mynd gyda'r rhaglen arloesi? Byddwn i wrth fy modd yn cael y drafodaeth honno. (Rheolwr 2)*

Dywedodd eraill na fyddent eisiau i'r rôl fynd yn rhy fiwrocrataidd ac yn llai deniadol i ofalwyr maeth,

*Dydyn ni ddim am ei gwneud hi'n feichus i'r gofalwyr maeth, dydyn ni ddim eisiau iddynt wneud y rôl arloeswr, ac yna meddwl, o, mae'n rhaid i mi wneud yr holl waith papur yma, mae'n rhaid i mi fwydo'n ôl i'r gweithiwr cymdeithasol. Felly, wyddoch chi, rydyn ni'n edrych ar sut gallwn ni sicrhau nad yw'n feichus iddyn nhw, a'i bod yn rôl bositif y gallan nhw ei mwynhau, gan eu bod nhw wedi bod yn bositif wrth gynnig eu hunain. (Rheolwr 3)*

Yn amlwg, mae angen rhywfaint o gytundeb a thrafodaeth barhaus rhwng staff Maethu Lles, rheolwyr, timau maethu a gofalwyr maeth ynglŷn â datblygu'r rôl arloeswr.

### Presenoldeb a gadael cyn gorffen

Roedd yr holl reolwyr yn cydnabod bod angen i'r dosbarthiadau meistr gael mynediad at ystod ehangach o weithwyr proffesiynol y tu hwnt i ofalwyr maeth a thimau maethu, er mwyn cyflawni eu llawn botensial,

*Ond dwi'n deall gwerth annog addysg, iechyd a gwasanaethau plant i ymwneud yn fwy ag ef. Oherwydd dydw i ddim yn credu ei fod yn rhywbeth y gellir ei gyflawni trwy'r gofalwyr maeth a'r timau lleoli yn unig, yn llawn. Dydw i ddim yn credu y gellir cyflawni'r potensial llawn trwy dimau lleoli a gofalwyr maeth yn unig. (Rheolwr 3)*

Roedd hyn yn gwneud cynnydd yn anodd gan fod angen i weithwyr proffesiynol fynychu'r dosbarthiadau meistr yn gyntaf i drwytho'n llwyr yn y rhaglen cyn y gallent ei symud ymlaen, ac roedd llawer o staff yn aros i gael eu hyfforddi o hyd,

*Ond dwi mewn sefyllfa ansicr nawr ac yn gorfod aros, gan nad oedd fy nghydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol wedi cymryd rhan yn gynnar, ac maen nhw'n teimlo na allant symud ymlaen i ddatblygu'r rhaglen gyfan hon heb fynychu'r dosbarthiadau meistr eu hunain yn gyntaf. Felly, mae 'na rywun yn y gwasanaeth maethu sydd wedi cael y cyfrifoldeb, dwi'n dyfalu, a rhywun mewn hyfforddiant sydd wedi datblygu diddordeb oherwydd dwi wedi hyrwyddo'r peth mewn gwirionedd, a dweud, "Edrychwch, mae hyn yn ymwneud â chi hefyd," ond galla' i ddim, galla' i ddim gwneud hyn ar fy mhen fy hun, wyddoch chi? Dwi angen, dwi angen cefnogaeth pobl eraill. (Rheolwr 2)*

Mae perygl nad yw pawb ar yr un cam, gyda rhai'n ceisio hyrwyddo'r rhaglen nad yw eraill wedi ymroi iddi. Roedd yna deimlad bod gweithwyr cymdeithasol plant, iechyd ac weithiau addysg heb fynychu, a bod angen sicrhau eu cefnogaeth nhw o hyd,

*Mae angen cyrraedd gweithwyr cymdeithasol plant, addysg ac iechyd, oherwydd dwi'n credu, wyddoch chi, er ei fod yn agored iddyn nhw, doedd y presenoldeb ddim yn wych, gan weithwyr cymdeithasol plant neu addysg neu iechyd, yn ein rhanbarth ni beth bynnag. Felly, mae angen sicrhau cefnogaeth gweithwyr cymdeithasol plant, dwi'n meddwl, yn ogystal â'r tîm lleoli. (Rheolwr 3)*

Roedd staff addysg wedi mynychu mewn ardaloedd eraill, a gweithwyr cymdeithasol plant oedd y grŵp yr oedd angen ei dargedu,

*Roeddwn i'n falch bod gofalwyr maeth ac ysgolion yn cael eu cynrychioli, oherwydd bod y cydbwysedd hwnnw'n angenrheidiol, a dwi'n credu i mi feddwl i ddechrau bod hyn ar gyfer gofalwyr maeth yn unig, ond na, roedd yn bwysig cael cefnogaeth athrawon, yn bendant. Ond ie, rwy'n credu y dylai gweithwyr cymdeithasol fod yn rhan ohono, mewn gwirionedd. (Rheolwr 2)*

Roedd pob un yn gweld hyn fel cenhadaeth bresennol i hyrwyddo'r rhaglen ar draws yr ystod lawn o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal,

*Felly, mae hynny'n rhywbeth y mae gwir angen i ni ei ddatblygu, sef meddwl am sut i gyrraedd ein cynulleidfa amlddisgyblaethol ar draws y rhanbarth. (Rheolwr 3)*

### Cynaliadwyedd

Nid oedd yn glir sut byddai'r rhaglen yn parhau ac ym mha fformat, yn enwedig os nad oedd y dosbarthiadau meistr yn cael eu cynnal mwyach,

*Wn i ddim a fydd mwy o ddosbarthiadau meistr yn cael eu cyflwyno nawr. Felly, mae'r Fframwaith Dysgu a Datblygu fel taith ddysgu barhaus i'r gofalwyr maeth. Felly, petaen ni'n cyfeirio at y dosbarthiadau meistr, ac os nad oedden nhw'n mynd i gael eu cynnal mwyach, yna byddai hynny'n eithaf anodd,*

*wyddoch chi. A hefyd, mae'r Fframwaith Dysgu a Datblygu yno, a dwi ddim yn credu y gellid ei ddiweddaru. Ond yr hyn sydd gennym yw cysylltiadau da iawn â datblygu'r gweithlu ym mhob un o'r pum awdurdod lleol. Maen nhw'n anfon cylchlythyrau wythnosol at ofalwyr maeth gyda llawer o wahanol gyfleoedd dysgu, ac ati. Ac maen nhw wedi bod yn gwneud hynny gyda'r dosbarthiadau meistr. Ac mae hynny er mwyn i ni allu parhau i'w hyrwyddo fel dysgu a datblygu, ond trwy ddatblygu'r gweithlu. Felly, byddwn ni'n ei hyrwyddo yn y ffordd honno. (Rheolwr 3)*

Dywedodd un rheolwr eu bod yn bwriadu parhau i gynnal y dosbarthiadau meistr Maethu Lles eu hunain,

*Roedd y swyddog hyfforddi {yn yr awdurdod lleol} wedi dweud ei bod hi eisiau parhau i gynnal y rhaglen ei hun... gyda'r cydlynydd addysg a gytunodd y byddai'n rhan ohono hefyd, felly, roedden nhw'n mynd i barhau i wneud hynny (Rheolwr 1)*

Dywedodd eraill fod pobl yn yr awdurdod lleol wedi cael y dasg o reoli'r arloeswyr,

Felly, mae gennym ni berson yn y tîm sy'n gyfrifol am gadw hynny'n fyw ar yr agenda, rheoli'r Credydau Amser Temple, yr arloeswyr, ac ati. Felly, mae gennym ni hynny ym mhob awdurdod lleol. *(Rheolwr 3)*

Roedd y rheolwr hwn hefyd o'r farn y byddai angen cefnogaeth y Rhwydwaith Maethu arnynt i drefnu'r agwedd hon ar eu gwaith,

*Ac wrth i ni barhau ag elfen rôl arloeswr y daith, byddai angen cefnogaeth barhaus arnom i sefydlu ac ymgorffori hyn yn llawn yn ein gwasanaethau maethu. Ac rwy'n credu mai dyna'r cam rydyn ni arno ar hyn o bryd, wyddoch chi, sef parhau ar daith rôl yr Arloeswr ac ymgorffori hynny yn y gwasanaethau. (Rheolwr 3)*

Nid oedd union gyfeiriad a ffurf Maethu Lles wedi eu datblygu'n llawn eto, ond roedd ymdeimlad cryf nad oeddent am i'r hyn a ddysgwyd gael ei golli,

*Mae gen i ddau aelod o staff sydd â diddordeb ar hyn o bryd, maen nhw'n gwneud y dosbarthiadau meistr. Felly, dwi'n aros iddyn nhw ddal i fyny, ac wedyn bydd angen i ni ddod at ein gilydd a chynllunio i ble rydyn ni, fel awdurdod lleol, eisiau mynd â hyn, oherwydd - dwi ddim - dwi'n bersonol ddim eisiau iddo fod yn rhywbeth rydyn ni i gyd wedi'i godi a'i fwynhau a'i brofi, ac yna rydyn ni'n ei adael yno oherwydd ei fod wedi gorffen, ac mae'r arian wedi mynd. Dwi eisiau i ni wneud y mwyaf ohono, mewn gwirionedd, a dysgu o'n profiadau, (Rheolwr 2)*

Yn olaf, roedd rheolwyr yn cydnabod na allen nhw fod yn gyfrifol yn unig am symud y fenter ymlaen, gan fod hynny'n gofyn am ewyllys gyfunol,

*Ac rydw i wedi dechrau ei gynnwys mewn hunanwerthuso, sy'n ei ymgorffori mewn dulliau mewn ffordd, yntydy, ac yn ei wneud ychydig yn fwy ffurfiol. ..... Rydw i eisiau bod yn rhan o hyn, ac ni ddylai gael ei adael i mi yn unig. Mae*

*angen ymagwedd ac ymateb cyfunol [chwerthin] mewn gwirionedd. (Rheolwr 2)*

## Crynodeb

Ar ôl 12 mis, roedd y rheolwyr yn teimlo bod cymryd rhan yn y rhaglen Maethu Lles wedi helpu i ymgorffori gwerthoedd a syniadau o rianta a chyfrifoldeb corfforaethol. Roedden nhw wedi sylwi ar effaith benodol ar staff addysg a oedd wedi mynychu'r dosbarthiadau meistr, a oedd yn deall yn well rôl gofalwyr maeth a'r anawsterau sy'n eu hwynebu. Roedd adborth staff wedi bod yn gadarnhaol am y dosbarthiadau meistr. Roedd rhai mentrau wedi tyfu o ganlyniad i'r dosbarthiadau meistr, er enghraifft, *Foster Forward*. Roedd rheolwyr yn bositif iawn ynglŷn â'r project arloeswr ac roedden nhw wedi gweld llawer o ddiddordeb a brwdfrydedd gan ofalwyr maeth yn eu hardaloedd. Roedd gan reolwyr rai ymholiadau ynglŷn â sicrhau ansawdd yr arloeswyr, ac roedd rhai'n teimlo bod angen ffurfioli'r rôl, ond nid oedd eraill am iddi fynd yn rhy fiwrocrataidd. Roedd pob un yn cydnabod ei bod yn anodd i'r dosbarthiadau meistr gyrraedd y gwahanol grwpiau, yn enwedig gweithwyr cymdeithasol plant, ac yn teimlo bod hyn yn golygu nad oeddent wedi cyrraedd eu llawn botensial eto. Nid oes cytundeb cyffredinol ar sut i ddatblygu Maethu Lles, yn enwedig gan fod cynifer heb fynychu'r dosbarthiadau meistr o hyd. Mewn un ardal, roeddent yn bwriadu parhau i gynnal y dosbarthiadau meistr eu hunain o fewn yr awdurdod lleol. Roedd eraill yn teimlo y byddai arnynt angen cefnogaeth y Rhwydwaith Maethu, ac nid oes gweledigaeth wedi cael ei llunio na'i chytuno'n llwyr ar gyfer Cymru gyfan eto.

# Grwpiau ffocws gydag arloeswyr

Gwnaethom gynnal dau grŵp ffocws gydag arloeswyr yn ystod mis Mai 2022, un yn cynnwys pedwar gofalwr maeth, a'r ail gyda phump yn cymryd rhan (n=9). Erbyn diwedd mis Mehefin 2022, roedd 57 o arloeswyr wedi gwirfoddoli a 51 wedi derbyn hyfforddiant. Roedd hyfforddiant yr arloeswyr wedi dechrau ym mis Ionawr 2022. Roedd yr arloeswyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws i gyd yn ofalwyr maeth profiadol, ar ôl bod yn maethu am rhwng 2 a 13.5 mlynedd. Roeddent yn arbenigo mewn amryw feysydd, gan gynnwys pobl ifanc yn eu harddegau, babanod, gofal seibiant a grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd. Roedd yr arloeswr mwyaf profiadol wedi gofalu am 53 o blant. Roedd yr holl arloeswyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r rôl newydd ac yn gyffrous ynglŷn â'r cyfleoedd yr oedd yn eu cynnig, ac roedd gan bob un ohonynt amrywiaeth o syniadau ar gyfer sut y gellid ei datblygu. Roedd pob un yn teimlo nad oeddent wedi cael digon o gefnogaeth yn ystod eu blynyddoedd cynnar fel gofalwr maeth, ac yn fwy diweddar roeddent i gyd wedi teimlo'n ynysig yn ystod COVID-19, ac yn credu y byddai'r arloeswr yn helpu gyda'r anawsterau hyn,

> *Dwi ddim wedi cwrdd â - wel, dwi wedi, ond - cwrdd yn swyddogol â gofalwr maeth arall ers dwy flynedd a hanner bellach, a dydyn ni ddim wedi cael unrhyw grwpiau cymorth ers dwy flynedd a hanner. (Gofalwr Maeth 9)*

### Cymhelliant

Roedd yr arloeswyr wedi cael eu cymell i gymryd rhan am amryw resymau. Roedd rhai wedi cael eu hysbrydoli gan y staff gweledigaethol a 'brwdfrydig' yn y Rhwydwaith Maethu. Myfyriodd eraill ar eu hanawsterau eu hunain wrth ddechrau arni, a'r pwysau ar weithwyr cymdeithasol nad oeddent yn gallu eu cefnogi'n llawn,

> *Pan fydd gofalwyr maeth newydd yn dod i mewn i'r system, dwi'n credu bod angen llawer mwy o gymorth arnyn nhw, ac yn amlwg mae'r gweithwyr cymdeithasol mor brysur, os gallwn ni helpu a rhoi arweiniad i bobl, oherwydd rydyn ni wedi bod yna, yn amlwg, rydyn ni wedi profi hynny, ac nid yw hynny'n wir am y gweithwyr cymdeithasol, a dwi'n credu bod yna ran fawr i'w chwarae wrth gefnogi gofalwyr maeth newydd sy'n dod i mewn. (Gofalwr Maeth 6)*

Soniodd rhai am y berthynas wael a fu ganddynt gyda'u gweithiwr cymdeithasol cefnogol,

> *Pan ges i fy nghymeradwyo gyntaf, roedd gen i weithiwr cymdeithasol cefnogol a oedd yn wael iawn. Ni wnaeth fy helpu i wneud unrhyw beth, felly roeddwn i ar fy mhen fy hun i bob pwrpas, ar fy mhen fy hun, ac roedd rhaid i mi ddysgu fy hun. (Gofalwr Maeth 8)*

Mae'r arloeswr hwn hefyd yn nodi y gall cymorth gan gyfoedion fod yn fwy defnyddiol na mathau eraill o gefnogaeth broffesiynol gan fod arloeswyr wedi cael profiad go iawn o'r un sefyllfaoedd neu sefyllfaoedd tebyg. Cyfeiriodd un arloeswr at iaith gwaith cymdeithasol a maethu, sy'n aml yn gymhleth ac yn defnyddio llawer o acronymau, y mae gofalwyr maeth newydd yn aml yn ei gweld yn waharddol,

*Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd unrhyw un o'r byrfoddau, a byddwn i'n cael e-byst yn cynnwys y byrfoddau hyn, a byddwn i'n meddwl, Arglwydd mawr, beth yw hynny? Felly, mae 'na bethau bach fel 'na dydych chi ddim o reidrwydd yn eu dysgu ar y dechrau. Mae'n cymryd amser hir i chi eu deall. (Gofalwr Maeth 8)*

Er enghraifft, beth yw awdurdod dirprwyedig? Beth yw STO? (Gofalwr Maeth 2)

Felly, ystyriwyd y byddai llunio rhestr termau yn fenter dda y gallai arloeswyr ei datblygu.

Roedd yr holl arloeswyr yn cydnabod bod maethu'n rôl ynysig ac un nad yw'n cael ei chefnogi'n dda ar y cyfan, ac roeddent yn teimlo cymhelliad i geisio pontio'r bwlch hwn,

*Rydyn ni'n sôn llawer am sut mae bod yn ofalwr maeth yn eithaf ynysig beth bynnag, felly mae unrhyw ffordd y gallwn helpu gofalwyr maeth eraill, yn enwedig rhai newydd, a hen rai, yn wych. (Gofalwr Maeth 3)*

Roedd pob un o'r farn y gallai arloeswyr helpu gofalwyr maeth eraill i lywio rhai o heriau maethu, ac y gallai profiad cyffredinol yr arloeswyr fod yn werthfawr i eraill,

*Wel, ac yn sydyn iawn fe wnaeth i mi sylweddoli bod fy mhrofiadau'n werth rhywbeth, wyddoch chi, ac os galla' i helpu rhywun arall i beidio â mynd trwy'r rhan negyddol o'r broses ar ei ben ei hun, fel honiadau a phethau fel 'na, wyddoch chi, os galla' i esbonio i rywun, "Gwna'n siŵr dy fod wedi gwneud hyn, gwna'n siŵr dy fod wedi gwneud y llall," a'i helpu, dwi'n credu y bydd hynny'n werthfawr i ofalwyr maeth eraill. (Gofalwr Maeth 5)*

Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â negeseuon Maethu Lles, sef bod gofalwyr maeth yn arbenigwyr, dylent gael eu grymuso a dylai rhywun wrando arnynt. Roedd yr arloeswyr hefyd yn cydnabod y byddai'n llai brawychus ac yn llai ffurfiol gofyn i ofalwyr maeth eraill am gyngor na mynd at staff gwaith cymdeithasol.

Mae'r arloeswyr wedi sefydlu grŵp What's App i gyfathrebu â'i gilydd, ac wedi tynnu sylw at y ffaith bod eu hystod eang o arbenigedd yn ddefnyddiol, fel y gallai rhywun fynd at yr arloeswyr a gofyn cwestiwn,

*"Oes unrhyw un yn gwybod beth i'w wneud â hyn? Gall unrhyw un roi arweiniad i fi? Beth, beth - ble dylwn i ddechrau gyda hyn?" (Gofalwr Maeth 5)*

Awgrymodd un o'r arloeswyr system negeseuon testun, fel y gallai gofalwr maeth anfon neges destun at y grŵp gydag ymholiad,

*System negeseuon testun lle gallech chi anfon neges destun at grŵp. Ac wedyn os bydd rhywun yn dweud, mae gen i brofiad o hynny, wyt ti am fy ffonio? (Gofalwr Maeth 3)*

Yn ddiddorol, nid oedd yr arloeswyr am gael eu talu oherwydd gallai hyn wneud y rôl yn rhy ffurfiol, ond roeddent yn gwerthfawrogi cael cynnig credydau amser i gydnabod eu cyfraniad,

*Ie, a dwi'n meddwl, dwi yr un fath, fyddwn i ddim yn disgwyl arian amdano. Fe allai fynd yn rhy ffurfiol petaech chi'n gwneud hynny beth bynnag oherwydd, wyddoch chi, mae'n wirfoddol ond, ac mae'r credydau amser yn neis. Wel, fe allwch chi fynd ar drip fel teulu, oni allwch chi? Neu fynd â'r plant i rywle. (Gofalwr Maeth 1)*

Y prif ysgogiad oedd cefnogi gofalwyr maeth eraill fel y gellir gwella lles y gweithlu er mwyn osgoi eu llethu,

*Dwi'n credu bod gofalwyr maeth profiadol yn llawer mwy digyffro yn y ddrama o ofalu am blentyn. A dwi'n credu y bydd yr agwedd ddigyffro honno'n helpu gofalwyr maeth i beidio â mynd i banig ac, unwaith eto, peidio â chael eu llethu. (Gofalwr Maeth 2)*

Symudwn ymlaen i hyfforddiant yn awr.

### Hyfforddiant

Roedd yr arloeswyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r hyfforddiant yr oeddent wedi'i gael wrth wirfoddoli ar gyfer y rôl, gan deimlo ei fod yn anffurfiol, fel eu bod yn gallu cyfrannu eu syniadau eu hunain,

*Dwi wir wedi ei fwynhau a bod yn onest, dwi'n meddwl 'mod i wedi dysgu eithaf tipyn ohono fy hun hefyd. Mae 'na lwyth o agweddau efallai na fyddwn i wedi meddwl amdanyn nhw o'r blaen. A dwi hefyd yn hoffi'r ffordd mae'n cael ei gyflwyno'n anffurfiol, bod 'na lawer o drafodaethau a grwpiau. Dwi wedi gwneud rhai - dwi wedi cael rhai sgyrsiau da iawn gyda gofalwyr maeth eraill ac wedi gwyntyllu rhai syniadau da iawn. (Gofalwr Maeth 8)*

Teimlai'r arloeswyr fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i ddod yn fwy hyderus wrth siarad am yr heriau roedden nhw wedi'u hwynebu, cyfle nad oedden nhw'n ei gael yn aml yn y gorffennol,

*Felly mae'r hyfforddiant, mewn gwirionedd po fwyaf rydych chi'n ei wneud, y mwyaf rydych chi'n cael yr hyder i allu siarad am eich profiadau, oherwydd eu bod nhw mor andwyol ac eithafol… (Gofalwr Maeth 9)*

Roedd yr arloeswyr yn mwynhau'r rhwydwaith oedd wedi ei greu, gan deimlo y gallent weld y rôl yn datblygu ac yn ffurfio,

*Rwy'n credu bod {yr hwylusydd} wedi gwneud gwaith gwych wrth greu rhwydwaith bach o'n grŵp bach o Arloeswyr. Ac yn wir, wyddoch chi, chwe mis yn ôl pan ddechreuon ni - fe ddechreuon ni tua chwe mis yn ôl, roedd yn syniad eithaf annelwig ac mae'n dwyn ffrwyth nawr. Felly, y tu ôl i'r llenni, dwi'n gallu gweld bod llawer o waith caled wedi cael ei wneud. (Gofalwr Maeth 2)*

## Rôl Arloeswr

Roedd llawer o syniadau ynglŷn â sut gallai'r rôl ddatblygu. Ystyriwyd bod y syniad o lwyfan lle gellir rhannu gwybodaeth, er enghraifft, am 'sut i gael mynediad at CAMHS' yn ddefnyddiol o bosibl. Ystyriwyd bod y rôl yn gyfrwng pwysig hefyd i rannu gwybodaeth am adnoddau, gan gynnwys, er enghraifft, syniadau da am leoedd a digwyddiadau y gallai plant mewn gofal maeth eu mwynhau. Mae'n ymddangos y gallai'r rhain i gyd gael eu cynnwys mewn pecyn adnoddau arloeswr/gofalwr maeth. Yn yr un modd â'r cyfweliadau â hwyluswyr, cyfeiriodd rhai arloeswyr at Padlets o adnoddau,

*Bydd Padlets a fydd yn eu helpu gyda'r mater, a byddan nhw'n dweud, yn eich ardal chi, mae'r grŵp cymorth hwn yno, mae'r grŵp cymorth hwn yma ar gyfer hynny - wyddoch chi, a rhai gwahanol mewn ardaloedd gwahanol (Gofalwr Maeth 5)*

O ystyried bod COVID wedi golygu y bu'n rhaid gweithio ar-lein, roedd barn amrywiol ynghylch a allai'r rôl arloesi ddigwydd ar draws rhanbarthau neu a allai fod yn Gymru gyfan, er y byddai angen i unrhyw ddigwyddiadau, er enghraifft, 'cerdded gyda'n gilydd am les', fod yn fwy lleol.

Syniad arall oedd i arloeswyr gynnal gweithdai neu glinigau cyngor penodol,

*Rwy'n credu mai dau o'r prif faterion rwy'n tueddu i'w gweld gyda maethu yw ymddygiad ac addysg. Mae'n ymddangos mai dyna'r ddau fater y mae pobl yn cael trafferth â nhw, mewn gwirionedd. Felly, dwi ddim yn gwybod a yw'n werth bod yn rhagweithiol ac efallai cynnal pethau fel gweithdai neu glinigau cyngor neu gefnogi... (Gofalwr Maeth 1)*

Awgrymwyd hefyd y syniad o gyfarfod wyneb yn wyneb lle gallai arloeswyr fod ar gael ar gyfer sesiynau galw heibio,

*Neu hyd yn oed, wyddoch chi, rhyw fath o sesiwn galw heibio, wyddoch chi, lle mae gennym ni i gyd fwrdd a byddai pobl yn gofyn cwestiynau i bwy bynnag roedden nhw eisiau, wyddoch chi... mewn rhywbeth tebycach i farchnadle. Wn i ddim, ond rwy'n credu y gallai fod yn dda i fod yn rhagweithiol (Gofalwr Maeth 2)*

Awgrymodd un arloeswr y gallai fod yn ddefnyddiol bod yn rhan o'r broses recriwtio hefyd, fel y gallai darpar ofalwyr maeth deimlo'n fwy rhydd i ofyn cwestiynau, a gallai arloeswyr eu cefnogi ar hyd eu taith ymgeisio.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys ffurfio system gyfeillio, lle gallai arloeswyr gael eu cysylltu â gofalwyr maeth newydd neu rai sy'n ei chael hi'n anodd.

Nodwyd bod y model Mockingbird a gefnogir gan y Rhwydwaith Maethu yn rhoi cymorth i rai gofalwyr maeth, ond dim ond y rhai sy'n bodloni'r meini prawf, a'i bod yn bwysig bod llwybrau eraill o gefnogaeth yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf,

*Dwi'n meddwl po fwyaf mae'r awdurdodau lleol yn hyrwyddo'r Cynllun Mockingbird yma, bod angen i ni wneud yn siŵr bod y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer yr hyb hwnnw yn cael eu cefnogi o hyd. A dyna pam mae'n bwysig cael yr arloeswyr. (Gofalwr Maeth 2)*

Trafodwyd y syniad o gael desg mewn swyddfa awdurdod lleol a ph’un a oedd hyn yn rhywbeth a oedd yn cael ei ragweld: roedd barn amrywiol am hyn. Credai un grŵp y byddai hyn yn annhebygol o ystyried COVID a'r effaith ar batrymau gwaith, fel desgiau poeth. Fodd bynnag, roedd rhai'n croesawu'r syniad,

*Rwy'n credu y byddai hynny'n dda iawn - ie, oherwydd o leiaf wedyn rydych chi'n cael eich gweld yn gyfartal am wn i, ac rydych chi yn y swyddfa, rydych chi gyda nhw, rydych chi'n meithrin perthynas â gweithwyr cymdeithasol eraill na fyddech chi efallai wedi cwrdd â nhw o'r blaen. [Cytundeb gan y grŵp] Ac iddyn nhw ddeall eich sgiliau chi hefyd, fel bod - ie, rwy’n credu y byddai hynny'n dda iawn. (Gofalwr Maeth 8)*

Er bod y model arloeswr yn ei ddyddiau cynnar o hyd, roedd rhai enghreifftiau ohono’n cael ei weithredu eisoes,

*Fis diwethaf, fe gawson ni’r holl athrawon a oedd yn athrawon dynodedig yn yr ysgol gynradd, yr ysgol uwchradd, addysg arbennig, pawb [sŵn cefndir] – mae'n ddrwg gen i. Pob un ohonyn nhw ar un Zoom. Ac roeddwn i yno ac un neu ddau ofalwr maeth arall, dwi'n meddwl, ac roedden ni'n sôn yn benodol am yr ochr gwaith papur o bethau i geisio tacluso'r ffurflenni y mae'n rhaid i bawb eu llenwi. (Gofalwr Maeth 4)*

*Dwi wedi bod - yr wythnos ddiwethaf, fe es i draw i dŷ gofalwr maeth arall oedd wedi cael profiadau tebyg i mi, a dyna'r tro cyntaf iddi allu siarad yn agored i mi am y peth. (FG2P5)*

### Rhybuddion a rhwystrau

Roedd yr arloeswyr i gyd yn ymwybodol iawn nad gweithwyr cymdeithasol mohonynt ac y byddai cyfyngiadau ar yr hyn y gallent ei ddarparu, gan gynnwys ymdrin â materion cyfrinachedd pan fydd gofalwyr maeth yn siarad am eu hanawsterau,

*Nid gweithwyr cymdeithasol ydym ni, arloeswyr ydym ni (Gofalwr Maeth 6)*

Nodwyd y byddai'n bwysig gwybod pwy sy’n gyfrifol, ac y dylai arloeswr gael ei ystyried yn ffynhonnell gefnogaeth yn bennaf,

*Fy mhryder i yw croesi'r ffiniau, ac ystyried bod yr Arloeswyr yn gyfrifol am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y gofalwyr maeth. Ac rwy'n credu bod angen i weithwyr cymdeithasol edrych ar Arloeswyr fel rhwydwaith cymorth yn hytrach nag ateb (Gofalwr Maeth 2)*

Nodwyd hefyd y byddai'r system yn gweithio dim ond os oedd staff gwaith cymdeithasol yn ei deall, yn ymddiried ynddi ac yn ei chefnogi,

*Mae angen i'r gweithwyr cymdeithasol rheng flaen sy'n dod i mewn i'n cartrefi ddeall ychydig mwy am rôl yr arloeswyr, a siarad â nhw amdani mewn gwirionedd, ac i ni gael y cyfrifoldeb - a'r ymddiriedaeth, i allu siarad â gofalwyr maeth eraill a'u cynorthwyo fel y bo'r angen. (Gofalwr Maeth 2)*

Ac y byddai angen i bob gweithiwr cymdeithasol fod yn ymwybodol ohoni, a dylid eu cyfarwyddo i fynychu sesiwn wybodaeth amdani,

*Wrth weithio gyda'r awdurdod lleol, dwi'n meddwl y dylai fod yn orfodol, bod rhywbeth, naill ai cyflwyniad gan yr [arloeswyr] - dylai'r holl weithwyr cymdeithasol fod yn ymwybodol o beth yw rôl yr arloeswr. (Gofalwr Maeth 5)*

Pwysleisiodd arloeswyr fod hyn yn arbennig o bwysig, fel y gallai gweithwyr cymdeithasol gyfeirio gofalwyr maeth atynt, yn hytrach na chaniatáu i argyfwng ddatblygu. Nododd eraill y byddai angen iddo fod yn ddull Cymru gyfan, gyda chefnogaeth gan bob awdurdod lleol, ar yr un pryd ag ystyried y gwahaniaethau ar draws yr awdurdodau lleol,

*Dwi'n credu bod angen i ni wneud yn siŵr bod y cynghorau i gyd yn cefnogi hyn (Gofalwr Maeth 3)*

*Mae hi'n cyfarfod â phenaethiaid gwasanaeth yr holl ardaloedd gwahanol, ac mae hi'n cael ymateb cymysg ganddyn nhw, a dwi'n meddwl y dylai gynnwys pawb a gweithio law yn llaw, (Gofalwr Maeth 5)*

Teimlai'r arloeswyr yn gryf y byddai angen cyllid ar fenter o'r fath,

*Felly, dwi'n bendant yn meddwl y byddai ychydig o arian yn beth da gan yr awdurdod lleol. Dwi ddim yn gwybod os oes 'na - dwi ddim yn credu bod unrhyw fynediad ato, does gennym ni ddim. Ond dwi'n credu y byddai ychydig o gyllid yn beth da i wneud pethau fel digwyddiadau a phethau felly, y mae'r awdurdod lleol yn talu amdanynt. (Gofalwr Maeth 2)*

Awgrymwyd y dylai fod rhai arloeswyr gwrywaidd,

*Dwi'n credu y dylid ceisio cael rhai gofalwyr maeth gwrywaidd i gymryd rhan hefyd. (Gofalwr Maeth 2)*

Bydd hefyd yn bwysig sicrhau bod gofalwyr sy'n berthnasau yn cael eu cynrychioli yn y grŵp arloeswyr.

Yn olaf, teimlai'r Arloeswyr y byddai angen rhywfaint o gydlynu cyffredinol,

*Dwi'n tybio y byddai'n ddefnyddiol iawn cael cydlynydd y gallwn ni gysylltu ag ef os oes angen, os oes gennym unrhyw syniadau, neu os gallwn ni gael rhyw fath o gyfarfod, wyneb yn wyneb, gobeithio, wrth i amser fynd yn ei flaen, wyddoch chi, i drafod ein syniadau ac fel bod gennym ni rywun sy'n ei gydlynu, os mynnwch chi. (Gofalwr Maeth 1)*

## Crynodeb

Roedd y ddau grŵp ffocws yn frwd o blaid y rôl arloesol, ac awgrymwyd amrywiaeth o syniadau arloesol. Mae'r model cymorth gan gyfoedion yn cyd-fynd yn dda ag egwyddorion a fframwaith Maethu Lles. Mae ganddo'r potensial i ddarparu cymorth y mae mawr ei angen ar ofalwyr maeth, a allai, os bydd yn llwyddiannus, ychwanegu rhywfaint o gadernid a gwydnwch i'r gweithlu. Roedd yr arloeswyr yn credu y dylai fod tri i bedwar arloeswr ym mhob rhanbarth, fel nad oes gormod i'w rheoli. Nid yw'n glir sut byddai'r model yn cael ei gydlynu neu ei reoli, boed hynny ar lefel leol, ranbarthol neu Gymru gyfan. Yn sicr, byddai angen rhywfaint o gydlynu a byddai angen i'r arloeswyr gael eu cynorthwyo. Gallai hyn olygu bod angen cyfraniad parhaus gan y Rhwydwaith Maethu neu fe allai gael ei reoli'n lleol. Mae angen rhywfaint o arian ar y model hefyd ar gyfer digwyddiadau ac ati yn ychwanegol at gredydau amser. Gan fod y model arloesi yn ei ddyddiau cynnar, bydd yn ddiddorol gweld sut mae'n datblygu, ond mae'n dangos llawer o addewid ar hyn o bryd, yn enwedig gan fod gofalwyr maeth yn frwdfrydig iawn amdano.

# Cyfweliadau â hwyluswyr y dosbarthiadau meistr

Cynhaliwyd y cyfweliadau â hwyluswyr yn ystod mis Awst a mis Medi 2021.

### Yr Ymateb i Covid

Roedd yr hwyluswyr yn ymwybodol iawn o effaith Covid ar ofalwyr maeth, a oedd eisoes yn gweithio mewn sefyllfaoedd ynysig. Cynhyrchwyd syniadau ar gyfer sut i addasu'r dosbarthiadau meistr o ganlyniad i drafodaethau â Llywodraeth Cymru, ac roedd rhai o'r deunyddiau wedi'u cysylltu'n fwriadol â phrofiad o'r pandemig. Roedd yr hwyluswyr eisiau datblygu deunyddiau y gallai gofalwyr maeth eu defnyddio gartref,

*Yn yr un addysg, fe edrychon ni ar bethau fel y Parth Dysgu a'r Sefyllfa Gyffredin, a sut gallwch chi greu gweithgareddau gartref… (T5)*

Roedden nhw hefyd eisiau manteisio ar yr empathi cynyddol yr oedden nhw'n ei weld o ganlyniad i'r cyfnod clo,

*Dwi hefyd yn meddwl bod eithaf tipyn o egwyddorion y dosbarth meistr wedi taro deuddeg ychydig yn fwy erbyn hyn, ar ôl mynd trwy COVID oherwydd ei fod wedi ysgogi llawer o emosiynau mewn pobl. (T2)*

*Felly, {ar ôl Covid} dwi'n meddwl y gallwn ni i gyd gael rhyw fath o empathi tuag at blant sy'n profi'r datgysylltiadau hynny gan y bobl sy'n bwysig iddyn nhw a'r effaith mae hynny'n ei chael arnyn nhw. (T2)*

Yn yr ystyr hon, roedd hwyluswyr yn teimlo bod y gynulleidfa'n fwy parod i dderbyn rhai o brif negeseuon y dosbarthiadau meistr oherwydd cyfnod clo Covid.

# Canfyddiadau o'r dosbarthiadau meistr

## Canfyddiadau cyffredinol

Roedd yr hwyluswyr yn glir iawn mai un o brif ddibenion y dosbarthiadau meistr oedd dod â gofalwyr maeth i mewn i'r tîm o amgylch y plentyn a chynyddu'r parch at y gofalwr maeth,

*Nod y rhaglen yw dod â gofalwyr maeth i mewn i'r tîm o amgylch y plentyn a'u gwerthfawrogi nhw'n fawr, ond mewn gwirionedd, i weld yr ochr arall ac iddyn nhw ddeall.... Rwy'n credu bod hynny'n wir am ofalwyr maeth yn benodol, eu bod nhw'r un mor bwysig, os nad... wyddoch chi, y person allweddol yn y sefyllfa honno a dylen nhw deimlo hynny, a dylai'r gweithwyr proffesiynol eraill ystyried hynny hefyd. (T5)*

Roedd yr hwyluswyr o'r farn bod y pwrpas hwn wedi'i gyflawni, gan weld gofalwyr maeth yn datblygu ac yn ffynnu yn ystod y dosbarthiadau meistr,

*Ac i weld eu hyder yn cynyddu i rannu eu profiadau, yn hytrach na dweud, "O wel, dwi'n... wyddoch chi, dim ond gofalwr sy'n berthynas ydw i, felly fyddwn i ddim yn gwybod. (T5)*

Roedd yr hyfforddiant ar y cyd hefyd wedi cynnig iaith gyffredin y daeth gofalwyr maeth yn fwy hyderus i'w defnyddio,

*Defnyddio geiriau fel "cymorth cyfannol" neu "weithio gyda'n gilydd", wyddoch chi, i allu siarad am hynny ychydig yn fwy hyderus mewn gwirionedd... (T5)*

Nododd un hwylusydd nad oedd digon o bobl â phrofiad o ofal yn siarad ar y rhaglen,

*Dwi'n meddwl bod angen i ni gael mwy o bobl sydd wedi profi gofal, hynny yw, pobl go iawn yn siarad. Mae hynny'n anodd iawn oherwydd, yn amlwg, os ydyn nhw'n dal i fod mewn gofal, mae llawer o faterion yn ymwneud ag amddiffyn a phethau fel 'na. Ac nid yw pobl wastad eisiau siarad am eu profiadau.... Dwi'n teimlo bod angen i lais y plentyn fod ychydig yn gryfach. (T4)*

Roedd yr hwyluswyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r trefniadau cynnal ar y cyd, lle'r oedd hyfforddwyr yn gweithio mewn parau, a oedd yn rhoi cefnogaeth dda ac yn atgyfnerthu wrth gyflwyno'r deunyddiau,

*Fe allwch chi gael un person yn rheoli'r cynnwys, ac un person yn gwirio bod pawb yn iawn ac yn delio â... yn delio â'r math o bethau bach sy'n codi wrth gyflwyno dosbarthu ar-lein ac, wyddoch chi, sefydlu'r ystafelloedd trafod a phethau felly. (T5)*

Roedd syniadau amrywiol am y nifer ddelfrydol o gyfranogwyr wrth weithio ar-lein, ac awgrymodd yr hwyluswyr fod unrhyw nifer rhwng 12 a 30 yn briodol ar gyfer grŵp llwyddiannus.

Cafwyd peth trafodaeth ynghylch yr egwyddorion ac, er eu bod yn werthfawr, ystyriwyd p'un a dreuliwyd gormod o amser yn mynd trwy'r rhain, a theimlai sawl un y gellid lleihau hyn,

*Yn ôl pob tebyg, ni fyddwn i'n treulio cymaint o amser ar yr egwyddorion ym mhob sesiwn, yn mynd trwyddyn nhw. Mae'n debyg y byddwn i'n defnyddio'r amser hwnnw ar gyfer mwy o ryngweithio â'r cyfranogwyr, mwy... rhagor... efallai mwy o weithgareddau. (T1)*

*Fe allai gael ei wneud mewn ffordd ychydig yn wahanol efallai, lle mae pobl yn myfyrio ar yr egwyddorion a drafodon ni mewn sesiwn flaenorol... (T3)*

### Darparu ar-lein

Roedd yr holl hwyluswyr yn gweld manteision darparu ar-lein oherwydd rhwyddineb mynediad i gynrychiolwyr,

*Byddwn i'n dweud bod gofalwyr maeth wedi bod yn wych am fynychu. Dwi'n meddwl bod rhithwir yn ei gwneud hi'n haws. Mae'n llai tebygol y bydd rhywbeth yn digwydd wrth fynd yn ôl ac ymlaen i'r ysgol a chael eu hoedi a phethau. (T5)*

Nid oedd y rhan fwyaf o'r hwyluswyr yn gweld unrhyw reswm i ddychwelyd i gyflwyno wyneb yn wyneb,

*Byddai mynd yn ôl i wyneb yn wyneb yn golygu bod angen i lawer mwy o bobl hwyluso, mewn gwirionedd, oherwydd y... y teithio a'r logisteg. (T5)*

*... Dwi ddim yn gweld pam y bydden ni'n mynd yn ôl i gyflwyno'r hyfforddiant wyneb yn wyneb, oherwydd roedd... wyddoch chi, arbedwyd swm enfawr o arian trwy ei ddarparu'n rhithwir. (T1)*

Tra bod eraill yn credu bod darparu wyneb yn wyneb yn rhoi mwy o botensial i feithrin perthnasoedd a rhwydweithiau,

*Rwy'n credu y dylen nhw fod wyneb yn wyneb. Dyna fyddai fy newis i. O ran meithrin perthnasoedd yn unig, dwi'n meddwl ei bod yn hawdd... mae'r holl beth yn ymwneud â meithrin perthynas ac adeiladu'r tîm o amgylch y plentyn, felly dwi'n meddwl bod wyneb yn wyneb yn haws ar gyfer hynny. (T4)*

Awgrymodd rhai hwyluswyr ddull cyfunol,

*Dwi'n bendant yn gallu gweld gwerth mewn cyfarfod bob hyn a hyn .....oherwydd bod elfen bersonol yn cael ei cholli weithiau drwy'r ffordd yma o weithio, felly dwi'n meddwl y gallai gael ei gymysgu â rhai cyfleoedd i gyfarfod wyneb yn wyneb. (T2)*

Roedd darparu ar-lein yn caniatáu ar gyfer recriwtio siaradwyr allanol o ansawdd uchel, hyd yn oed ar gyfer cyflwyniadau byr yn unig,

*A… a hefyd am gael y siaradwyr gwadd, oherwydd os gallan nhw gysylltu o'u swyddfa… (T3)*

*Roedden ni'n gallu cael ystod amrywiol o bobl o'r seicolegwyr addysg neu'r timau cymorth agored i niwed, ac roedden nhw'n ei drefnu o amgylch eu hapwyntiadau, felly bydden nhw'n dweud, "Fe alla' i ymuno am 15 munud," a dyna'r cyfan yr oedden ni ei angen ganddyn nhw. (T5)*

Roedd un hwylusydd yn pryderu y gallai cael sgyrsiau manwl am drawma tra bod pobl gartref gyda phlant o gwmpas roi plant mewn sefyllfa anodd, y bydd yn werth ei ystyried ymhellach,

*Ac mae 'na drafodaethau eithaf dwys yn digwydd, nid am blant unigol yn arbennig, ond mewn gwirionedd sut… pa mor ddiogel mae'r plant hyn yn cael eu hamddiffyn gartref tra bod y sgyrsiau dwys hyn yn digwydd? (T3)*

### Gadael cyn gorffen

Nododd hwyluswyr hefyd yr anawsterau yn ymwneud â gadael cyn gorffen,

*Rwy'n credu y gellid eu gwella drwy gael ychydig yn fwy o bobl yn mynychu yn ne Cymru, felly hoffwn weld hynny'n datblygu (T2)*

Nododd un hwylusydd, er ei bod yn haws mynychu sesiwn rithwir, ei bod hefyd yn haws gadael sesiwn rithwir, a bod y rhai a oedd yn gwneud hynny'n gydweithwyr proffesiynol gan amlaf,

*Mae'n ymddangos mai'r rhai sy'n gadael yn aml yw'r gweithwyr proffesiynol yn fwy na neb arall (T4)*

Roedd yn ymddangos os oedd gweithwyr proffesiynol gwaith cymdeithasol yn mynychu'r sesiwn gyntaf, roeddent yn annhebygol o fynychu pob un o'r pum dosbarth meistr,

*Er ein bod wedi cael ymgysylltiad da gan dimau gwaith cymdeithasol yn y sesiwn gyntaf, nid yw hynny o reidrwydd yn cael ei gynnal trwy bob un o'r pum sesiwn. (T4)*

Nodwyd gwahaniaethau rhanbarthol, gyda rhai rhanbarthau yn ymwneud â'r rhaglen Maethu Lles cyn y dosbarthiadau meistr,

*Mae rhai rhanbarthau wedi bod yn ymwneud llawer mwy â'r broses honno cyn i'r dosbarthiadau meistr ddechrau. (T5)*

Ystyriwyd bod cefnogaeth gan uwch reolwyr wedi cael effaith sylweddol ar bresenoldeb,

*Fe ges i un ymateb gan Sofia, sy'n bennaeth gwasanaeth ar gyfer Llan, ac ers hynny, mae niferoedd Llan yn bendant wedi cynyddu {os} nad yw'n cael ei gymeradwyo na'i arwain gan y rheolwyr strategol, felly maen nhw'n... maen nhw'n ei weld dim ond fel cyfle hyfforddiant i ofalwyr maeth... (T1)*

Pan nad oedd cefnogaeth gan reolwyr yn amlwg, neu nad oedd y rhanbarth yn llwyr ddeall nodau a phwrpas y rhaglen, fe'i hystyriwyd yn gyfle hyfforddi i ofalwyr maeth yn unig,

*Dylid ei gael fesul awdurdod lleol, oherwydd bod yr awdurdod lleol yna'n cymryd cyfrifoldeb am yr hyn y mae angen ei wneud, ac yn sicrhau, wyddoch chi, fod pawb yn y tîm hwnnw o amgylch y plentyn yn bresennol. (T1)*

## Y Dyfodol

Wrth drafod syniadau ar gyfer y dyfodol, nododd yr hwyluswyr fod angen casglu'r adnoddau a'r deunyddiau ategol ynghyd mewn rhyw fath o Padlet,

*Padlet y gallai pobl gael mynediad ato a lle y byddai llawer o wahanol ddolenni i adnoddau a gwasanaethau lles. (T1)*

Roedd yr hwyluswyr yn ymwybodol nad oedd rôl yr arloeswr wedi cael ei datblygu ar adeg y cyfweliad ac efallai y byddai'n well i hyn gael ei gychwyn wyneb yn wyneb,

*Dwi'n meddwl, o bosib, y byddai'r pethau wyneb yn wyneb yn well gyda'r arloeswyr. Felly, dwi'n meddwl, wyddoch chi, os ydych chi'n ceisio datblygu rôl arloeswr ym mhob awdurdod lleol, byddai gallu cyfarfod yn rhywle go iawn ac, wyddoch chi, cael y math yna o deimlad cymunedol, yn hytrach na'i fod yn rhithwir... oherwydd eich bod chi'n... rydych chi'n... rydych chi wedi'ch lleoli'n fwy yn y gymuned honno. (T1)*

Awgrymodd un hwylusydd fod angen mwy o siaradwyr â phrofiad o ofal wrth ddarparu'r dosbarthiadau meistr yn y dyfodol, fel yr amlygwyd yn y gwerthusiad dros dro. Nododd eraill fod angen sesiwn ddilynol i gyfnerthu'r hyn a ddysgwyd a chyfleoedd rhwydweithio yn y dyfodol,

*Cyfle dilynol i gyfarfod, efallai, a thrafod sut maen nhw wedi gweithredu'r rhaglen, efallai rhywbeth felly. (T2)*

# Cyfweliad â Rheolwr y Rhaglen

Cyfwelwyd rheolwr y rhaglen Maethu Lles ym mis Ebrill 2022.

### Datblygiad y cwrs

Dywedodd rheolwr y rhaglen, er bod y dosbarthiadau meistr wedi dechrau wyneb yn wyneb, gohiriwyd y ddarpariaeth ym mis Mawrth 2020 oherwydd COVID-19. Rhoddodd hyn amser i'r tîm ymgymryd â chwrs hyfforddi deg wythnos ar addysgeg gymdeithasol a gynhaliwyd gan y Rhwydwaith Datblygu Addysgeg Gymdeithasol, a sicrhau bod y cysyniadau hynny wedi'u gwreiddio'n llawn yn y dosbarthiadau meistr.

Mae rheolwr y rhaglen wedi neilltuo amser i fapio'r dosbarthiadau meistr i'r Fframwaith Dysgu a Datblygu ôl-gymeradwyo ar gyfer gofalwyr maeth (https://fosterwales.gov.wales) ac mae'r cynnwys yn ategu ac ymateb i'r agenda hon yn gryf,

> *Fe wnaethon ni fapio maethu lles yn erbyn y fframwaith, felly, ac fe ddarparon ni fersiwn fanwl o hynny ar gyfer gwasanaethau, fel y gallen nhw weld pa elfennau yn union yr oedden ni'n ymdrin â nhw. Ond fe wnaethon ni hefyd ddarparu adolygiad cyflym ar gyfer gofalwyr maeth, felly os oedden nhw'n dod i ddosbarth meistr un, fe allen nhw weld yn syth pa feysydd o'u fframwaith y gallen nhw droi atynt a'u llenwi*

Dywedodd rheolwr y rhaglen fod y deunydd yn berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc, nid dim ond y rhai sydd â phrofiad o ofal, a'i fod yn cyd-fynd yn dda â'r dull ysgol gyfan o ymdrin â'r agenda iechyd meddwl a lles mewn ysgolion yng Nghymru. Dywedodd rheolwr y rhaglen fod y dosbarthiadau meistr yn rhoi cyfleoedd i'r cynrychiolwyr fyfyrio ar eu hymarfer, a dod yn ymarferwyr mwy ymatblyg wrth symud ymlaen. Mae'r dosbarthiadau meistr hefyd yn cynnig rhywfaint o gysondeb o ran dysgu ledled Cymru, er hynny gyda pheth addasu a theilwra rhanbarthol.

### Darparu ar-lein

Roedd y saib o ran darparu a achoswyd gan COVID-19 wedi rhoi cyfle ac amser i'r tîm ddiwygio deunyddiau'r rhaglen i'w gwneud yn addas i'w darparu ar-lein, eu haddasu i gyd-destun y pandemig, a mireinio'r dosbarthiadau meistr ymhellach, gan ddileu rhai o'r elfennau diangen. Cyfeiriodd at lwyddiant y newid i ddarparu ar-lein, yn enwedig gan fod hyn yn golygu mwy o hygyrchedd i gynrychiolwyr,

> *Rwy'n gwybod o'r cyfnod cyn y pandemig ei bod yn eithaf anodd cael yr holl bobl hynny at ei gilydd mewn ystafell, ac mae darparu'n rhithwir yn ei gwneud ychydig yn haws mewn gwirionedd*

Roedd hefyd wedi gwella eu gallu i recriwtio ystod ehangach o lawer o siaradwyr, nad oedd yn rhaid iddynt neilltuo diwrnod cyfan i fynychu'r dosbarthiadau meistr. Roedd darparu ar-lein hefyd yn ei gwneud yn haws o lawer i reoli'r rhaglen,

*O ran y dosbarthiadau meistr, rwy'n credu bod rhithwir yn gweithio. Mae'n ein galluogi i wneud cymaint yn fwy nag y gallem fod wedi'i wneud pe bai'n rhaid i ni i gyd deithio o gwmpas a threfnu pobl*

Fodd bynnag, soniodd rheolwr y rhaglen hefyd am anawsterau wrth recriwtio pobl ifanc â phrofiad o ofal, a amlygwyd fel hepgoriad yn ein hadroddiad interim,

*oherwydd doedden ni ddim yn teimlo'n hyderus yn ein gallu i gefnogi pobl ifanc i rannu eu straeon o bell*

Mae'n amlwg bod Maethu Lles wedi ymrwymo i gefnogi'r rhai sy'n cyflwyno eu profiadau bywyd a'i bod yn bwriadu cynnwys yr agwedd hon yn ehangach wrth symud ymlaen.

### Ymgysylltu â'r sector

Arweiniodd darparu ar-lein at fwy o ymgysylltiad, gan fod dros 500 o bobl wedi mynychu'r dosbarthiadau meistr ar adeg y cyfweliad (a rhoddwyd gwybod i ni fod 757 wedi mynychu o leiaf un dosbarth meistr ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn), ac mae rheolwr y rhaglen yn rhagweld cyrraedd tua 15% o ofalwyr awdurdodau lleol yn ystod y cynllun peilot,

*Byddwn yn cyrraedd tua 15% o'r boblogaeth gofalwyr maeth mewn awdurdodau lleol trwy'r cynllun peilot hwn*

Dywedodd rheolwr y rhaglen eu bod wedi sefydlu cysylltiadau ym mhob awdurdod lleol. Un o gryfderau'r dull Maethu Lles yw ei bwyslais amlddisgyblaethol a dod â holl aelodau'r tîm o amgylch y plentyn at ei gilydd. Fodd bynnag, roedd yn anodd iawn cynnwys cynrychiolwyr iechyd yn y dosbarthiadau meistr yn ystod pandemig cenedlaethol. Yn yr un modd, roedd addysg yn ei chael hi'n anodd yn ystod y cyfnod hwn hefyd gan fod llawer o staff yn cael eu 'hadleoli'.

Trafododd rheolwr y rhaglen anawsterau wrth gael staff addysg i fynychu dosbarthiadau meistr yn fwy cyffredinol, oherwydd amserlen yr ysgol, ac maen nhw'n ystyried ffyrdd y gellid datblygu'r rhaglen i fynd i'r afael â hyn, o bosibl fel model hybrid. Fodd bynnag, mae model hybrid yn heriol, gan y bydd yn bwysig iddynt gadw presenoldeb a llais gofalwyr maeth o hyd,

*Rhyw fath o fodel hybrid efallai, fel y gallwn roi'r cymorth i ysgolion, cael y wybodaeth i ysgolion, ond heb golli'r elfen lle maen nhw'n cael y trafodaethau hynny a chlywed gofalwyr maeth yn siarad am eu profiadau, oherwydd dyna lle maen nhw'n mynd i, gobeithio, dyna beth fydd yn goleuo'r ffordd iddyn nhw*

Tynnodd rheolwr y rhaglen sylw at y ffaith mai cryfder Maethu Lles yw eu gwybodaeth am awdurdodau lleol, a gallu defnyddio pobl allweddol,

*Gwir gryfder y rhaglen yw dod â lleisiau rhanbarthol a siaradwyr o bob rhan o'r rhanbarth ynghyd ac, wyddoch chi, siaradwyr gwadd o broffesiynau ar draws y rhanbarth*

Teimlai hefyd fod cael sêl bendith uwch reolwyr a gallu adeiladu ar rwydweithiau rhanbarthol yn hanfodol i hyrwyddo a threfnu'r dosbarthiadau meistr,

*{Rydyn ni wedi} sicrhau cefnogaeth gan rai pobl allweddol iawn sy'n ein helpu ni i ddatblygu'r rhaglen yn eu hardaloedd...... mae wedi cael ei gymeradwyo o'r brig, ac mae pawb wedi gweld hynny.*

Mae prif negeseuon y rhaglen yn cyfrannu at ei llwyddiant hefyd, sef y pwyslais ar gymorth cyfannol, cynllunio sy'n canolbwyntio ar y plentyn a ffyrdd o weithio. Yn ogystal, roedd canolbwyntio ar waith tîm a hyrwyddo rôl y gofalwr maeth yn neges hynod berthnasol a groesawyd.

## Adroddiad Interim

Trafododd rheolwr y rhaglen ein hadroddiad interim ac unrhyw newidiadau a wnaed i'r rhaglen o ganlyniad iddo. Teimlai y bu'r adroddiad interim yn ffordd ddefnyddiol o gael adborth gan gynrychiolwyr, sy'n aml yn anoddach i'w fesur wrth weithio ar-lein. Roedd adborth yn ymwneud â'r pwyslais gormodol ar y deg egwyddor wedi ysgogi'r hwyluswyr i leihau'r amser a dreulir ar hyn, a dyrannu mwy o amser i drafod. Yn ogystal, canfu'r tîm darparu fod yr adborth wedi cadarnhau llawer o'r pethau yr oeddent yn eu gwneud yn dda,

*Roedd wir wedi rhoi'r wybodaeth honno i ni ac fe allen ni weld bod llawer o'r pethau, yn y bôn roedd yr hyn roedden nhw'n ei ddweud yn union beth fydden ni wedi dymuno iddyn nhw ei ddweud, a doedden ni ddim yn gwybod hynny tan i ni ddarllen yr adroddiad efallai ar y raddfa honno. Felly, dyna oedd y peth cyntaf, ein bod ni'n gweld bod hyn yn gweithio yn y ffordd roedden ni eisiau iddo weithio. Felly roedd hynny'n bwysig iawn. Dwi'n meddwl ei bod hi'n ddiddorol gweld y pethau yr oedd pobl yn canolbwyntio arnyn nhw ac fe gawson ni adborth byw da iawn*

## Arloeswyr

Roedd yr hyfforddiant arloesi wedi dechrau ar adeg y cyfweliad, ac roedd y rhan fwyaf o ranbarthau wedi hyfforddi o leiaf un arloeswr. Mae'r hyfforddiant ar gyfer arloeswyr yn cynnwys sesiynau ar fentora a hunanofal. Disgrifiodd rheolwr y rhaglen awydd enfawr am gymorth gan gymheiriaid, yn enwedig o ystyried yr ynysu ychwanegol a brofodd ofalwyr maeth yn ystod COVID-19,

*Mae llawer o wasanaethau'n dweud wrthym fod eu gofalwyr maeth yn gofyn am gymorth gan gyfoedion... oherwydd roedden nhw'n teimlo'n eithaf ynysig yn ystod Covid, neu i'r gwrthwyneb yn ystod Covid, gofalwyr maeth eraill oedd wir, wyddoch chi, rhywun a oedd, roedd gwybod at bwy y gallen nhw fynd yn fuddiol iawn. Felly, rhywbeth sy'n dod drwodd yn eithaf cryf o eithaf tipyn o'r ardaloedd yw y bydden nhw'n hoffi i'r grŵp Arloesi gael pwyslais o'r math yna*

Roedd tîm rheoli'r rhaglen yn bwriadu creu canllaw cyfeirio ar gyfer gwasanaethau i amlinellu'r ystod o weithgareddau y gallai arloeswyr ymwneud â nhw,

> *Yr hyn yr hoffem allu ei wneud yn eithaf buan yn y bedwaredd flwyddyn hon yw cael rhyw fath o ganllaw cyfeirio hawdd ar gyfer gwasanaethau fel y gallant ddweud, dyma beth mae Arloeswr Maethu Lles yn ei wneud*

Roedd y tîm rheoli, ynghyd ag arloeswyr, yn datblygu Padlet o adnoddau i fod ar gael yn eang i bob gofalwr maeth.

## Cynllunio Gwasanaeth

Dywedodd rheolwr y rhaglen fod cynlluniau gweithredu rhanbarthol yn cael eu datblygu i fwrw ymlaen â'r rhaglen Maethu Lles. Tynnodd sylw hefyd at yr angen am ddull rhanbarthol, cydweithredol, efallai gyda'r Rhwydwaith Maethu yn cydlynu ac yn symud hyn ymlaen. Mae'r gwaith hwn yn faes datblygu parhaus.

## Dyheadau ar gyfer y dyfodol

Dywedodd rheolwr y rhaglen y byddai'n gobeithio i waith amlddisgyblaethol gael ei wreiddio'n llawn a dod yn 'fater o drefn' yn y dyfodol, a'u bod yn bwriadu parhau i ddarparu'r dosbarthiadau meistr yn rhithwir, a'u dilyn gan ddigwyddiad rhwydweithio wyneb yn wyneb.

# Arsylwadau ar y dosbarth meistr

Roedd un o'r ymchwilwyr yn bresennol ym mhob un o'r pum dosbarth meistr Cymru gyfan a gwnaeth rai arsylwadau cyffredinol.

### Trosolwg

Elfennau cadarnhaol:

- Mae'r dosbarthiadau meistr yn darparu ystod eang o ddeunydd cyfoethog, diddorol a gyflwynir gan gyflwynwyr rhagorol.

- Mae'r 10 egwyddor yn darparu strwythur adeiladol, dilyniannol ar gyfer y dosbarthiadau. Mae dilyniant clir o gynnwys.

- Mae defnyddio arbenigedd lleol yn rhoi amrywiaeth o gysylltiadau defnyddiol i'r cynrychiolwyr gyfeirio atynt.

- Defnyddir amser yn effeithlon i gydbwyso ystod uchelgeisiol o weithgareddau.

- Mae cyfranogwyr a chanddynt wahanol brofiadau proffesiynol, daearyddol a bywyd yn cynnig ystod amrywiol o safbwyntiau.

- Wrth i'r dosbarthiadau ddatblygu, sefydlwyd diwylliant cyfeillgar a chynhwysol.

- Roedd yr hwyluswyr yn arweinwyr carismatig a chyson.

  Yn ystod pob sesiwn, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddefnyddio SmartSurvey i gwblhau brawddeg. Rhannwyd yr atebion hyn yn y 5ed sesiwn i ysgogi trafodaeth a myfyrio.

- Mae'r taflenni a'r adnoddau ategol yn ffynhonnell gyfoethog o ddeunydd cyfeirio.

- Gall fod yn anodd mesur i ba raddau y mae pobl yn ymgysylltu yn rhithwir, ond roedd y drafodaeth mewn grwpiau trafod ac iaith y corff y gellid ei gweld yn awgrymu lefel dda o ymgysylltu.

### Gwelliannau Posibl:

- Gallai disgwyliadau'r cwrs fod wedi cael eu hesbonio'n gliriach i greu diwylliant mwy dyheadol. Yn ddelfrydol, dylai pob cynrychiolydd deimlo'n freintiedig i fynychu cwrs mor unigryw sy'n cynnwys adnoddau mor dda. Gallai trafodaeth benodol ar ddisgwyliadau fod wedi lleihau cyfraddau gadael cyn gorffen.

- Gallai pob cwrs ddechrau gyda rhywfaint o adborth o'r un blaenorol. Gallai hyn dynnu sylw at ddiwylliant gwrando ac atgoffa'r cyfranogwyr o werth y cwrs.

- Er mwyn helpu i’w cofio, gellid bod wedi cyflwyno'r deg egwyddor gyda llai o destun ac eicon ar gyfer pob un.

- Gellid bod wedi ymestyn yr amser yn y grwpiau trafod weithiau, er ei bod yn anodd cydbwyso'r amser cyfyngedig ag angen pobl i fyfyrio. Mae cynrychiolwyr yn crwydro o'r pynciau a ddyrannwyd hefyd, ond mae'r drafodaeth hon yn helpu i greu cysylltiadau a rhannu arbenigedd.

- Byddai mwy o gynrychiolwyr o fyd addysg yn gwella'r cwrs. Yn ddelfrydol, mae angen i fwy o addysgwyr fynychu, er mwyn ennill a rhannu gwybodaeth, a gallai Cydlynydd Plant sy’n Derbyn Gofal ddarparu gwybodaeth werthfawr hefyd.

- Gallai mwy o gyfleoedd fod wedi cael eu creu i hyrwyddo'r fenter Arloeswyr.

- Gallai mwy o amser i drafod helpu i wreiddio'r hyn a ddysgwyd.

- Byddai Maethu Lles yn elwa o fwy o gynrychiolwyr. Dylai’r adnodd ardderchog hwn gael ei ddarparu i gynifer o bobl â phosibl, ond, oherwydd cyfraddau gadael cyn gorffen, mae'r cyrsiau'n aml yn is na'r capasiti.

- Mae'r cwrs hwn yn gweithio orau pan fydd ystod eang o ddisgyblaethau'n cael eu cynrychioli. Byddai lefelau gadael cyn gorffen a phresenoldeb yn elwa o ystyriaeth bellach.

- Gallai mwy o gyfraniadau gan bobl ifanc ac arbenigwyr trwy brofiad wella'r cwrs.

# Crynodebau Gwerthuso

Darparwyd gwerthusiadau i ni a gasglwyd gan y Rhwydwaith Maethu trwy'r swyddogaeth sgwrsio yn Zoom. Casglwyd 345 o ymatebion o'r pedair carfan o ddosbarthiadau meistr (un ymateb fesul unigolyn, fesul dosbarth meistr). Roedd y rhain yn dod o Ganolbarth a Gorllewin Cymru yn bennaf, gan nad oedd gwerthusiadau ar gael o ranbarthau eraill lle'r oedd awdurdodau wedi'u cyfyngu i ddefnyddio Microsoft Teams, nad oedd yn galluogi'r holl gyfranogwyr i gael mynediad at y swyddogaeth sgwrsio o'u dyfeisiau yn gyson.

Mae'r gwerthusiadau'n adleisio'r data o'r cyfweliadau i raddau helaeth, gan dynnu sylw at bwysigrwydd dull amlddisgyblaethol, a bod hyn yn aml ar goll, yn enwedig gan reolwyr,

*{Mae arnom angen} Presenoldeb gan amrywiaeth ehangach o gynrychiolwyr.*

*Mae angen i'r hyfforddiant gael ei gwblhau gan reolwyr a'r rhai sy'n uwch i fyny.*

Roedd y cynrychiolwyr yn gwerthfawrogi mewnbwn arbenigwyr, yn enwedig yn ymwneud ag lleferydd ac iaith,

*Mae cyflwyniad y Therapydd Lleferydd ac Iaith wedi agor fy meddwl i fod yn fwy effro i anawsterau cyfathrebu a sut gallaf gynorthwyo plant a phobl ifanc i gyfathrebu.*

Nododd y cynrychiolwyr sut oedd yr hyfforddiant yn creu diwylliant tîm, gan gredu y dylai'r hyfforddiant barhau, fel y byddai pawb yn gweithio er pennaf les y plentyn,

*Parhau i hyfforddi pawb sy'n ymwneud â'r Plentyn sy'n Derbyn Gofal (gofalwyr maeth, staff ysgolion, gweithwyr cymdeithasol a chymorth), i edrych ar y plentyn cyfan, i fyfyrio'n aml, i roi eu hunain yn sefyllfa'r plentyn, ac yn bwysicaf oll i wrando ar y plentyn.*

Roedd llawer o'r negeseuon a dreiddiodd drwodd ynglŷn â'r hyn y mae angen iddo newid yn ymwneud â chydnabod pwysigrwydd gofalwyr maeth, a'u cynnwys mewn trafodaethau wrth wneud penderfyniadau,

*Gwell cydnabyddiaeth o alluoedd proffesiynol Gofalwyr Maeth.*

*Cydnabod bod gofalwyr maeth yn fwy na gofalwr yn unig. Hoffwn ein gweld yn cael ein hystyried yn fwy o ddifrif wrth wneud penderfyniadau a dod yn rhan o'r broses benderfynu.*

Dywedodd gofalwyr maeth eu bod yn benderfynol o ddod yn fwy pendant ac eirioli'n fwy ar ran plant,

*Rwy'n credu bod angen i mi'n bersonol fod ychydig yn fwy pendant i sicrhau fy mod yn cael fy nghlywed. Mae dyfodol y plant rwy'n gofalu amdanyn nhw'n dibynnu ar fy llais, ac fel y cadarnhaodd y sesiwn, rydyn ni ofalwyr yn adnabod y plant hyn yn well na NEB.*

Mae awgrymiadau niferus ynglŷn â mwy o amser i drafod mewn grwpiau trafod a'r cyfle i gael mwy o ryngweithio rhwng cyfranogwyr.

Grwpiau trafod hirach a chyfle i glywed mwy gan ofalwyr maeth eraill, yn enwedig gofalwyr sy'n berthnasau.

# Casgliadau

Mae'r dosbarthiadau meistr wedi cael eu derbyn yn eithriadol o dda. Roedd y ddarpariaeth ar-lein yn golygu eu bod yn hygyrch, yn enwedig o ystyried bod rhan fawr o Gymru’n wledig, ac y byddai angen i rai pobl deithio am sawl awr i fynychu hyfforddiant. Ystyriwyd bod safon y cyflwyno'n rhagorol, a bod yr hwyluswyr yn frwdfrydig a gwybodus. Roedd y ffaith bod un o'r hwyluswyr yn ofalwr maeth yn cael ei ystyried yn fodel rôl ardderchog. Ystyriwyd bod y cynnwys yn hynod berthnasol. Mwynhaodd y cynrychiolwyr y gwahanol fewnbynnau gan arbenigwyr a'r ystod o sgiliau a dulliau a drafodwyd. Roedd y deunyddiau'n ategu hyfforddiant arall ar fod yn ystyriol o drawma a gafodd y cynrychiolwyr.

Nodwyd nad oedd pobl ifanc â phrofiad o ofal wedi cael eu defnyddio cymaint ag y gobeithiwyd, yn rhannol oherwydd y cyfleoedd cyfyngedig i gefnogi pobl ifanc yn ystod COVID-19. Awgrymwyd y gellid neilltuo mwy o amser i ystafelloedd trafod a llai o amser i ymdrin â'r deg egwyddor. Nodwyd hefyd bod llai o gyfleoedd i rwydweithio o ganlyniad i fod ar-lein.

Mae’r dosbarthiadau meistr wedi cael eu mapio i'r fframwaith dysgu a datblygu ôl-gymeradwyo (https://fosterwales.gov.wales) sy'n cynnwys hyfforddiant gorfodol ar gyfer gofalwyr maeth a ddylai gwblhau isafswm o 15 awr o hyfforddiant y flwyddyn. Roedd y dosbarthiadau meistr yn cael eu gwerthfawrogi’n fawr oherwydd y siaradwyr a'r gynulleidfa amlddisgyblaethol, er bod presenoldeb gan yr ystod lawn o weithwyr proffesiynol yn y tîm o amgylch y plentyn yn gyfyngedig. Roedd lefelau gadael cyn gorffen yn uchel iawn hefyd, yn enwedig ymhlith cydweithwyr proffesiynol.

Siaradodd y cynrychiolwyr yn helaeth am y sgiliau a'r dulliau a ddysgwyd a sut oeddent wedi cymhwyso'r rhain i ymarfer. Trafododd y cynrychiolwyr hefyd y newid er mwyn sicrhau bod ysgolion a gofalwyr maeth yn cael eu cynnwys yng nghyfarfodydd y tîm o amgylch y plentyn. Rhoddodd gofalwyr maeth lawer o enghreifftiau o'r ffordd yr oeddent yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i 'wthio' ac eirioli ar ran y plentyn. Roedd y cynrychiolwyr yn fwy ymwybodol o lawer o rolau gwahanol aelodau eraill o’r tîm o amgylch y plentyn, yn enwedig cydweithwyr proffesiynol a ddechreuodd ddeall rôl gofalwyr maeth a'r anawsterau maen nhw’n eu hwynebu. Trafododd y cynrychiolwyr ganolbwyntio’n fwy ar y plentyn a chael mwy o empathi tuag at blant a dealltwriaeth o'u hymddygiad. Derbyniodd pob un y neges gref fod rhianta corfforaethol yn fusnes pawb.

Ar ôl 12 mis, roedd y cynrychiolwyr yn cofio llawer o’r gwerthoedd a’r ethos a oedd yn sail i'r dosbarthiadau meistr, yn ogystal â'r sgiliau a'r dulliau gweithredu.

Roedd rheolwyr yn cefnogi’r Rhaglen Maethu Lles ac roedd mentrau eraill wedi datblygu o ganlyniad iddi. Mae cefnogaeth rheolwyr yn hanfodol i fynd i'r afael â phresenoldeb a gadael cyn gorffen. Un anhawster mawr oedd sut i sicrhau bod pawb ar yr un cam os nad oeddent wedi mynychu'r dosbarthiadau meistr ac ni allent gael mynediad at ddosbarthiadau meistr yn y dyfodol (pe na byddent yn cael eu cynnal).

Cefnogir rôl yr arloeswr yn eang ac mae gofalwyr maeth, yn arbennig, yn frwdfrydig iawn am y model mentora gan gymheiriaid hwn. Mae'r model arloeswr yn dangos addewid mawr. Mae gofalwyr maeth wedi cael eu hynysu ac wedi bod yn brin o gymorth ers tro, ac ystyrir bod model mentora gan gymheiriaid yn arloesol ac yn rymusol. Nid yw'r rôl wedi'i datblygu'n llawn eto. Mae'n amlwg y bydd angen iddi gael ei chydlynu, ei chefnogi a'i hariannu'n dda. Mae gan awdurdodau lleol ymrwymiad i fentora hefyd, ac mae'r model arloeswr yn cyd-fynd yn dda â hyn. Rhybuddiodd gofalwyr a rheolwyr ynglŷn â ffiniau a therfynau'r rôl, gan ddweud y dylid ystyried bod ganddi swyddogaeth gefnogol yn y bôn. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a fyddai hyn yn parhau i gael ei gydlynu gan y Rhwydwaith Maethu neu gan ranbarthau neu awdurdodau lleol, er ein bod yn ymwybodol bod cynlluniau gweithredu rhanbarthol yn cael eu datblygu yn ystod 2022-2023.

## Cwestiynau Ymchwil

### 1 Cwestiwn Un - Archwilio'r rhaglen Maethu Lles i asesu a yw'r dosbarthiadau meistr yn cael eu cyflwyno i safon foddhaol

Mae'r dosbarthiadau meistr yn cael eu cyflwyno i safon ardderchog; cyflawnodd y rhaglen gydbwysedd effeithiol rhwng theori ac ymarfer ac adroddwyd bod lles yn cael ei drafod yn gyson. Roedd cyfranogwyr y cwrs yn gwerthfawrogi'r cyflwyniad i ystod eang o strategaethau ymarferol a ddarparwyd gan hyfforddwyr gwybodus a greodd ddiwylliant diogel a chydweithredol. Cyflwynwyd y deunyddiau ar gyflymder effeithiol a defnyddiwyd y grwpiau trafod i rannu arbenigedd a gwneud cysylltiadau. Mwynhaodd y cynrychiolwyr agwedd amlddisgyblaethol yr hyfforddiant, gan wneud cysylltiadau â chydweithwyr proffesiynol eraill. Roedd cyflwyno ar-lein yn gyfrwng cyfleus, ond ni allai ddisodli manteision cymdeithasol rhai digwyddiadau wyneb yn wyneb. Mae'r cyfranogwyr wedi ffeilio adnoddau'r cwrs er mwyn cyfeirio atynt ac mae rhai gweithwyr proffesiynol wedi defnyddio detholiad o'r deunyddiau hyn yn eu sesiynau hyfforddi eu hunain.

### 2 Cwestiwn Dau - Sut mae mynychu'r dosbarthiadau meistr wedi newid ymarfer gyda phlant

Roedd mynychu'r cwrs wedi galluogi'r cyfranogwyr i ymestyn eu sgiliau presennol i fabwysiadu model o ymarfer cynyddol fyfyriol. Dywedodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd eu bod wedi datblygu lefelau empathi a'u galluogodd i fabwysiadu dull mwy ystyriol, un lle gallent gymryd cam yn ôl yn ystod sefyllfaoedd heriol. Roedd hyn wedi helpu'r cynrychiolwyr i sylweddoli sut gallai profiadau blaenorol effeithio ar ymddygiad plant. Yn gyson, trafododd y cyfranogwyr sut oedden nhw wedi dysgu strategaethau newydd i ganolbwyntio ar y plentyn, gan fabwysiadu agwedd gyfannol i helpu i wella lles plant. Yn ogystal, trafodwyd yn aml bwysigrwydd neilltuo amser i ddyfnhau perthnasoedd trwy brofiadau a rennir a gwrando parchus. Roedd gofalwyr maeth yn teimlo eu bod wedi paratoi'n well ac mewn sefyllfa well i eiriol ar ran plant; o ystyried eu bod yn ymwybodol iawn o sefyllfa bresennol y plentyn, dylai hyn yn ei dro wella lles plant.

### 3 Cwestiwn Tri - Penderfynu a yw Maethu Lles wedi arwain at fwy o ymgysylltu rhwng gofalwyr maeth, a'r tîm o amgylch y plentyn?

Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i glywed amrywiaeth o safbwyntiau a gweld plant yn cael eu blaenoriaethu ar draws gwahanol wasanaethau. Arweiniodd natur gynhwysol y dosbarthiadau meistr at fwy o hunan-barch ymhlith nifer o'r gofalwyr maeth gan eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando ar eu harbenigedd ac yn ei werthfawrogi. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod y rhaglen yn gyfle i greu diwylliant o gydweithio trwy rannu gwybodaeth a dealltwriaeth. Cydnabuwyd hefyd bod y rhaglen yn gyfrwng delfrydol i adeiladu a chryfhau timau o amgylch y plentyn, lle gall aelodau'r tîm ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o rolau unigol, yn enwedig ar lefel ranbarthol. Trafododd llawer sut oeddent wedi gweithio'n fwy colegol, ac roedd cydweithwyr proffesiynol yn cydnabod y rôl bwysig y mae gofalwyr maeth yn ei chwarae. Derbyniwyd y neges glir bod rhianta corfforaethol yn ymdrech a rennir ac yn fusnes pawb.

### Cyfyngiad

O ganlyniad i lefelau isel o bresenoldeb gan rai grwpiau cydweithwyr proffesiynol a lefelau uchel o adael cyn gorffen, anaml y gwireddwyd y cyfleoedd i wella ymgysylltiad tîm yn llawn. Mae hyn yn gofyn am drafod yn barhaus â rheolwyr ac ymrwymiad parhaus ganddynt i annog eu staff yn gryf i fynychu neu eu cyfarwyddo i wneud hynny. Byddai arwain drwy esiampl yn ffordd dda o gyflawni hyn.

## 4 Cwestiwn Pedwar - Adolygu rôl yr arloeswr a'i gweithredu

Mae 57 o ofalwyr maeth profiadol o bob cwr o Gymru wedi gwirfoddoli i fod yn arloeswyr ac mae 51 wedi dechrau'r hyfforddiant o leiaf. Mae eu cymhelliant i gymryd rhan yn deillio o ddymuniad i ddarparu cymorth gan gyfoedion, yn enwedig i ofalwyr maeth newydd, ac awydd i greu cymuned o arloeswyr. Mae'r rhan fwyaf wedi mynychu'r hyfforddiant arloeswyr sy'n cyfuno cymysgedd o bynciau ffurfiol (gan gynnwys mentora cyfoedion a'r tîm o amgylch y plentyn) a sesiynau cwmpasog er mwyn hwyluso rhannu arbenigedd. Argymhellodd aelodau'r grwpiau ffocws arloeswyr fod rôl yr arloeswr yn cael ei theilwra'n rhanbarthol i ddefnyddio arbenigedd unigol, lleol, ond gyda rhywfaint o gydlynu cenedlaethol. At hynny, awgrymodd cyfranogwyr y grŵp ffocws, ar ôl cyfnod o ynysu yn gysylltiedig â'r pandemig, y gall arloeswyr helpu i wella cynhwysiant cymdeithasol ar gyfer gofalwyr maeth. Awgrymwyd mentora cyfoedion, cyfeirio, ynghyd â threfnu gweithdai sy'n mynd i'r afael â phynciau fel addysg a rheoli ymddygiad, i roi cymorth pellach. Er mwyn i'r fenter hon lwyddo, mae angen i bob awdurdod gefnogi a chydnabod y rôl y gall arloeswyr ei chwarae. Bydd angen sefydlu llinellau clir o gyfrifoldeb, atebolrwydd a chyfathrebu ar draws pob awdurdod a/neu ranbarth. At hynny, er mwyn i'r rôl arloeswr ddod yn effeithiol, mae angen i'r rôl gael swyddogaeth glir sy'n cael ei chyfleu i weithwyr cymdeithasol ac eraill yn y tîm o amgylch y plentyn.

### Cyfyngiad

Er bod y model yn dangos addewid mawr, mae'r rôl arloeswr yn ei dyddiau cynnar a dim ond ym mis Ionawr 2022 y dechreuodd yr hyfforddiant. Nid yw'r rôl wedi'i datblygu'n llawn, mae ar waith yn rhannol yn unig ac nid yw wedi'i gwreiddio eto yn sicr. Nid oes cynllun cenedlaethol na rhanbarthol cytunedig ar hyn o bryd. Bydd hwn yn faes gwaith parhaus ar gyfer 2022-2023.

## 5 Cwestiwn Pump - Asesu lefelau ymgysylltiad y gwasanaeth â'r rhaglen a chynaliadwyedd yn y dyfodol gyda'r rhaglen

Mae Maethu Lles yn darparu rhaglen ddysgu sy'n cyd-fynd â Fframwaith Dysgu a Datblygu Maethu Cymru. Mae cwblhau'r cwrs yn arbennig o werthfawr i ofalwyr maeth newydd, addysgwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol, a gall natur ryngddisgyblaethol y cwrs gyfrannu at adeiladu'r tîm cyfan o amgylch y plentyn. Gall arloeswyr ddarparu cymorth gan gymheiriaid y mae mawr ei angen er mwyn rhannu mwy o arbenigedd a hybu lles gofalwyr maeth. Byddai ymrwymiad i Faethu Lles yn galluogi awdurdodau lleol i gynnwys yr hyfforddiant yn eu cynlluniau a'u calendrau tymor hwy. Byddai amlinellu cyfrifoldeb a chefnogaeth yn glir yn cryfhau sefydlu'r rolau arloeswyr.

### Cyfyngiad

Nid yw'r gwaith cynllunio gwasanaeth a chynllunio gweithredu wedi cael ei ddatblygu cyn belled ag y gobeithiwyd, yn rhannol oherwydd bod blaenoriaethau wedi bod yn cystadlu yn ystod Covid-19, sy’n ddealladwy. Bydd hyn yn ffocws pwysig i'r rhaglen Maethu Lles ar gyfer y cyfnod o fis Hydref 2022 tan fis Mawrth 2023.

Rydym wedi datblygu model rhesymeg ar gyfer y rhaglen Maethu Lles, gweler atodiad 3.

# Argymhellion

1. Mae'r dosbarthiadau meistr yn parhau i gael eu cyflwyno ar-lein gan y Rhwydwaith Maethu. Mae'n aneglur p'un a fydd y galw'n bodoli mewn awdurdodau lleol penodol, o ystyried yr amcangyfrifir bod 15% o ofalwyr Maethu Cymru awdurdodau lleol eisoes wedi'u hyfforddi, a llawer mwy gan rai awdurdodau lleol. Mae'n debygol, felly, bod darpariaeth ranbarthol yn fwy ymarferol.

2. Mae angen hyrwyddo'r rhaglen yn fwy os yw Maethu Lles am gyrraedd pob rhan o Gymru: dylai hyn gynnwys lledaenu rhywfaint o'r adborth cadarnhaol a gafwyd eisoes. Dylai'r deunydd hyrwyddo fod yn ddyheadol, gan ddatgan manteision posibl y rhaglen yn glir.

3. Mae angen i gydweithwyr proffesiynol gael eu hannog yn gryf neu eu cyfarwyddo i fynychu, ac felly mae cefnogaeth gan reolwyr yn hanfodol. Byddai arwain drwy esiampl, gyda rheolwyr yn mynychu, yn ddefnyddiol i feithrin newid mewn diwylliant tîm.

4. Os yw'r Rhwydwaith Maethu'n cynnal y dosbarthiadau meistr, mae angen i awdurdodau gael y dyddiadau ymhell ymlaen llaw i'w cynnwys yn eu calendrau hyfforddi blynyddol.

5. Dylid ystyried cydhwyluso'r dosbarthiadau meistr gan ofalwr maeth, gan fodelu'r negeseuon o'r rhaglen.

6. Dylai'r dosbarthiadau meistr dreulio llai o amser ar yr egwyddorion a neilltuo mwy o amser i drafod (mae hyn wedi'i weithredu'n rhannol).

7. Er mwyn helpu i ymgorffori'r hyn a ddysgwyd, gallai'r cyfranogwyr dreulio ychydig mwy o amser yn myfyrio yn ystod y sesiwn ac yna trafod eu harferion wedi'u haddasu mewn grwpiau trafod ar ddechrau'r sesiwn ganlynol.

8. Dylai pob dosbarth meistr gynnwys o leiaf un cyfraniad gan berson ifanc sydd â phrofiad o ofal, yn ddelfrydol mwy (gallai rhai o'r rhain gael eu recordio ymlaen llaw, fel nad yw pobl yn gorfod ailadrodd eu straeon dro ar ôl tro, ond bydd angen gofyn am ganiatâd yn rheolaidd i barhau i'w defnyddio).

9. Cyflwynir y cwricwlwm ysgol newydd yn nosbarth meistr pedwar, ond gellid ymdrin yn fanylach â'r pwnc hwn, oherwydd efallai na fydd llawer o ofalwyr maeth yn ymwybodol o gwricwlwm newydd Cymru a'r dull ysgol gyfan. Yn ogystal, byddai'n ddefnyddiol rhoi diweddariadau i gynrychiolwyr ar y newidiadau mewn cymorth addysg i'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r symudiad tuag at gynlluniau datblygu unigol. Yn y modd hwn, mae gwybodaeth i weithwyr addysg a chanddynt yn llifo i'r ddau gyfeiriad.

10. Dylid dilyn y dosbarthiadau meistr gan ddigwyddiad wyneb yn wyneb i ganiatáu ar gyfer rhwydweithio. Gallai hyn gael ei gydhwyluso gan arloeswyr. Gellid gweithredu system gyfeillio ffurfiol er mwyn i'r cynrychiolwyr baru â'i gilydd i drafod sut i ymgorffori'r hyn a ddysgwyd yn ymarferol.

11. Dylid datblygu set o ddosbarthiadau meistr wedi'u teilwra i fyd addysg (gobeithir y bydd sesiynau cyfnos yn cael eu treialu cyn diwedd y cynllun peilot). Gallai diwrnodau hyfforddi athrawon gael eu nodi a'u dyrannu at y diben hwn hefyd. Bydd yn bwysig cynnwys

cydweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys gofalwyr maeth, fel nad yw'r budd a geir o ddysgu amlddisgyblaethol yn cael ei golli.

**12** Gallai'r dosbarthiadau meistr gael eu cynnig i rieni sydd wedi mabwysiadu plant yn ddiweddar.

**13** Er mwyn cyrraedd pob plentyn sy'n derbyn gofal, gallai pob gofalwr a thîm gwaith cymdeithasol yn y sector annibynnol, gan gynnwys lleoliadau preswyl, gael cynnig mynediad i'r rhaglen.

**14** Mae angen i'r model arloesi gael cydlynydd rhanbarthol clir a dylid cynnig cymorth i arloeswyr, y mae cyllideb ariannol wedi'i dyrannu iddo.

**15** Byddai brand cenedlaethol newydd Maethu Cymru a'i wefan gysylltiedig yn gweddu'n dda i hyrwyddo'r model arloesi ac fe allai fod yn blatfform addas i gadw'r Padedi, yr adnoddau a manylion cyswllt arloeswyr. Byddai angen i hyn gael ei gydlynu'n genedlaethol.

**16** Awgrymwyd y dylai fod o leiaf dri i bedwar arloeswr fesul awdurdod lleol, gyda llinellau atebolrwydd clir. Pe bai gormod yn cael eu recriwtio yna mae'n debygol y bydd angen rhyw fath o ddull dethol.

**17** Dylai rhai arloeswyr ddod â phrofiad o ofal gan berthynas; mae angen recriwtio rhai arloeswyr gwrywaidd hefyd.

**18** Dylai'r Rhwydwaith Maethu wneud mwy o waith i ddatblygu cysylltiadau mewn awdurdodau lleol i helpu i ddatblygu cynlluniau gweithredu rhanbarthol er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol a rhanbarthau'n llwyr gefnogi'r rhaglen Maethu Lles.

**19** Byddai ymrwymiad mwy hirdymor i'r rhaglen yn darparu cynaliadwyedd ac yn galluogi awdurdodau i ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o Faethu Lles.

**20** Adolygu ei nod o 'wella canlyniadau addysgol i blant'. O ystyried nad dyma yw prif bwyslais y rhaglen, fe allai fod yn ddefnyddiol ei ddiwygio.

# Cyfeirnodau


Braun,V., Clarke,V., a Terry, G. 2015. Thematic analysis. Yn: Rohleder,P. a Lyons, A. goln. *Qualitative research in clinical and health psychology*. Basingstoke: Palgrave MacMillan, tud.(au) 95-113.

Cameron, C. 2016. Social pedagogy in the UK today: Findings from evaluations of training and development initiatives. *Pedagogia Social. Revista Interuniversitaria* 27, tud.(au) 199-223.

Cameron, C., a Moss, tud. 2011. Social pedagogy and working with children and young people: where care and education meet. Llundain: Jessica Kingsley Publishers.

Coussée, F., Bradt, L., Roose, R., a Bouverne-De Bie, M. 2010. The emerging social pedagogical paradigm in UK child and youth care: dues ex machina or walking the beaten path? *British Journal of Social Work* 40, tud.(au) 789-805.

Yr Adran Addysg a Sgiliau. 2003. *Every child matters.* Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/272064/5860.pdf [Cyrchwyd: 17 Mawrth 2022].

Yr Adran Addysg a Sgiliau. 2007. *Care matters: time for change*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/326311/Care_Matters_-_Time_for_Change.pdf [Cyrchwyd: 17 Mawrth 2022].

Development Service Group Inc. a'r Porth Gwybodaeth Lles Plant. 2015. *Promoting protective factors for children and youth in foster care: A guide for practitioners.* Ar gael yn: https://www.childwelfare.gov/pubs/factsheets/guide-fostercare/ [Cyrchwyd: 14 Mehefin 2022].

Everson-Hock E., Jones R., Guillaume L., Clapton J., Goyder E., Chilcott J., Payne N., Duenas A., Sheppard L., a Swann C. 2012. The effectiveness of training and support for carers and other professionals on the physical and emotional health and well-being of looked-after children and young people: a systematic review. *Child Care Health Development* 38(2), tud.(au) 162-74.

Fergeus, J., Humphreys, C., Harvey, C., a Herrman, H. 2017. Assisting carers to respond to the mental health needs of children. *Children Australia* 42(1), tud.(au) 30-37.

Fergeus, J., Humphreys, C., Harvey, C., a Herman, H. 2019. Supporting foster and kinship carers to promote the mental health of children. *Child and Family Social Work* 24, tud.(au) 77-83.

Halfon, N., Menonca, A., a Berkowitz, G. 1995. Health status of children in foster care. *Archives of Paediatrics and Adolescent Medicine* 149, tud.(au) 386-392.

Hamalainen, J. 2003. The concept of social pedagogy in the field of social work. *Journal of Social Work* 3 (1), tud.(au) 69-80.

Hatton, K. 2013. *Social pedagogy in the UK, theory and practice*. Lyme Regis: Russell House Publishing Ltd.

McDermid, S., Holmes, L., Ghate, D., Trivedi, H., Blackmore, J., a Baker, C. 2016. *Evaluation of head, heart, hands: introducing social pedagogy into UK foster care. Final report.* Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/313729225_The_evaluation_of_Head_Heart_Hands_Introducing_social_pedagogy_into_UK_foster_care_Final_synthesis_report_executive_summary [Cyrchwyd: 23 Mawrth 2022].

McDermid, S., Holmes, L., Ghate, D., Trivedi, H., Blackmore, J., a Baker, C. 2019. *Evaluation of head, heart, hands: introducing social pedagogy into UK foster care. Final report.* Ar gael yn: https://hdl.handle.net/2134/24091 [Cyrchwyd 23 Mai 2022].

Maclay, F. 2006. Surviving the system as a foster carer. *Adoption and Fostering* 30(1), tud.(au) 29-38.

Murray, L., Tarren-Sweeny, M., a France, K. 2011. Foster carer perception of support and training in the context of high burden care. *Child and Family Social Work* 16, tud.(au) 149-158.

Nutt, L. 2006. *The lives of foster carers: private sacrifices, public restrictions*. Abingdon Oxon: Routledge.

Petrie, P., Boddy, J., Cameron, C., Simon, A., a Wigfall, V. 2006. *Working with children in residential care: European perspectives.* Buckingham: Open University Press.

Petrie, P. 2013. Social pedagogy in the UK: gaining a firm foothold? *Education Policy Analysis Archives* 21 (37), tud.(au) 1-13.

Power. S., Newton, N., a Taylor, C. 2020. Dyfodol llwyddiannus i bawb yng Nghymru? Yr heriau wrth ddiwygio cwricwla i ymdrin ag anghydraddoldeb addysgol. *The Curriculum Journal 31 (2),* tud.(au) 317-333.

Rees, A., Maxwell, N., Grey, J., Corliss, C., Barton, A., Khan, A., O'Donnell, C., a Silverwood, V. 2019. *Adroddiad terfynol ar gyfer gwerthuso'r rhaglen maethu lles.* Ar gael yn: https://orca.cardiff.ac.uk/128577/ [Cyrchwyd: 6 Mehefin 2022].

Ruch, G., Winter, K., Cree, V., Hallet, S., Morrison, F., a Hadfield, M. 2017. Making meaningful connections: using insights from social pedagogy in statutory child and family social work practice, *Child and Family Social Work* 22, tud.(au) 1015-1023.

Sebba, J., Luke, N., Rees, A., Plumridge, G., Rodgers, L., Hafesji, K., a Rowsome-Smith, C. 2016. *Evaluation of the London fostering achievement programme final report.* Ar gael yn: https://www.london.gov.uk/sites/default/files/london_fostering_achievement_evaluation_final_report.pdf [Cyrchwyd: 6 Mehefin 2022].

Sebba, J., a Luke, N. 2019. The educational progress and outcomes of children in care: editorial. *Oxford Review of Education* 45 (4), tud.(au) 435-442.

Gofal Cymdeithasol Cymru. 2022. *Fframwaith sefydlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.* Ar gael yn: https://socialcare.wales/learning-and-development/induction-for-health-and-social-care-awif [Cyrchwyd: 1 Mehefin 2022].

Tarren-Sweeney, M. 2008. The mental health of children in out-of-home care. *Current Opinion in Psychiatry* 21, tud.(au) 345-349.

Y Rhwydwaith Maethu. 2021. *Cyflwr gofal maeth y genedl 2021. Chwyddwydr ar Gymru.* Ar gael yn: https://thefosteringnetwork.org.uk/sites/default/files/2022-03/State%20of%20the%20Nation%202021%20-%20Spotlight%20on%20Wales%20-%20ENG_2.pdf [Cyrchwyd: 17 Mawrth 2022].

Y Rhwydwaith Maethu ac AFA Cymru. 2019. *Fframwaith dysgu a datblygu ôl-gymeradwyo ar gyfer gofalwyr maeth.* Ar gael yn: https://www.afacymru.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/LD-Framework_E-1.pdf [Cyrchwyd: 17 Mawrth 2022].

Llywodraeth Cymru 2018. *Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018*. Ar gael yn: https://www-legislation-gov-uk.abc.cardiff.ac.uk/wsi/2018/1339/made/data.pdf [Cyrchwyd: 16 Mehefin 2022].

Llywodraeth Cymru. 2014. *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/code-of-practice-in-relation-to-measuring-social-services-performance.pdf [Cyrchwyd: 17 Mawrth 2022].

Llywodraeth Cymru. 2018. *Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018*. Ar gael yn: https://www-legislation-gov-uk.abc.cardiff.ac.uk/wsi/2018/1339/contents [Cyrchwyd: 6 Mehefin 2022].

Llywodraeth Cymru. 2020. *Y Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales /curriculum -for-wales /introduction [Cyrchwyd: 20 Mawrth 2022].

Senedd Cymru. 2018. *Cadernid meddwl. Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru.* Ar gael yn: https://www.exchangewales.org/wp-content/uploads/sites/14/2020/06/cr-ld11522-e.pdf [Cyrchwyd: 1 Mawrth 2022].

Senedd Cymru. 2020. *Cadernid meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach.* Ar gael yn: https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13568/cr-ld13568-e.pdf [Cyrchwyd: 1 Mawrth 2022]

Wilks, S., a Wise, S. 2011. *The care factor: rewards and challenges of raising foster children.* Ar gael yn: https://www.anglicarevic.org.au/wp-content/uploads/2016/12/AV-Foster-Carer-Report-FinAll2.pdf [Cyrchwyd: 16 Mehefin 2022].

Wilson, K., Sinclair, I., a Gibbs, I. 2000. The trouble with foster care: The impact of stressful events on foster carers. *British Journal of Social Work* 30, tud.(au) 193-209.

# Atodiad 1

Y Rhaglen Maethu Lles

Dosbarth Meistr 1 - Fframwaith hwylusydd

| | | |
|---|---|---|
| Dosbarth Meistr 1 | Gwybod a diwallu anghenion | **Egwyddorion**<br>1 Mae'n rhaid diwallu holl anghenion y plentyn - mae'n hanfodol deall ac ymateb i'r **plentyn/person ifanc cyfan** i wella ei (l)lesiant.<br>2 Bydd **barn pob unigolyn am fywyd** a'r byd ehangach yn wahanol, a fydd yn deillio o'i gefndir, ei brofiadau a'i feddylfryd ei hun; |
| Nodau | *Nodau'r Rhaglen Maethu Lles yw bod yr holl gyfranogwyr a noddwyr yn:*<br>1 amlygu a rhannu'r gwerthoedd a'r egwyddorion craidd a fydd yn helpu plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i ffynnu;<br>2 datblygu sgiliau a chymwyseddau cyffredin a fydd yn helpu i baratoi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i gyflawni eu potensial;<br>3 dod yn hyderus mewn dull cyffredin a chyson o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a fydd, yn ei dro, yn tanio uchelgais ac yn eu helpu i sicrhau llwyddiant;<br>4 bod yn eiriolwyr gweithredol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt, boed hynny fel unigolion neu'n gorfforaethol. | |

*Dosbarth Meistr 1 Maethu Lles, Fersiwn: 1.0*

| | |
|---|---|
| Amcanion | *Amcanion penodol y dosbarth meistr hwn yw bod y cyfranogwyr yn:*<br><br>1 cyrraedd dealltwriaeth o les a'r pum maes angen, gan ddefnyddio iaith gyffredin;<br><br>2 dod yn gyfarwydd â'r egwyddorion sy'n sail i'r Rhaglen Maethu Lles;<br><br>3 gwrando ar straeon plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu sydd wedi bod yn derbyn gofal a dysgu ganddynt;<br><br>4 archwilio a gwerthuso'r gwahanol fethodolegau ar gyfer darganfod beth mae plant a phobl ifanc yn ei feddwl a'i deimlo;<br><br>5 cael syniad o safbwyntiau gofalwyr maeth a chydweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac yn gofalu amdanynt;<br><br>6 archwilio'r gwerthoedd a'r agweddau y mae ymchwil wedi dangos eu bod yn cael yr effaith fwyaf wrth gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod; bydd hyn yn cynnwys yr egwyddor bod gofalu am blentyn sy'n derbyn gofal yn ymdrech a rennir sy'n gofyn am ymrwymiad a gweithio mewn partneriaeth.<br><br>*Amcanion ehangach y dosbarthiadau meistr yw bod y cyfranogwyr yn:*<br><br>7 ennill dealltwriaeth gyffredin o anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal;<br><br>8 datblygu eu dealltwriaeth o'r egwyddorion sy'n sail i'r Rhaglen Maethu Lles a sut mae angen eu cymhwyso'n ymarferol;<br><br>9 croesawu a chymhwyso'r damcaniaethau, y gweithgareddau ymarferol a'r deunyddiau adnodd a fydd yn gwella profiad a lles plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal; |

| | |
|---|---|
| | **10** cynyddu gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau, hyder ac agweddau cadarnhaol unigolion ac asiantaethau i wella lles plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal;<br><br>**11** datblygu dealltwriaeth ddyfnach gan bawb o rolau gofalwyr maeth a chydweithwyr ac agor sianeli cyfathrebu a fydd o fudd i'r plant a'r bobl ifanc sydd yn eu gofal. |

| | |
|---|---|
| **Rhesymeg** | Mae gan bawb yr un anghenion sylfaenol. I fodoli, mae angen diwallu ein hangen corfforol am fwyd, gwres, lloches, a rhyddid rhag clefyd. Mae'r angen i ddiwallu ein anghenion cymdeithasol, emosiynol, a diwylliannol yn rhan o fod yn ddynol. Lles, at ddibenion y rhaglen hon, yw'r cyflwr a gyrhaeddir pan fydd pum angen sylfaenol unigolyn yn cael eu diwallu.<br><br>Mae egwyddorion addysgeg gymdeithasol yn sail i lawer o'r dulliau mwyaf effeithiol o ddiwallu ein hanghenion sylfaenol. Mae'r egwyddorion hyn yn rhoi pobl cyn prosesau, a pherthnasoedd cyn rheolau. Er na fydd yr iaith a'r damcaniaethau sydd wrth wraidd addysgeg gymdeithasol yn amlwg yn y rhaglen, bydd yr egwyddorion allweddol sy'n berthnasol i les plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn ffurfio cynnwys y dosbarthiadau meistr.<br><br>Dim ond mewn ffordd gyfannol y gellir diwallu anghenion sylfaenol unigolyn. Mae'n rhaid i ni gydnabod, er bod gan bob un ohonom yr un anghenion sylfaenol, bydd ein profiadau o'r byd i gyd yn wahanol. Felly, bydd ein gwerthoedd, ein hagweddau a'n galluoedd yn wahanol o ran ystod, cryfder a chymhlethdod. |
| **Canlyniadau** | Bydd y cyfranogwyr yn:<br><br>• gwrando ar eraill a dysgu ganddynt<br>• myfyrio ar eu gwerthoedd, eu hagweddau a'u harferion eu hunain a allai arwain at newid er gwell mewn perthnasoedd a'r ffordd y darperir gwasanaethau<br>• deall y pum maes angen<br>• deall a chroesawu'r 10 egwyddor sy'n sail i'r Rhaglen Maethu Lles<br>• caffael dealltwriaeth well o'r safbwyntiau a gynigir gan gydweithwyr proffesiynol i wella lles plant a phobl ifanc<br>• deall sut y gall cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fodloni anghenion y plentyn neu'r person ifanc cyfan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amlinelliad o'r dosbarth meistr** | • Cyflwyniad i'r Rhaglen Maethu Lles a'r 10 egwyddor<br>• Lles a diwallu anghenion plant a phobl ifanc<br>• Straeon bywyd go iawn – rhannu arferion da gan ofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol<br>• Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc - y model PACE<br>• Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac arfer da o faes addysg<br>• Myfyrio, dysgu a chymhwyso gwersi | | |
| **Amserlen y dosbarth meistr** | Cyflwyniad | Sleidiau 2 – 7 | 20 munud |
| | Beth yw Lles? | Sleidiau 8 -10 | 15 munud |
| | Llais pobl ifanc | Sleid 11 | 10 munud |
| | Egwyddorion Maethu Lles | Sleidiau 12 – 18 | 15 munud |
| | **Egwyl** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adnabod anghenion plentyn – Gofalwr Maeth / Gweithiwr Cymdeithasol | Sleid 19 | 15 munud |
| | Ymgysylltu â Phlant – y model PACE (cyflwyniad DDP neu EP) | Sleid 20 | 20 munud |
| | Diwallu anghenion iechyd (Gweithwyr Iechyd Proffesiynol) | Sleid 21 | 10 munud |
| | Adnabod y plentyn cyfan | Sleidiau 22 – 25 | 10 munud |
| | Arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn addysg (DT neu LACE) | Sleid 26 | 10 munud |
| | Myfyrio a Gorffen | Sleidiau 27 – diwedd | 10 munud |
| **Adnoddau** | **Taflenni**<br>**1** 10 egwyddor y Rhaglen Maethu Lles<br>**2** Cysyniad lles<br>**3** Siart y pum maes angen sylfaenol<br>**4** Deg peth y mae plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr maeth eisiau i chi eu gwybod.<br>**5** Templed proffil un dudalen | | |

| | |
|---|---|
| | **6** Dyddlyfr myfyrdodau personol<br><br>**7** Head, Heart, Hands – straeon addysgeg gymdeithasol |

# Atodiad 2

**Y Rhaglen Maethu Lles: Mapio'r hyn a ddysgwyd o'r Dosbarthiadau Meistr i Fframweithiau Dysgu Cymru**


| Dosbarthiadau Meistr Maethu Lles | Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Fframwaith Dysgu a Datblygu Ôl-gymeradwyo ar gyfer Gofalwyr Maeth yng Nghymru |
|---|---|---|
| 1. Adnabod a diwallu anghenion | **2. Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol**<br><br>• Dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn<br>• Cyfathrebu<br>• Newid a phontio ym maes gofal cymdeithasol plant<br><br>**4. Iechyd a lles**<br><br>• Lles<br>• Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles<br>• Amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer iechyd, lles a datblygiad plant a phobl ifanc<br>• Chwarae | **Pynciau craidd**<br><br>• Datblygu sylfaen ddiogel a hyrwyddo ymlyniad<br>• Deall ymddygiad heriol a hyrwyddo strategaethau cadarnhaol<br>• Datblygiad plant<br>• Pontio ar gyfer plant a phobl ifanc<br>• Cefnogi addysg a datblygiad<br>• Hybu iechyd a lles da<br><br>**Pynciau ychwanegol**<br><br>• Cydraddoldeb ac amrywiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | • Lleferydd, iaith a chyfathrebu<br><br>**5. Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol**<br><br>• Datblygiad proffesiynol parhaus | • Hyrwyddo annibyniaeth<br>• Deall iechyd meddwl plant a phobl ifanc |
| **2. Byw a Thyfu** | **2. Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol**<br><br>• Dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn<br>• Cyfathrebu<br>• Newid a phontio ym maes gofal cymdeithasol plant<br><br>**4. Iechyd a lles**<br><br>• Lles<br>• Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles<br>• Amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer iechyd, lles a datblygiad plant a phobl ifanc<br>• Chwarae<br>• Lleferydd, iaith a chyfathrebu<br><br>**5. Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol**<br><br>• Datblygiad proffesiynol parhaus | **Pynciau craidd**<br><br>• Datblygu sylfaen ddiogel a hyrwyddo ymlyniad<br>• Deall ymddygiad heriol a hyrwyddo strategaethau cadarnhaol<br>• Datblygiad plant<br>• Pontio ar gyfer plant a phobl ifanc<br>• Cefnogi addysg a datblygiad<br>• Hybu iechyd a lles da<br><br>**Pynciau ychwanegol**<br><br>• Cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• Hyrwyddo annibyniaeth<br>• Deall iechyd meddwl plant a phobl ifanc<br>• Ymlyniad uwch a thrawma |
| **3. Fi, chi, ni a nhw** | **2. Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol**<br><br>• Dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn<br>• Cyfathrebu<br>• Newid a phontio ym maes gofal cymdeithasol plant | **Pynciau craidd**<br><br>• Datblygu sylfaen ddiogel a hyrwyddo ymlyniad<br>• Deall ymddygiad heriol a hyrwyddo strategaethau cadarnhaol<br>• Pontio ar gyfer plant a phobl ifanc<br>• Cofnodi, cyflwyno a rhannu gwybodaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | **4. Iechyd a lles**<br><br>• Lles<br>• Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles<br>• Amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer iechyd, lles a datblygiad plant a phobl ifanc<br>• Chwarae<br>• Lleferydd, iaith a chyfathrebu<br><br>**5. Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol**<br><br>• Datblygiad proffesiynol parhaus | • Cefnogi addysg a datblygiad<br>• Hybu iechyd a lles da<br><br>**Pynciau ychwanegol**<br><br>• Cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• Hyrwyddo annibyniaeth<br>• Deall iechyd meddwl plant a phobl ifanc |
| **4. Ymarferol** | **2. Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol**<br><br>• Dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn<br>• Cyfathrebu<br>• Newid a phontio ym maes gofal cymdeithasol plant<br><br>**4. Iechyd a lles**<br><br>• Lles<br>• Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles<br>• Amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer iechyd, lles a datblygiad plant a phobl ifanc<br>• Chwarae<br>• Lleferydd, iaith a chyfathrebu<br><br>**5. Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol**<br><br>• Datblygiad proffesiynol parhaus | **Pynciau craidd**<br><br>• Datblygu sylfaen ddiogel a hyrwyddo ymlyniad<br>• Deall ymddygiad heriol a hyrwyddo strategaethau cadarnhaol<br>• Datblygiad plant<br>• Pontio ar gyfer plant a phobl ifanc<br>• Cefnogi addysg a datblygiad<br>• Hybu iechyd a lles da<br><br>**Pynciau ychwanegol**<br><br>• Cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• Hyrwyddo annibyniaeth<br>• Deall iechyd meddwl plant a phobl ifanc<br>• Ail-rianta therapiwtig<br>• Ymlyniad uwch a thrawma |

| | | |
|---|---|---|
| **5. Gweithio fel un** | **2. Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol**<br><br>• Dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn<br>• Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Cyfathrebu<br>• Newid a phontio ym maes gofal cymdeithasol plant<br><br>**5. Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol**<br><br>• Rolau a chyfrifoldebau'r gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol<br>• Gweithio mewn partneriaeth<br>• Gweithio mewn tîm<br>• Trin gwybodaeth<br>• Ymddygiad personol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol<br>• Datblygiad proffesiynol parhaus | **Pynciau craidd**<br><br>• Cofnodi, cyflwyno a rhannu gwybodaeth<br>• Gweithio gyda theuluoedd biolegol a chysylltiadau<br>• Pontio ar gyfer plant a phobl ifanc<br>• Cefnogi addysg a datblygiad<br>• Hybu iechyd a lles da<br><br>**Pynciau ychwanegol**<br><br>• Cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• Hyrwyddo annibyniaeth |

# Atodiad 3


Target
Who is the intervention for?
Foster carers
Social workers
Health workers
Education staff
Other (including youth workers, police, etc.)
Intervention
What is the intervention?
5 x Masterclasses
Pioneer training
Leads to
Foster carer mentoring
Service plan
Change Mechanisms
How and why does your intervention work?
Accessible on-line programme
Input from experts who provide knowledge and strategies
Inter-disciplinary approach promotes respect and shared priorities
Skilled facilitators who create a positive learning environment
Pioneer programme
Foster carers gain confidence to increase advocacy
Content with consistent message rooted in social pedagogy
Outcomes
What difference will it make?
Shared levels of child centred approach in team
Increase in wellbeing of child and foster carer
Improved knowledge of roles in team
Increased peer support amongst foster carers
Signposted resources and strategies for support
More secure placements
Improved educational experiences
Moderators
What factors will influence the change process?
Secure funding
Improved attendance figures
Inter-disciplinary commitment
Planning – regions require notice to enable communication and organisation
Regional commitment
Lower attrition levels
Estabishment of pioneers

## Awduron a Chyfranwyr

Alyson Rees, Bridget Handley

Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE), Prifysgol Caerdydd, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol (SOCSI), Prifysgol Caerdydd

## I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

CASCADE: Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant

SPARK | Prifysgol Caerdydd
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ

CASCADE@caerdydd.ac.uk